

Dysgu Cymraeg Uwch 3 (B2)

www.dysgucymraeg.cymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYMRAG

Dysgu
Learn

Croeso!

Croeso i Gwrs Uwch 3. Yn y cwrs yma, byddwch chi'n mwynhau darnau darllen, gwylio a gwranddo sy'n dod o lyfrau neu gylchgronau Cymraeg, ac o raglenni ar Radio Cymru ac S4C. Bydd adrannau **Gwybodaeth o iaith** ym mhob uned hefyd, yn ogystal ag adrannau **Cefndir** sy'n trafod pwnc am y Gymru gyfoes neu bwnc hanesyddol. Bydd yr eirfa ar ddechrau'r uned yn codi yn yr uned, felly bydd yn well dysgu'r eirfa cyn y wers. Mae'r darnau **Gwranddo a gwylio** ar ein gwefan - www.dysgucymraeg.cymru – ac mae ymarferion eraill i'ch helpu chi gyda geirfa a gramadeg hefyd. Mae adrannau **Gwaith cartref** yng nghefn y llyfr yma.

Mae'n bwysig ymarfer eich sgiliau mor aml â phosib y tu allan i'r dosbarth – gwrandewch ar Radio Cymru, gwylwch S4C a darllenwch yn Gymraeg! Bydd eich tiwtor hefyd yn dweud wrthoch chi am lawer o gyfleoedd i ymarfer ac i ddefnyddio'ch Cymraeg.

Pob lwc!

Uned 1

Nod yr uned hon yw...

- Cyflwyno agweddau ar arholiad Defnyddio'r Gymraeg Uwch
- Dysgu am gylchgronau Cymraeg

Geirfa

● enwau benywaidd	<i>feminine nouns</i>
● enwau gwrywaidd	<i>masculine nouns</i>
● berfau	<i>verbs</i>
● ansoddeiriau	<i>adjectives</i>
● arall	<i>other</i>

carfan(au) *squad(s), cohort(s)*

côl *lap*

deiseb(au) *petition(s)*

amod(au) *condition(s)*

ansawdd *quality*

bygythiad(au) *threat(s)*

camargraff(iadau) *wrong impression(s)*

camsyniad(au) *misconception(s), error(s), mistake(s)*

cyflwr (cyflyrau) *state, condition(s)*

economi (economïau) *economy (-ies)*

glin(iau) *lap(s)*

hwb *boost*

pryder(on) *concern(s)*

trigolion *residents*

canfod *to find, to discover*

cynddeiriogi *to infuriate*

cywiro *to correct*

dod i'r amlwg *to come to light*

dwyn pwysau (ar) *to put pressure (on)*

erlyn *to prosecute*

goddef *to put up with; to suffer*

gorffwys *to rest*

gwrthwynebu *to oppose*

lletya *to lodge, to have accommodation*

manteisio (ar) *to take advantage (of)*

mynegi *to express*

ymsefydlu *to establish oneself*

annerbyniol *unacceptable*

hollbwysig *pwysig iawn, iawn*

negyddol *negative*

ôl-radd *postgraduate*

tebygol *likely*

bellach	erbyn hyn
Clawdd Offa	<i>Offa's Dyke</i>
codiad(au) cyflog	<i>pay rise(s)</i>
cytuno'n llwyr	<i>to completely agree</i>
dod at eu coed	<i>to come to their senses</i>
dros dro	<i>temporary</i>
Dulyn	<i>Dublin</i>
effaith andwyol	<i>a detrimental effect</i>
er lles	<i>for the benefit (of)</i>
gwrthwynebu'n chwyn	<i>to vehemently oppose</i>
loes calon	<i>cause of distress</i>
testun gofid	<i>a matter of concern</i>
traed moch	<i>chaos, mess, shambles</i>
yn y pen draw	<i>in the long run</i>

Geiriau pwysig i mi...

.....

.....

.....

Siaradwch



Siarad personol – Disgrifiwch eich swydd gyntaf erioed.

Gyda'ch partner, ysgrifennwch enwau o leiaf 10 o swyddi gwahanol yn y blwch:

Disgrifiwch eich swydd gyntaf erioed

Soniwch am:

- beth oedd y swydd
- pam ceisioch chi am y swydd yma
- beth rydych chi'n ei gofio am y cyfweiliad
- eich diwrnod cyntaf yn y swydd
- beth fasech chi wedi'i wneud yn wahanol

Gwybodaeth o iaith



Gyda'ch partner, llenwch y bylchau yn y darn.

Symudodd fy nheulu i lwerddon ddwy flynedd yn ôl. Rŵan, ar ôl prynu tŷ o fewn saith milltir Ddulyn, ry'n ni wedi ymsefydlu yma diwedd. Mae'n teimlo fel fo'n gartref i ni erbyn hyn. hi ddim yn hawdd i ni ar y dechrau. Cymerodd hi fisoedd cyn i mi gael swydd ac mae bywyd yn galed gyflog. Ond symud yma yn y lle cyntaf? Wel, mae sawl rheswm: Gwyddeles ydy fy ngwraig i; cafodd hi ei a'i magu yn Nulyn. Ers i ni ddechrau mynd allan efo'n , ro'n i'n gwybod mai i lwerddon y basai'n rhaid i ni symud yn y pen draw. Mae ei hi'n ddwfn yma, a'i theulu mawr i gyd yn byw o fewn carreg i ni. Dywedodd Sinéad wrtha i fod hynny'n amod, cyn i ni briodi! Felly dyma fi. Ar hyn o bryd, dw i'n gweithio i'r Bwrdd Twristiaeth ac yn llawer o gwmpas lwerddon mewn car neu ar drên. Os caf fi hwyl arni dros y flwyddyn, bydda i'n cael codiad cyflog, ac yn gorfod mwy o amser yn mynd o le i le. Dw i'n poeni tipyn bach am hynny, gan y plant yn fach o hyd. Maen nhw'n hoffi gweld dadi, a ar stori cyn mynd i'r gwely! Maen nhw'n siarad Cymraeg efo fi, ond dw i'n gwybod mai Saesneg fydd eu prif nhw yn y pen draw. Mae teulu Sinéad yn help mawr wrth gwrs, a byddai'n anodd iawn hebddyn nhw. Trwy lwc, maen nhw'n bobl ddymunol a dw i'n mwynhau bod yn eu cwmni nhw.

Dw i'n teimlo am Gymru ambell waith, pan fydda i'n clywed gan ffrindiau neu deulu yno, ond ddylwn i ddim cwyno!

Ymarfer

Cyfieithwch:

1. *He seems to be sleeping at last.*

.....

2. *He seems to be listening to me.*

.....

3. *She seems to be going without food.*

.....

4. *It seems as if they are forgetting their roots.*

.....

5. *It seems as if we are within half an hour of the airport.*

.....

Gwranddo – Profiadau personol



Siaradwch

- Ydych chi erioed wedi byw neu weithio dramor?
- Ydych chi'n nabod rhywun sy wedi byw neu weithio dramor?

Yma, mae'r cyflwynydd newyddion, Bethan Rhys Roberts yn siarad am ei chyfnod yn gweithio fel 'au pair' yn Ffrainc, ar raglen BBC Radio Cymru *Beti a'i Phobl*.

Rhan 1

Mae Bethan yn dod o'r gogledd. Gwrandewch arni hi'n siarad a nodwch y geiriau rydych chi'n eu clywed sy'n dangos ei bod hi'n dod o'r gogledd:

.....

.....

.....

Rhan 2

Gwrandewch am yr ymadroddion yma:

Ro'n i wastad yn dewis gweini.

Mae rhaid i ti gael hwn yn iawn.

Mae 'na olwg bryderus arnat ti.

Mi ollyngais i'r tatws yng nghôl Madame Rhif 1.

Ymarfer

1. Ro'n i wastad yn dewis gweini – Pan o'ch chi'n blentyn, pa un o'ch chi'n arfer ei ddewis?

rygbi	pêl-droed
sglodion	tatws pob
darllen	gwyllo'r teledu
gwaith cartref	diogi
hufen iâ gyda <i>flake</i>	hufen iâ heb <i>flake</i>

2. Mae rhaid i ti gael hwn yn iawn – Rydyn ni'n cyfieithu 'cael yn iawn' fel *to get right*. Sut mae dweud?

I got it right.

.....

I'm determined to get it right.

.....

I will get it right eventually.

.....

3. Mae 'na olwg bryderus arnat ti.

4. Mi ollyngais i'r tatws – Atebwch y cwestiynau:

Beth wnaeth y gweinydd?

Gollyngodd e'r plât.

Beth wnaeth y gôl-geidwad?

.....

Beth wnaeth y pysgotwr?

.....

Beth wnaeth y gyrrwr tacsï?

.....

Beth wnaeth y myfyriwr?

.....

Beth wnaeth yr heddlu?

.....

Atebwch y cwestiynau:

1. Pam aeth Bethan at **deulu**, yn lle mynd i Brifysgol yn Ffrainc?

.....

2. Heblaw am eu ffordd o fyw, beth oedd yn profi i Bethan eu bod nhw'n deulu cyfoethog?

.....

3. Roedd gwraig y tŷ yn yfed gormod, yn ôl Bethan. Pam doedd hynny ddim yn broblem, ar yr wyneb?

.....


4. Pam doedd dim angen i Bethan helpu i goginio yn y gegin ar ddiwrnod y parti?

.....

5. Pam roedd cyflwr Bethan a chyflwr gwraig y tŷ'n wahanol, ar ôl bod yn yr ardd?

.....

Siaradwch - Pwnc llosg - Dylai parcio mewn trefi fod yn rhad ac am ddim



Gyda'ch partner, disgrifiwch beth rydych chi'n ei weld yn y llun.

Geirfa – Ceisiwch ddefnyddio pob un o'r isod mewn brawddeg:

hwb i'r economi
effaith andwyol
busnesau lleol
llinellau melyn dwbl
toriadau
arian mân

Gyda phartner newydd, trafodwch y pwnc **Dylai parcio mewn trefi fod yn rhad ac am ddim**. Ceisiwch ddefnyddio un o'r brawddegau isod:

Dw i'n cytuno'n llwyr. Dw i'n anghytuno'n llwyr. Dw i'n cytuno i raddau.

Gwybodaeth o iaith – Aralleirio

Gyda'ch partner, ailysgrifennwch y frawddeg gan ddefnyddio'r sbardun mewn prif lythrennau. Dylai'r frawddeg newydd fod mor agos â phosib at y frawddeg wreiddiol o ran ystyr. Mae'n bosib y bydd angen treiglo'r gair sbardun yn yr ateb.

Enghraifft – Llyfrau Saesneg sy orau gan John, nid llyfrau Cymraeg. **GWELL**
Mae'n **well** gyda/gan John llyfrau Saesneg na llyfrau Cymraeg.

1. Mae Mair yn bwriadu stopio 'smygu. **GORAU**
Mae Mair yn bwriadu 'smygu.

2. Gadawodd John glwb y Gweilch yn ddiweddar iawn. **NEWYDD**
..... clwb y Gweilch.

3. Does dim byd mwy cyffrous i mi na gwylio gêm rygbi dda. **PETH**
..... i mi yw gwylio gêm rygbi dda.

4. Ffeindiaist ti rywbeth arall yn y cwpwrdd? **O HYD**
..... i rywbeth arall yn y cwpwrdd?

5. Dw i ddim yn poeni pwy sy'n mynd. **OTS**

..... pwy sy'n mynd.

6. Rwyt ti'n hollol gywir. **LLYGAD**

Rwyt ti yn

7. Mae mwy na digon o ddysgwyr ar y cwrs. **HEN**

..... o ddysgwyr ar y cwrs.

8. Mae sawl ffordd brysur yn y ddinas. **LLAWER**

..... prysur yn y ddinas.

Ymarfer

sawl / llawer o

Rydyn ni'n defnyddio **sawl** gydag enwau unigol a **llawer o** gydag enwau lluosog, e.e. Mae sawl **enw** ar y rhestr ar gyfer y daith.

Mae llawer o **enwau** ar y rhestr ar gyfer y daith.

Llenwch y tabl isod trwy roi'r fersiynau **sawl** neu **llawer o** o'r brawddegau cyfatebol.

sawl	llawer o
Mae sawl tŷ yn ein stryd ni wedi cael ei beintio'n ddiweddar.	
	Roedd llawer o blant gartre'n sâl ddydd Gwener diwethaf.
Roedd sawl cadair yn wag yn y cyfarfod.	
Mae sawl damwain wedi bod yn y fan honno.	
	Mae'r Llywodraeth yn cynnal llawer o arolygon er mwyn canfod barn y cyhoedd.

Mae sawl swyddfa ar gau heddiw ledled Cymru.	
Mae sawl atyniad poblogaidd i ymwelwyr yn Sir Benfro.	
Mae sawl cadeirydd wedi methu cadw trefn ar y pwyllgor hwnnw.	
	Mae llawer o genhedloedd yn cael diwrnod o wyliau ar ddydd gŵyl eu nawddsant.
Mae sawl creadur diddorol yn llechu yn nyfroedd y llyn.	

Ymarfer

newydd

Cofiwch ddefnyddio **newydd** yn lle **wedi** pan fydd rhywbeth **newydd** ddigwydd! A chofiwch am y **treigladau meddal** hefyd!

Meddyliwch am frawddegau sy'n dweud beth sydd **newydd** ddigwydd yn y sefyllfaoedd isod:

e.e. Mae Ceri a Jac yn mynd ar eu mis mêl. Maen nhw **newydd** briodi.

Mae Carys yn tynnu'r platiau D oddi ar ei char.

.....

Mae Hywel yn mynd i deithio rownd y byd.

.....

Mae Rhys a Ffion yn cael parti twymo'r tŷ/cynhesu'r cartref heno.

.....

Mae hi wedi cael llawer o gardiau llongyfarchiadau.

.....

Mae'n rhaid iddo fe orffwys am
chwe wythnos.

.....

Mae'r plant yn wlyb.

.....

Siaradwch – rhoi'r gorau i...



- Beth dych/dach chi wedi rhoi'r gorau i'w wneud (yn ddiweddar neu yn y gorffennol)?
- Beth lichech/hoffech chi roi'r gorau iddo?
- Beth ddylech chi roi'r gorau iddo?
- Ydych chi'n nabod rhywun sy wedi newid ei fywyd trwy roi'r gorau i rywbeth?

Cymraeg ffurfiol



Pwrpas yr adran hon yw eich helpu i ddeall Cymraeg ysgrifenedig, ffurfiol.

Un nodwedd ar Gymraeg ffurfiol yw peidio â defnyddio'r rhagenwau (*pronouns*) ar ôl berfau ac arddodiaid, e.e.:

Rheol	Llafar	Ysgrifenedig	Ffurfiol
Gollwng i > ychwanegu f pan fydd llafariad (person cyntaf unigol)	bydda i/mi fydda i	bydda i	byddaf
	ata i/ato i	ata i	ataf
Newid n yn m (person cyntaf lluosog – ni)	ro'n ni/roedden ni	roedden ni	yr oeddem
	arnon ni	arnon ni	arnom
Gollwng nhw > ychwanegu t	byddan nhw/ mi fyddan nhw	byddan nhw	byddant
	iddyn nhw	iddyn nhw	iddynt

*Dyw **n** ddim yn troi yn **m** yn y dyfodol:

byddwn ni/mi fyddwn ni

byddwn ni

byddwn

Dyma ddwy enghraifft o ddefnydd o Gymraeg ffurfiol:

Pan fydd erthyglau newyddion yn cael eu creu, **byddant** yn ymddangos yma.
(Llywodraeth Cymru).

Nid oedd modd rhagweld y pwysau ofnadwy oedd **arnom**. (Gwaith cartref, Uned 5)

Felly, beth yw'r ffurfiau llafar ar gyfer yr isod?

roeddent

ohonom

byddem

canant

aethom

amdanaf

drostynt

Cyn y wers nesaf, edrychwch o'ch cwmpas i weld a ydych chi'n gallu gweld rhai o'r ffurfiau yma. Mae lle i chi eu hysgrifennu nhw yn y Gwaith cartref.

Cefndir – Cylchgronau Cymraeg



Byddwch chi'n cael cerdyn gan eich tiwtor sy'n cynnwys gwybodaeth am un o'r cylchgronau isod. Codwch ar eich traed a siaradwch â gweddill y dosbarth er mwyn casglu gwybodaeth am y cylchgronau eraill.

Cylchgrawn	Disgrifiad
Barddas	
Barn	
Bore da ac law!	
Cara	
CIP	
Golwg	
Lingo Newydd	
Lysh	
O'r Pedwar Gwynt	
Wcw	
Y Cymro	
Y Selar	
Y Wawr	



Siaradwch

Ydych chi erioed wedi darllen un o'r cylchgronau uchod? Os nad ydych chi, pa un sy'n apelio fwy a toch chi?



Golwg

Cafodd y fideo ei wneud yn 2018, pan oedd cylchgrawn *Golwg* yn dathlu ei ben-blwydd yn 30 oed.



Mae'r fideo hefyd yn trafod gwefan newyddion *Golwg 360* a chylchgronau eraill sy'n cael eu cyhoeddi gan gwmni *Golwg*.

1. Cafodd rhifyn o *Golwg* ei gyhoeddi yn Eisteddfod Casnewydd, 1988. Beth oedd yn arbennig am y rhifyn hwnnw?

.....

.....

2. Roedd Siân Sutton yn cyfrannu i gylchgrawn *Golwg* yn 1988. Mae hi'n dweud bod "y drefen (y drefn) wedi newid yn llwyr ers y dechrau". Esboniwch sut roedd hi'n ysgrifennu ac yn anfon erthyglau bryd hynny.

.....

.....

3. Beth oedd yn bwysig iawn wrth gysylltu â phobl yn y dyddiau cynnar? Sut mae newyddiadurwyr *Golwg* yn dod o hyd i bobl y dyddiau hyn?

.....

.....

4. Nodwch un ffaith ddiddorol arall o'r fideo yn y blwch isod.

5. Yn ôl Dylan Iorwerth, buodd cyfnod hir cyn eu bod nhw'n gallu "rhoi *Go/wg* ar ei draed." Mae **troed** a **traed** yn cael eu defnyddio mewn llawer o eiriau ac ymadroddion Cymraeg. Gyda'ch partner, ceisiwch gyfieithu'r canlynol:

<i>footnote</i>
<i>barefooted</i>
<i>I put my foot down.</i>
<i>He put his foot in it. (hi)</i>
<i>mess, chaos</i>
<i>something is afoot</i>
<i>the foot of the bed</i>
<i>like crows' feet (ysgrifen)</i>

6. Mae Dylan Iorwerth yn dweud bod *Go/wg* yn arfer cael ei **ddylunio â llaw**.

Gyda'ch partner, ceisiwch feddwl am o leiaf dri pheth sydd fel arfer yn cael eu gwneud **â llaw** a nodwch nhw fan hyn.

Wedyn, meddyliwch am dri pheth arall oedd yn arfer cael eu gwneud **â llaw** ond sy'n cael eu gwneud â pheiriant nawr.

7. Wrth siarad am y gwaith o baratoi *Go/wg*, mae Siân Sutton yn dweud "...mae'n **ddi-baid**, does dim diwedd iddi a dweud y gwir." Mae **di-baid** yn golygu diddiwedd. Mae **di-** ar ddechrau gair yn gwrth-ddweud (*contradict*) y peth sy'n dilyn, fel *non-*, *dis-* neu *un-* yn Saesneg. Gyda'ch partner, allwch chi ddyfalu beth yw ystyr y geiriau isod, sydd hefyd yn dechrau â **di-**? Rhowch ddiffiniad Cymraeg yn hytrach na chyfieithiad Saesneg. Cofiwch fod treigladd meddal yn dilyn **di-**.

di-asgwrn-cefn

di-drefn

di-hwyl

di-liw

di-wifr

didalent

digartref

Siaradwch



- Sut rydych chi'n hoffi darllen y newyddion? Mewn print neu ar-lein?
- Ydych chi'n tanysgrifio i unrhyw gylchgrawn, unrhyw wasanaeth ar-lein neu unrhyw wasanaeth ffrydio?
- Mae siaradwyr y fideo yn sôn am gloriau cofiadwy *Go/wg* ac yn dewis eu hoff enghreifftiau.

Dylan Iorwerth: Pum gwleidydd ar y llwyfan ar ôl canlyniad Refferendwm 1997.

Siân Sutton: Pryder am golli cannoedd o swyddi yng ngwaith dur Port Talbot yn 2016.

Owain Schiavone: Geraint Thomas yn ennill y Tour de France yn 2018 a phêl-droedwyr Cymru yng nghystadleuaeth yr Euros yn 2016.

- Ydych chi'n cofio'r digwyddiadau hyn?
- Pa luniau o gylchgronau neu bapurau newydd sydd wedi aros yn eich cof chi?
- Pa rai yw digwyddiadau pwysicaf y 30 mlynedd diwethaf, yn eich barn chi?

Uned 2

Nod yr uned hon yw...

- Cyflwyno agweddau ar arholiad Defnyddio'r Gymraeg Uwch
- Dysgu am fudiadau Cymraeg

Geirfa

annibyniaeth	<i>independence</i>
argraff(iadau)	<i>impression(s)</i>
dealltwriaeth	<i>understanding</i>
disgyblaeth(au)	<i>discipline(s)</i>
giât (giatiau)	<i>gate(s)</i>
haid (heidiau)	<i>flock(s), swarm(s)</i>
magwraeth	<i>upbringing</i>
rhesymeg	<i>logic</i>
sgrech(iadau)	<i>scream(s)</i>
ysbrydoliaeth	<i>inspiration</i>

adroddiad(au)	<i>report(s)</i>
cloffni	<i>lameness</i>
cyfrifoldeb(au)	<i>responsibility (-ies)</i>
cysondeb(au)	<i>consistency (-ies)</i>
dyfalbarhad	<i>perseverance</i>
enaid (eneidiau)	<i>soul(s)</i>
glanweithdra	<i>cleanliness, hygiene</i>
pafin(au)	<i>pavement(s)</i>
sylwedd(au)	<i>substance(s)</i>
tramgwydd(au)	<i>offence(s); hindrance(s)</i>
ysgyfant (ysgyfaint)	<i>lung(s)</i>

camu	<i>to step</i>
cnoi	<i>to bite; to chew</i>
croesawu	<i>to welcome</i>
crynu	<i>to shake, to shiver, to tremble</i>
cydymffurfio (â)	<i>to conform (with)</i>
cyd-weld (â)	<i>cytuno (â)</i>
cymeradwyo	<i>to applaud; to approve</i>
cynnau	<i>to light; to switch on</i>
dihysbyddu	<i>to drain, to exhaust</i>
dirgrynu	<i>to vibrate</i>
dychmygu	<i>to imagine</i>
eilio	<i>to second</i>
eilunaddoli	<i>to idolise</i>
enwi	<i>to name</i>

addysgol	<i>educational</i>
anghyfforddus	<i>uncomfortable</i>
annhebygol	<i>unlikely</i>
aflonydd	<i>fidgety; uneasy</i>
anystywallt	<i>unmanageable, unruly</i>
ariannog	<i>cyfoethog</i>
cenfigennus	<i>jealous</i>
clodwiw	<i>praiseworthy</i>
cyson	<i>consistent</i>
diarhebol	<i>proverbial</i>
enfawr	<i>anferth</i>
ffafriol	<i>favourable</i>
gwarthus	<i>disgraceful</i>
hallt	<i>salty</i>

glynu (wrth)	<i>to stick (to)</i>
gwamalu	<i>to be frivolous</i>
gwgu	<i>to frown</i>
gwrido	<i>to blush</i>
hongian	<i>to hang</i>
llofnodi	<i>to sign</i>
rhwygo	<i>to rip, to tear</i>
straffaglu	<i>to struggle</i>
sugno	<i>to suck</i>
synhwyro	<i>to sense</i>
tramgwyddo	<i>to offend, to be offended</i>
ymateb	<i>to respond</i>

hunanymybodol *self-conscious*

llwm *bleak, bare,
destitute*

petrus *worried, hesitant*

synhwyrol *sensible*

beirniadu'n hallt *to severely criticise*

dim clem *dim syniad*

yr un enaid byw *not a soul*

Geiriau pwysig i mi...

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Darllen a siaradwch



Un rheol yn ormod (Colofn Beca Brown, *Barn*)

Gyda phob tymor addysgol newydd, daw'r straeon arferol am blant yn cael eu troi o ryw ysgol neu'i gilydd am dorri rheolau'r wisg. Yn ddiweddar, Hartsdown Academy yng Nghaint oedd yr ysgol ddaeth i sylw'r wasg, wrth i dros hanner cant o blant gael eu hel adref ar ddiwrnod cynta'r tymor am wisgo rhywbeth nad oedd yn cydymffurfio â'r rheolau.

Mae gen i amheuan am werth gwisg ysgol o unrhyw fath, heb sôn am un sydd â rheolau caeth, ond un o'r pethau a'm trawodd gyntaf am y stori yma oedd mai merched oedd y rhai oedd yn ymddangos yn yr adroddiadau, ac mai dillad merched oedd y rhan fwyaf o'r enghreifftiau a roddwyd o wisg yn tramgwyddo. Sgert ry fyr, trowsus rhy dynn, ffrials ar y sanau, bwcl aur ar esgid, esgidiau anaddas a dim *blazer* – dyna'r troseddau.

Mae yna rhywbeth anghysurus iawn yn y syniad o oedolyn – dyn yn aml – yn penderfynu bod sgert merch ysgol yn rhy fyr, neu fod ei throwsus yn rhy dynn amdani. Rydw i wedi teimlo erioed bod gwisg ysgol yn arbennig o greulon wrth ferched, gan fod glasoed a hormonau'n golygu bod merched yn newid eu siâp mewn ffordd amlwg iawn, a bod gwisg unffurf yn medru tynnu sylw at y newidiadau hynny mewn modd sy'n eu gwneud yn anghyfforddus a hunanymwybodol. Dydy merched yn eu glasoed chwaith ddim wastad eisiau cuddio'u siâp newydd mewn gwisg ysgol wrywaidd ei steil, gan deimlo'n 'ffrympi' a di-ryw. Mae bechgyn yn mynd drwy newidiadau mawr hefyd wrth gwrs, ond dydyn nhw ddim yn newidiadau sy'n dylanwadu yr un fath ar yr hyn maen nhw'n debygol o fod eisiau ei wisgo.

Pan o'n i yn yr ysgol, doedd dim hawl gan ferched i wisgo trowsus. Doedd neb yn fodlon rhoi rheswm dros hyn, dim ond mai dyna oedd y rheol, ond fe ddywedodd un o nyrsus yr ysgol wrtha i nad oedd hi'n addas i ferched wisgo trowsus oherwydd glanweithdra. Dechreuwyd deiseb yn fuan wedyn, a chafwyd buddugoliaeth drowsusol glir.

Y ddadl gallaf dros gael gwisg ysgol yw bod gwisg unffurf yn lleihau'r gwahaniaeth rhwng y plant ariannog a'r plant tlotach. Os mai dyna yw'r bwriad tu cefn i sefydlu gwisg ysgol yna mae'n syniad digon clodwiw, ond dydw i ddim gant y cant yn siŵr ei fod yn gweithio. Dydy plant ddim yn wirion, ac yn anffodus, mae'r math o ffôn sydd gan blentyn, y trênyrs sydd ganddyn nhw yn y wers ymarfer corff, y lle maen nhw'n byw ynddo, beth maen nhw'n ei gymryd i ginio, a sut gar sydd gan Mam neu Dad wrth giât yr ysgol – mae'r pethau yma i gyd yn nodi'n glir y gwahaniaeth cymdeithasol rhwng plant a'u cyfoedion.

Disgyblaeth yw'r ddadl arall – eto, rhesymeg ddigon clodwiw, ond yn ôl fy nealltwriaeth i o siarad efo athrawon, y plant sy'n torri'r rheolau gwisg yw'r rhai sydd hefyd yn torri pob rheol arall. Dyma'r rhai sydd yn anystywallt yn y gwersi, yn ddigywilydd efo staff ac sy'n 'anghofio' eu gwaith cartref yn gyson. Onid dyma'r tramgwyddau a ddylai arwain at gosb?

Mae'n syniad poblogaidd hefyd fod ffurf-wisg yn paratoi person ifanc at y byd gwaith. Eto, mi welaf y rhesymeg, ond dydy'r siwt ddim mor boblogaidd ag y bu hi yn y gweithle, ac mae yna gant a mil o bethau pwysicach na gwisg pan fo rhywun yn paratoi person ifanc at ennill cyflog. Annibyniaeth, cyfrifoldeb, dyfalbarhad, derbyn bod gwaith weithiau yn *boring*, ac yn bwysicach na dim arall – sgiliau pobl. Y gallu i siarad efo rhywun yn synhwyrol wyneb yn wyneb, ac nid dim ond dros y bali tecst.

A beth am ffurf-wisg yn gyffredinol? Ydy, mae'r argraff gyntaf y mae rhywun yn ei rhoi'n bwysig, ond os nad oes yna fawr o sylwedd tu cefn i'r argraff ffafriol honno, beth yw'r pwynt? Beth am yr ail a'r drydedd argraff, pan nad oes neb bellach yn sylwi ar y siwt? Fe feirniadwyd Jeremy Corbyn yn hallt gan David Cameron am beidio â gwisgo tei – dyn a oedd yn ddigon hapus i roi bil o £53,000 i'r trethdalwr am gynghorydd ffasiwn i'w wraig.

Rydan ni i gyd yn hoff o wneud argraff, ond dyna'n union ydy hi – argraff, a rhan fechan iawn o'r stori ydy hynny.

Siaradwch

- Beth yw'r pum prif bwynt yn yr erthygl? Trafodwch yn eich grŵp.
- Disgrifiwch eich profiadau personol o wisg ysgol, gan gynnwys disgrifio'ch gwisg ysgol chi. Ydych chi'n gwisgo'r lliw yna'n aml nawr?
- Ydych chi erioed wedi gwisgo gwisg yn ystod eich bywyd gwaith?
- Ydych chi'n gallu meddwl am deitl gwahanol i'r darn?



Gwybodaeth o iaith – Dewis y ffurf gywir

1. Roedd y môr yn pan hwyliodd y cwch i lwerddon.
 - a. ddrwg
 - b. anodd
 - c. wael
 - ch. arw
2. neuadd y pentref gan y maer ddoe.
 - a. Agora
 - b. Agorodd
 - c. Agorwyd
 - ch. Agorir
3. Mae angen rhywun arall i weithio ar hyn: mae'n sefyllfa ddifrifol!
 - a. mawr
 - b. eitha
 - c. llawn
 - ch. tipyn o
4. Hoffwn ddiolch o i chi am eich gwaith.
 - a. ran
 - b. fawr
 - c. lawenydd
 - ch. galon
5. i'r theatr am ddeg o'r gloch.
 - a. Gadaelais
 - b. Gadiais
 - c. Gadaeais
 - ch. Gadewais
6. Mae'r sefyllfa'n warthus; do'n i ddim yn gwybod bod pethau â hyn.
 - a. cyn gynted
 - b. cystal
 - c. cynddrwg
 - ch. fel
7. Ymddangosodd y lleidr y llys ar gyhuddiad o ddwyn.
 - a. gerbron
 - b. ar flaen
 - c. ymhen
 - ch. wrth
8. Dw i wedi dechrau dod i arfer edrych ar y sgrin.
 - a. ac
 - b. ag
 - c. â
 - ch. o

Ymarfer

Mae berfau amhersonol sydd â'r terfyniad **-wyd** yn dweud bod rhywbeth wedi digwydd heb ddweud pwy wnaeth hynny, e.e.:

Cyflwynwyd adroddiad. (*A report was presented.*)

Er mwyn dweud pwy wnaeth, gallwn ni naill ai ychwanegu **gan** neu ddefnyddio **berf bersonol**:

Cyflwynwyd adroddiad gan y pennaeth.

Cyflwynodd y pennaeth adroddiad.

Trowch y brawddegau isod yn frawddegau sy'n defnyddio berfau amhersonol:

1. Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

.....

2. Diolchodd y pennaeth i'r staff am eu gwaith.

.....

3. Enillodd Casnewydd y gêm gyda dwy gôl yn yr ail hanner.

.....

4. Gwnaeth Dafydd y cynnig.

.....

5. Eiliodd Eleri'r cynnig.

.....

Mawr angen/Gwir angen

Er mwyn cryfhau datganiad sy'n dweud bod angen rhywbeth, gallwn ni ychwanegu **mawr/gwir** o flaen y gair **angen**. Mae dweud bod **mawr angen/gwir angen** rhywbeth yn debyg i'r ymadrodd Saesneg *...is desperately needed*.

Meddyliwch am frawddegau sy'n dweud bod **mawr angen/gwir angen** rhywbeth yn y sefyllfaoedd isod:

e.e. Mae'r tanc petrol bron yn wag.

Mae mawr angen petrol arnon ni./
Mae gwir angen petrol arnon ni.

Mae gormod o bobl yn ddi-waith neu ar gyflogau isel yn yr ardal yma.

.....

Roedd rhaid i'r tîm ganslo pum gêm y tymor diwethaf oherwydd nad oedd dyfarnwr ar gael.

.....

Mae'r paent a'r papur wal yn frwnt yn y tŷ 'ma.

.....

Mae'r trenau i Gaereglwys wastad yn hwyr ac yn orlawn.

.....

Os na fydd digon o bobl wedi cynnig stiwardio, bydd rhaid canslo'r eisteddfod.

.....

Gadael

Am faint o'r gloch aeth Alun adre neithiwr?

10:30pm

Gadawodd e'r parti am hanner awr wedi deg.

Pryd es i adre?

11:15pm

.....

Pryd aeth Eryl a Ceri?

11:50pm

.....

Beth am Eleri?

12:00am

.....

A beth amdanat ti?

1:00am

.....

Help llaw



Mae'r terfyniadau **-ais, -aist, -ir, -id, -i, -wch** yn troi'r llythyren **a** yn y sillaf cyn y terfyniad yn **e**:

gadaw- gadewais i, gadewaist ti, gadewch
gallu gelli, gellwch, gellir, gellid

Siaradwch – dod i arfer â/ag...



- Pa newid rydych chi wedi dod i arfer ag e/o?
- Ydych chi'n dechrau dod i arfer â rhywbeth?
- Ydych chi'n methu dod i arfer â rhywbeth?

Gwrando – Trafodaeth



Byddwch chi'n clywed nifer o siaradwyr yn trafod y pwnc **gwaith cartref**. Daw'r darn o raglen BBC Radio Cymru, *O'r Bae*.

Cyflwynydd: Vaughan Roderick

Siaradwr 1: Jonathan Jones

Siaradwr 2: Aled Roberts

Siaradwr 3: Manon Edwards-Ahir

Cyn gwrando ar y darn, gyda'ch partner, nodwch chwe gair y basech chi'n disgwyl eu clywed yn codi mewn trafodaeth ar thema **gwaith cartref**.

Nesaf, atebwch y cwestiynau.

1. Yn ôl Gary Lineker, mae angen...

- a. rhoi llai o waith cartre i blant.
- b. peidio â rhoi gwaith cartre i blant o gwbl.
- c. gwahardd rhieni rhag helpu eu plant.
- ch. i'w bedwar mab ganolbwyntio ar eu gwaith cartre.

2. Roedd Jonathan Jones yn gwneud gwaith cartre...

- a. os oedd e'n mwynhau'r pwnc.
- b. ar gyfer ei athro Daearyddiaeth yn unig.
- c. er ei fod e'n anobeithiol.
- ch. os oedd yr athro'n dda.

3. Safodd Jonathan Jones arholiad Mathemateg fel oedolyn oherwydd...

- a. ei fod wedi methu yn yr ysgol.
- b. bod ganddo athrawes dda.
- c. bod angen cymhwyster arall arno.
- ch. ei fod eisiau helpu un o'i blant.

4. Mae Aled Roberts...

- a. yn meddwl y dylai helpu ei fab.
- b. yn meddwl y dylai ei fab ddarllen o amgylch y pwnc.
- c. yn dweud bod athrawon da iawn gan ei fab.
- ch. yn methu gwneud gwaith cartre ei fab.

5. Yn ôl Manon, mae ei phlant...

- a. yn teimlo bod gwaith cartre'n straen.
- b. yn gwneud eu gwaith cartre'n syth.
- c. yn wahanol i'w gilydd, wrth ymateb i waith cartre.
- ch. yn gwneud eu gwaith cartre ar y ffordd i'r ysgol.

6. Mae Manon yn meddwl...

- a. bod ysgolion preifat yn dda.
- b. bod angen help ar blant sy'n gwneud gwaith cartre.
- c. bod Gary Lineker yn hollol gywir.
- ch. bod angen cyfle i blant wneud gwaith cartre yn yr ysgol.

Siaradwch – Siarad personol



Yn y darn gwranddo, mae Vaughan Roderick a'i westeion yn trafod mor bwysig yw dylanwad athrawon ar blant a phobl ifainc. Disgrifiwch yr athro/athrawes a gafodd y dylanwad mwyaf arnoch chi. Soniwch am:

- beth roedd yr athro/athrawes yn ei ddysgu
- beth oedd yn gwneud yr athro/athrawes yma'n wahanol i'r athrawon eraill
- sut basai eich bywyd chi'n wahanol heb ddylanwad yr athro/athrawes yma
- sut roedd myfyrwyr eraill yn ymateb i'r athro/athrawes yma
- beth yw hanes yr athro/athrawes erbyn heddiw.

Gwybodaeth o iaith – Llenwi bylchau



Gyda'ch partner, llenwch y bylchau yn y darn

Dw i'n cofio un tro, pan i ym mlwyddyn deg yn yr ysgol, fod rhaid i bawb fynd ar brofiad gwaith. Y dyddiau hyn, mae ymweliadau profiad gwaith yn rhan bwysig o addysg plant uwchradd, ond ar y, doedd yr ymweliadau hyn ddim yn eu cynllunio'n dda o gwbl. A bod yn, roedd fy ymweliad i yn wastraff amser llwyr, ond roedd e'n brofiad cofiadwy.

Roedd ffatri gwneud dillad drws nesa safle ein hysgol ni. Dyma'r unig weithle mawr o hanner can milltir i'r ysgol, felly roedd e'n ddewis hawdd i'r pennaeth a oedd yn gorfod trefnu ymweliadau profiad gwaith i ddau gant o blant. Wrth gwrs, doedd yn ein dosbarth ni eisiau mynd i ffatri Goodwear, ond roedd rhaid i bedwar o bob dosbarth fynd yno. Felly, yr ffordd o ddewis oedd tynnu cardiau. Dyma ein system ni: pwy oedd yn tynnu cerdyn â brenin arno o'r pecyn oedd yn gorfod mynd i Goodwear. Dyna ddigwyddodd, a'r flwyddyn honno, ro'n i'n un o'r rhai 'lwcus'. Yn y pen draw, cawson ni hwyl.

..... rheolwr y ffatri â ni o gwmpas, gan ddangos sut roedd y peiriannau'n gweithio, i ni gael gweld y gweithwyr yn gwnïo ac yn torri. Merched oedd y rhan o'r gweithwyr yn y cyfnod hwnnw, a doedden nhw ddim yn sylwi griw arall o ddisgyblion di-glem. Roedd hi'n gwbl fod y rheolwyr wedi dweud wrth y gweithwyr am ymddwyn yn dda, ac am beidio â 'smygu na rhegi o flaen y plant! O gae chwarae'r ysgol, roedd modd clywed y gweithwyr yn siarad y tu allan i'r ffatri, ac roedd yr yn eithaf anaddas i blant!

Daeth y profiad hwnnw i'r meddwl pan i'r newyddion trist ar y radio ddoe fod y ffatri'n cau, a bod cant o weithwyr yn eu gwaith.

Ymarfer - Pwy bynnag

Pwy fydd yn cael y cwpan?

Pwy bynnag fydd yn ennill y ras.

Pwy fydd yn llofnodi'r ddeiseb?

.....

Pwy fydd yn mynd i'r arddangosfa?

.....

Pwy fydd yn cael y swydd?

.....

Pwy fydd yn helpu wrth y drws?

.....

Pwy fydd yn cael y llwy bren?

.....

Siaradwch




1. Darllenwch y disgrifiad isod o fwthyn gwyliau. Trafodwch gyda'ch partner a fyddai'r bwthyn yn addas i chi ar gyfer gwyliau. Pa atyniadau sy'n apelio atoch chi a pha rai sydd ddim?

Bwthyn gwyliau ar gael

Lle i 6 gysgu, **drws nesa i** siop hufen iâ enwog Gelia yn Aberwylan. **O fewn** canllath i'r harbwr a thai bwyta'r dref ac mae'r traeth **o fewn** milltir i'r bwthyn a Pharc Hwyl y Deri a'r Mynydd Glas **o fewn** deg milltir.

2. Edrychwch ar y map drosodd, a gyda'ch partner, disgrifiwch leoliad Gwesty'r Ddraig. Dwedwch beth sydd drws nesa i'r gwesty a pha atyniadau sydd o fewn hanner milltir/milltir/dwy filltir.



3. Trafodwch eich cartref chi a rhywle rydych chi wedi bod yn aros ar eich gwyliau. Beth yw'r atyniadau neu'r cyfleusterau sydd o fewn gwahanol bellteroedd?

Cymraeg ffurfiol - y berfenw 'bod'



Mewn Cymraeg ffurfiol, gwelwch **y** neu **yr** gyda ffurfiau amser presennol ac amherffaith **bod**.

Llafar

Dw i

Rwyt ti

Mae hi/e/o

'Dyn/Dan ni

Dych/Dach chi

Maen nhw

Ffurfiol

Yr wyf

Yr wyt

Y mae

Yr ydym

Yr ydych

Y maent

Llafar

Ro'n i

Ro't /Roeddet ti

Roedd hi/e/o

Ro'n/Roedden ni

Ro'ch/Roeddech chi

Ro'n/Roedden nhw

Ffurfiol

Yr oeddwn

Yr oeddet

Yr oedd

Yr oeddem

Yr oeddech

Yr oeddent

Dyma ddwy enghraifft o Gymraeg ffurfiol:

Yr wyf am wneud cais am... (Cyngor Castell-nedd Port Talbot)

Dyma sut **yr oedd hi** (cylchgrawn *O'r Pedwar Gwynt*)

Ble basech chi'n clywed rhywun yn dweud y geiriau hyn?

Yr wyf i, Sam, yn dy gymryd
di, Lyn, yn wraig/wŵr i mi.

Sut basech chi'n dweud y canlynol ar lafar?

Yr oedd yn gyfaill i mi.

Y mae wedi talu am y llyfr.

Y maent yn brysur.

Yr ydym yn defnyddio eich
data'n ofalus.

Yr oeddent ill dau yn brysur.

Cefndir – Mudiadau Cymraeg – Mentrau Iaith Cymru



Gwyllo 1 – Mentrau Iaith Cymru



Wrth wyllo'r fideo, llenwch y bylchau isod yn y sgript:

"Rhwydwaith o
 cymunedol yw'r Mentrau Iaith,
 sy'n at gynyddu
 a chryfhau'r o'r
 Gymraeg yn ein cymunedau."

1. Mae'r rhifau isod yn cael eu dweud yn y fideo. Yn gyntaf, ysgrifennwch y rhifau yn y dull traddodiadol, fel y maen nhw yn y fideo. Yna, esboniwch beth yw arwyddocâd y rhifau.

- 22
- Arwyddocâd?
- 160,000
- Arwyddocâd?
- 4,700
- Arwyddocâd?

2. Nodwch ffeithiau eraill am Fentrau Iaith yn y blwch drosodd. Gallwch chi nodi gwybodaeth o'r fideo neu unrhyw beth rydych chi'n ei wybod am eich Menter Iaith leol.



Siaradwch



- Ydych chi'n defnyddio eich Menter Iaith leol?
- Beth fasa'i'n eich helpu chi i gynyddu eich defnydd o'r Gymraeg yn eich cymuned?

Gwyllo 2 - Menter Cwm Gwendraeth Elli



Cyn gwyllo'r fideo, edrychwch ar y tabl isod, sy'n cynnwys geiriau a ddefnyddir yn y fideo. Gyda'ch partner, cysylltwch y geiriau â'r diffiniadau cywir.

Gair	Diffiniad
llwyddiant	yn hwyrach, yn nes ymlaen
awyddus	maen nhw'n cael eu gwneud am hwyl, i addysgu neu i godi arian
gweithgareddau	teimlo'n ofnus ac yn ddigalon
pryderu	brwdfrydig – eisiau gwneud rhywbeth yn fawr iawn
hwb	canlyniad da
diweddarach	rhywbeth sy'n gwthio i fyny neu ymlaen; rhywbeth sy'n rhoi cefnogaeth

1. Beth ddigwyddodd yn 1989?

.....

2. Beth ddigwyddodd yn 1991?

.....

3. Beth oedd yn arbennig am Fenter Cwm Gwendraeth?

.....

4. Sut mae'r Fenter hon wedi newid erbyn heddiw? Nodwch ddwy ffaith.

.....

5. Yn y blwch isod, nodwch y gwasanaethau y mae Menter Cwm Gwendraeth Elli yn eu cynnig heddiw.

Siaradwch



- Edrychwch ar y gwasanaethau yn y blwch, a threfnwch nhw mewn rhestr yn ôl eich blaenoriaethau chi.
- Pa wasanaethau a gweithgareddau yw'r pwysicaf?
- Yna, trafodwch eich rhestr gyda'ch partner. Ydy eich rhestri chi'n wahanol?



Cefndir – Mudiadau Cymraeg – Yr Urdd



Beth rydych chi'n ei wybod am yr Urdd?

Gwybod	Ddim yn siŵr	Eisiau gwybod

Ewch o gwmpas y dosbarth i gasglu gwybodaeth am waith yr Urdd oddi ar gardiau sydd wedi'u dosbarthu i aelodau'r dosbarth. Yna, yn eich geiriau eich hun, ysgrifennwch ychydig o wybodaeth o dan bob pennawd yn y tabl isod.

Beth yw'r Urdd?
Sefydlu'r Urdd
Gwersyll Llangrannog
Gwersyll Glan-Ilyn
Gwersyll Caerdydd
Eisteddfod yr Urdd
Neges Ewyllys Da
Taith Patagonia
Gala Nofio'r Urdd
Chwaraeon
Hwngari

Siaradwch



- Ydych chi erioed wedi cymryd rhan yn un o weithgareddau'r Urdd?
- Ydych chi'n mwynhau gweithgareddau awyr agored?
- Beth yw eich barn chi am weithgareddau cystadleuol i blant?

Uned 3

Nod yr uned hon yw...

- Cyflwyno agweddau ar arholiad Defnyddio'r Gymraeg Uwch
- Dysgu am gerddoriaeth Gymraeg

Geirfa

cyllideb(au) *budget(s)*

darpariaeth(au) *provision(s)*

erw(au) *acre(s)*

goruchwyliaeth *supervision*

hinsawdd *climate*

llafariad (llafariaid) *vowel(s)*

awyru *to air*

cael gafael (ar) *to get hold (of)*

crebachu *to decrease,
to contract,
to shrivel*

crynhoi *to summarise*

Cymreigio *to make (more)
Welsh*

dadbacio *to unpack*

disgyn *to descend;
to fall*

diystyru *to disregard*

dymuno *to wish*

gohebu *to report,
to correspond*

gwawrio *to dawn*

gweithredu *to operate;
to take action*

gwresogi *to heat*

lleddfu *to ease*

lifo *to flow*

plymio *to dive; to dip*

siomi *to disappoint*

trydaneiddio *to electrify*

arddodiad *preposition(s)*

(arddodiaid)

arhosiad *stay*

bogel *belly button*

buddsoddiad(au) *investment(s)*

cam(au) *step(s)*

concrïd/concrist *concrete*

cwest(au) *inquest(s)*

cyflymder *speed*

erw(au) *acre(s)*

gwelliant *improvement(s);*
(gwelliannau) *amendment(s)*

isadeiledd(au) *infrastructure(s)*

mur(iau) *wal(iau)*

nod(au) *aim(s)*

nwydd(au) *merchandise,
goods*

rheithgor(au) *jury (juries)*

rhwydwaith *network(s)*
(rhwydweithiau)

arswydus	<i>fearful; frightful</i>
boddhaol	<i>satisfactory</i>
cyfredol	<i>current</i>
cynaliadwy	<i>sustainable</i>
cynt	<i>previous</i>
dianaf	<i>unhurt, not injured</i>
drudfawr	<i>drud iawn</i>
dyddiedig	<i>dated (llythyr)</i>
eang	<i>broad</i>
estynedig	<i>extended</i>
fforddiadwy	<i>affordable</i>
helaeth	<i>extensive</i>
oedrannus	<i>hen</i>
pellgyrhaeddol	<i>far-reaching</i>
pwrpasol	<i>purposeful; bespoke</i>
tanddwr	<i>underwater</i>

ar draws	<i>across</i>
dan glo	<i>locked up</i>
dirfawr angen	<i>angen mawr iawn</i>
fodd bynnag	<i>beth bynnag</i>
gwneud iawn am	<i>to make up for</i>
llu awyr	<i>air force</i>
mae'n bryd...	<i>it's time...</i>
o'r golwg	<i>out of sight</i>
oriau bwy gilydd	<i>llawer iawn o oriau/amser</i>
yn ddiau	<i>heb os nac oni bai</i>
yn y cyfamser	<i>in the meantime</i>
yn yr un modd	<i>yn yr un ffordd</i>
ynghyd â	<i>along with</i>

Geiriau pwysig i mi...

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Siaradwch



Pwnc llosg – Rydyn ni'n lwcus bod y Gwasanaeth Iechyd yn gweithio'n dda.

Gyda'ch partner, ysgrifennwch enwau o leiaf 10 o eiriau sy'n berthnasol i'r Gwasanaeth Iechyd yn y blwch:

Gyda'ch partner, edrychwch ar y llun a disgrifiwch yr ystafell aros.



Cyn trafod y pwnc mawr, trafodwch bob un o'r datganiadau isod. Ydych chi'n cytuno?

- Mae'n hawdd cael apwyntiad yn fy meddygfa i.
- Mae gormod o bobl yn mynd i'r Adrannau Brys.
- Mae rhestri aros am lawdriniaeth yn rhy hir.
- Mae nyrsys yn gweithio'n galed iawn a dylen nhw ennill mwy o arian.
- Mae staff iechyd a gofal yn cael eu gwerthfawrogi'n fwy ers argyfwng iechyd Covid-19.

Nesaf, trafodwch y pwnc – **Rydyn ni'n lwcus bod y Gwasanaeth Iechyd yn gweithio'n dda.** Ceisiwch ddefnyddio'r ymadrodd 'Diwedd y gân yw'r geiniog' pan fyddwch chi'n siarad.



Gwybodaeth o iaith – Aralleirio

Gyda'ch partner, ailysgrifennwch y frawddeg gan ddefnyddio'r sbardun mewn priflythrennau. Dylai'r frawddeg newydd fod mor agos â phosib at y frawddeg wreiddiol o ran ystyr. Mae'n bosib y bydd angen treiglo'r gair sbardun yn yr ateb.

Enghraifft – Mae Mair yn bwriadu stopio 'smygu.

GORAU

Mae Mair yn bwriadu **rhoi'r gorau i** 'smygu.

1. Rhaid i ni ein dau gael cyfarfod yn fuan.

GILYDD

Rhaid i ni yn fuan.

2. Rhedodd hi i'r tŷ yn gyflym iawn.

NERTH

Rhedodd hi i'r tŷ

3. Tasai hi ddim wedi bwrw glaw, baswn i wedi mwynhau!

ONI BAI

....., baswn i wedi mwynhau!

4. Dw i'n siŵr. Mae e ar y pwyllgor.

BOD

..... ar y pwyllgor.

5. Wnei di drïo hyn?

CYNNIG

Wnei di

6. Roedd yr athro'n gwybod na ddylai weiddi ar y plant.

CODI

Roedd yr athro'n gwybod na ddylai

7. Aeth e i'r siop, wedyn aeth e i'r dafarn.

CYN

Aeth e i'r siop i'r dafarn.

8. Roedd pawb yn meddwl bod hyn yn amhosibl i'r athletwyr.

POSIBL

..... i'r athletwyr.

Ymarfer

ein/eich/ei gilydd

Dych/Dach chi'n mynd ar yr un bws?

Ydyn, 'dyn ni'n mynd gyda'n gilydd.

Ydyn, dan ni'n mynd efo'n gilydd.

Ydyn nhw'n mynd ar yr un bws?

Ydyn ni'n mynd ar yr un bws?

Fyddwn ni'n gweld ein gilydd?

Byddwch, byddwch chi'n gweld eich gilydd.

Byddwch, mi fyddwch chi'n gweld eich gilydd.

Fyddwch chi'n gweld eich gilydd?

Fyddan nhw'n gweld ei gilydd?

Sut mae pethau rhyngddyn nhw?

Maen nhw'n siarad â'i gilydd erbyn hyn.

Maen nhw'n siarad efo'i gilydd erbyn hyn.

Sut mae pethau rhyngddoch chi?

Ydyn nhw'n ymarfer gofyn cwestiynau?

Ydyn, maen nhw'n ymarfer gofyn i'w gilydd.

Dych/Dach chi'n ymarfer gofyn cwestiynau?

Ydyn ni'n ymarfer gofyn cwestiynau?

nerth eich traed

Dau ymadrodd cyffredin sy'n defnyddio'r gair **nerth** ydy:

- **nerth eich traed** – sy'n cael ei ddefnyddio gyda **rhedeg** fel arfer ac sy'n golygu mor gyflym ag y gallwch chi;
- **nerth eich pen(nau)** – sy'n cael ei ddefnyddio gyda **gweiddi** neu **sgrechian** neu **canu** ac sy'n golygu mor uchel ag y gallwch chi (h.y. gwneud cymaint o sŵn â phosib).

Rhowch y ffurfiau cywir ar yr ymadroddion **nerth eich pen** neu **nerth eich traed** yn y bylchau yn y brawddegau canlynol:

1. Rhedodd y plant pan chwythodd yr athro ei chwiban.
2. "Dw i eisiau i ti ganu pan fyddi di ar y llwyfan," meddai ei fam wrth Wil.
3. Gwibiodd Sioned tuag at y llinell gais.
4. Roedd rhaid i Dafydd weiddi er mwyn i'r bobl yng nghefn y neuadd ei glywed.
5. Byddwn ni'n canu os bydd Cymru yn ennill y gêm ddydd Sadwrn.

Siaradwch – Rhoi cynnig arni



- Ydych chi wedi rhoi cynnig ar ddysgu iaith arall (heblaw am y Gymraeg)? Sut hwyl gawsoch chi?
- Ar beth rydych chi wedi rhoi cynnig ond heb ddal ati? Pam rhoddoch chi gynnig ar hyn a pham na wnaethoch chi barhau?
- Ar beth hoffech chi roi cynnig ryw ddydd?



Gwrando - Gwybodaeth ffeithiol

Byddwch chi'n clywed eitem estynedig am ddamwain trên a ddigwyddodd yn ardal Glan-rhyd, Sir Gaerfyrddin, dros 30 mlynedd yn ôl. Daw'r darn o raglen BBC Radio Cymru, *Post Cyntaf*.

Ceisiwch ddyfalu pa eiriau y byddwch chi'n eu clywed mewn darn am ddamwain trên:

.....

.....

.....

Mae Alun Lenny'n dod o'r de. Gwrandewch arno fe'n siarad a nodwch y geiriau rydych chi'n eu clywed sy'n dangos ei fod e'n dod o'r de:

.....

.....

.....

Atebwch y cwestiynau:

1. O ble roedd y trên wedi dechrau ei daith, ac i ble roedd y trên i fod i fynd?

.....

2. Faint o bobl oedd ar y trên, pan ddigwyddodd y ddamwain?

.....

3. Yn Llandysul, beth oedd wedi dangos i Alun Lenny fod y glaw wedi bod yn drwm?

.....

4. Beth mae Alun Lenny'n ei gofio am farn y rheithgor yn y cwest?

.....

Siaradwch



- Faint o'r geiriau nodoch chi cyn gwrando ar y darn a gododd yn yr eitem?
- Pryd roedd y storm ddiwetha yn lleol? Beth oedd effeithiau'r storm?

Darllen a siaradwch - Trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru



Annwyl Olygydd,

Darllenais yn eich papur am gynllun Llywodraeth Cymru i adeiladu trydedd bont dros Afon Menai. Mae cynlluniau eisoes wedi'u cyhoeddi i wario miliynau o bunnau yn lledu'r A55 yn Sir y Fflint, heb sôn am yr holl arian sy'n cael ei wario ar draffordd yr M4 yng Nghymru. Er y bydd y cynlluniau hyn yn lleddfu'r tagfeydd traffig yn y manau penodol hynny, mae'n debyg, y cyfan a fydd yn digwydd yn y pen draw ydy bod mwy a mwy o geir a lorïau yn teithio ar hyd y ffordd hyn ac yn cyrraedd y rhwystr nesaf yn gynt. Bydd tagfeydd traffig mwy difrifol nag erioed, felly, mewn rhannau eraill o'r wlad, er enghraifft Allt Rhualt a Phenmaenmawr ar yr A55, Port Talbot ar yr M4 neu ar yr A40 y tu hwnt i Gaerfyrddin. Mewn deng mlynedd, bydd angen llu o gynlluniau newydd drudfawr i ddelio â'r holl bwysau ychwanegol ar isadeiledd ein priffyrdd y bydd y 'gwelliannau' wedi'u creu. Dim ond symud y broblem mae'r cynlluniau newydd, nid ei datrys hi.

Yn y cyfamser, bydd yr holl lygredd mae'r cerbydau hyn yn ei achosi'n parhau i gynyddu, gan achosi niwed i iechyd y boblogaeth a newidiadau pellgyrhaeddol i'r hinsawdd. Bydd ein hardaloedd gwyrdd yn parhau i grebachu a bydd cynefinoedd ein bywyd gwyllt yn parhau i ddiflannu ar gyflymder arswydus. Beth ydy'r pwynt i'r Llywodraeth wario biliynau er mwyn tynnu rhyw ddeng munud oddi ar fy siwrne os na fydda i'n gallu anadlu awyr iach ar ôl cyrraedd?

Dw i ddim yn deall pam mae'r Llywodraeth mor awyddus i ddatblygu ein traffyrdd a'n priffyrdd, beth bynnag. Byddai'n gwneud llawer mwy o synnwyr buddsoddi'r holl arian mewn cynlluniau i ddatblygu'r rheilffyrdd. Pe bai'r Llywodraeth yn sicrhau bod y prif leiniau i gyd yn cael eu trydaneiddio a bod y gwasanaeth yn gyflym, yn ddibynadwy ac yn fforddiadwy, byddai llawer mwy o yrwyr yn fodlon gadael eu ceir gartref a byddai llawer mwy o gwmnïau masnachol yn fodlon i'w nwyddau gael eu dosbarthu ar y trê. Byddai'n rhaid adfer ac ailagor sawl hen reilffordd er mwyn sicrhau rhwydwaith cyflawn i Gymru, wrth gwrs, ond byddai hynny'n fuddsoddiad llawer mwy synhwyrol a chynaliadwy nag adeiladu a lledu mwy a mwy o ffordd ar draws y wlad.

A beth am ein porthladdoedd? Mae pawb fel pe baen nhw'n diystyru defnyddio'r môr i gludo nwyddau a theithwyr. Mae llongau'n cysylltu Cymru ac Iwerddon, wrth gwrs, ond pam na ellid datblygu gwasanaeth fferi rhwng Bryste ac Abertawe neu Abergwaun? Byddai hynny'n lleihau'r pwysau ar yr M4 ac ar Bont Hafren yn enwedig. Yn yr un modd, beth am ddatblygu cysylltiadau fferi rhwng Lerpwl ac Ynys Môn? Fyddai dim galw am bont newydd dros Afon Menai na thraffordd chwe lôn yn Sir y Fflint wedyn.

Un peth sy'n gyffredin i holl gynlluniau'r Llywodraeth ydy eu bod nhw'n ceisio datblygu llwybrau trafndiaeth Dwyrain-Gorllewin. Yn y bôn, felly, eu prif nod ydy gwella'r cysylltiadau â Lloegr a'r perygl ydy mai Iwerddon fydd yn elwa fwyaf o'r cysylltiadau hynny yn y pen draw. Mae dirfawr angen i'r Llywodraeth ddechrau meddwl am ddatblygu cysylltiadau De-Gogledd yng Nghymru. Fyddwn i ddim wir o blaid llyncu erwau o dir gwyrdd a chyfrannu i broblem llygredd trwy droi yr A470 yn draffordd tair lôn o Landudno i Gaerdydd, ond byddai hynny'n ddefnydd gwell o gyllideb y Llywodraeth na'r cynlluniau cyfredol. Yn ddelfrydol, byddwn am weld rhwydwaith eang o reilffyrdd cyflym rhwng De a Gogledd ynghyd â chysylltiadau fferi cyson rhwng Sir y Fflint, Ynys Môn, Aberystwyth, Sir Benfro, Abertawe a Chaerdydd. Mae'n hen bryd i'r Llywodraeth ddechrau meddwl am Gymru fel gwlad yn hytrach nag fel coridor bach hwylus rhwng Lloegr ac Iwerddon.

Yn gywir,
Ceri Powys

1. Ydych chi'n gallu crynhoi'r pum prif bwynt yn y llythyr?

.....

.....

.....

.....

.....

2. Trafodwch eich profiadau personol o deithio yng Nghymru. Ydych chi'n defnyddio trafndiaeth gyhoeddus yn lleol?

3. Meddyliwch am deitl posib i'r llythyr hwn mewn papur newydd.

.....

4. Dewch o hyd i bedwar **enw lluosog** yn y darn, sy ddim yn ffurfio'r lluosog gyda **-au** nac **-iau**. Ysgrifennwch nhw yma ac yna ceisiwch feddwl am enw arall sy'n dilyn yr un patrwm.

- i.
- ii.
- iii.
- iv.

Gwybodaeth o iaith - Dewis y ffurf gywir



Dewiswch yr ateb mwyaf tebygol a allai fynd yn y bwch.

1. Roedd tri yn cymryd rhan yn y sioe.
 - a. plant
 - b. phlant
 - c. phlentyn
 - ch. plentyn

2. Wnei di ddangos yr ateb i mi, os di'n dda?
 - a. gwelwch
 - b. gweli
 - c. gwnei
 - ch. gwela

3. Dyma'r tro i mi ddarllen y llyfr.
 - a. trifed
 - b. trydydd
 - c. trydedd
 - ch. tri

4. Edrychaf ymlaen glywed oddi wrthyich.
 - a. am
 - b. wrth
 - c. i
 - ch. at

5. Os nad wyt ti'n gyrru'n ofalus, byddi di'n damwain.
 - a. achosi
 - b. sefydlu
 - c. gwneud
 - ch. annog

6. Po o bobl sy'n darllen y sbwriel yma, gorau oll.
 - a. bynnag
 - b. lawer
 - c. faint
 - ch. leiaf

7. Mae'n well gennyf fyw yma symud i Lanaber.

- a. neu
- b. na
- c. nac
- ch. ni

8. Mae'n bryd i ti roi meddwl ar, rwyf ti'n mynd yn ddiog.

- a. dân
- b. fynd
- c. dro
- ch. waith

Y tro cyntaf

Enw gwrywaidd yw **tro**, ac ar ôl y trefnolion (ail, trydydd, pedwerydd a.y.y.b.), dim ond y treigladd meddal ar ôl **ail** sydd gyda ni. Cofiwch fod yr enw'n dod **cyn** y trefnolyn **cyntaf**:

y tro cyntaf
 yr ail **dro**
 y trydydd tro
 y pedwerydd tro
 y pumed tro
 y chweched tro... ac yn y blaen

Gyda'ch partner, dilynwch y patrwm i ateb y gosodiadau isod gyda **y tro cyntaf, yr ail dro** ac yn y blaen:

e.e. Dwyf ti ddim wedi bod yma o'r blaen?

Nac ydw/Naddo, dyma'r tro cyntaf i mi fod yma.

Rwyf ti wedi gwneud hyn unwaith o'r blaen?

Ydw/Do, dyma'r i mi wneud hyn.

Rwyf ti wedi gweld y ffilm yma ddwywaith o'r blaen?

Ydw/Do,

Rwyt ti wedi ennill y cwpan dair
gwaith o'r blaen?

Ydw/Do,

Rwyt ti wedi symud tŷ bedair
gwaith o'r blaen?

Ydw/Do,

Rwyt ti wedi colli dy ffôn bum
gwaith o'r blaen?

Ydw/Do,

Rwyt ti wedi cystadlu yn yr eisteddfod
naw gwaith o'r blaen?

Ydw/Do,

Po...

Byddwch chi'n gweld y gair **po** mewn rhai ymadroddion. Yr ymadrodd mwyaf cyffredin ydy **gorau po...** Ystyr hyn yw ei bod yn well i'r cyflwr sy'n cael ei ddisgrifio gan yr ansoddair nesaf fod mor eithafol â phosibl, e.e. **gorau po fwyaf o bobl fydd yno** = hoffwn i weld cymaint â phosibl o bobl yno.

Dewiswch yr ansoddair mwyaf priodol o'r rhestr ganlynol i'w ddefnyddio gyda'r ymadrodd **gorau po...** i ateb y cwestiynau isod. Cofiwch **dreiglo'n feddal** ar ôl **po**:

cyntaf **mwyaf** **lleiaf** **cryfaf** **pellaf** **dyfnaf**

i. Wyt ti eisiau mynd cyn bo hir?

Ydw/Oes – gorau po

ii. Mae eisiau digon o ddŵr yn y pwll os
wyt ti'n mynd i blymio i mewn.

Oes

iii. Wyt ti'n hoffi dy de yn wan?

Nac ydw, wir

iv. Gobeithio bydd digon o fwyd
yn y parti.

Ie/la

v. Gobeithio na fydd gormod o
fwyd ar y diwedd.

Ie/la

vi. Wyt ti eisiau gosod dy babell
yn agos at un y Dafisiaid?

Ddim o gwbl

Cymraeg ffurfiol – Cymalau sy'n defnyddio 'y'



Rydych chi eisoes wedi gweld **y** yn cael ei ddefnyddio i uno dau hanner brawddeg mewn cymal enwol:

Dw i'n gwybod **y** bydd hi'n bwrw glaw yfory.

Roeddwn i'n gobeithio **y** byddech chi'n cyrraedd mewn pryd.

Ond, weithiau mae angen defnyddio **y** yn lle **a** mewn cymalau. Mae tair rheol:

1. Edrychwch ar y ddau gymal isod:

y rhaglen **a** glywais i

y rhaglen **y** gwrandawais i **arni (hi)**

Pan fydd yn rhaid defnyddio **arddodiad** gyda **berf**, mewn cymal rydyn ni'n defnyddio **y** yn hytrach nag **a**. Mae **y** yn troi'n **yr** cyn llafariad.

Cyfieithwch:

the programme I saw (gweld)

the programme I looked at (edrych ar)

2. Edrychwch ar y ddau gymal isod:

y tiwtor **a** ddysgodd y dosbarth

y tiwtor **y** dysgodd ei fab y dosbarth

Yn y cymal cyntaf, **y tiwtor** sy'n gwneud y weithred yn y ferf gryno (dysgodd), felly rydyn ni'n defnyddio **a** i gyflwyno'r ferf. Yn yr ail gymal, **ei fab** sy'n gwneud y weithred yn y ferf gryno. Rydyn ni'n defnyddio **y** i gyflwyno'r ferf gan fod y rhagenw meddiannol (*possesive pronoun*) yn y cymal.

Cyfieithwch:

the girl I saw.

the girl whose mother I saw.

3. Edrychwch ar y ddau gymal isod:

y dyn **a** dalais i

y dyn **y** bydda i'n ei dalu

Os bydd y goddrych a'r gwrthrych yn **wahanol** (fel uchod), rhaid i ni ddefnyddio **y** gyda berfau cwmpasog. Ond byddwch yn ofalus; yn y cymal hwn – y dyn a fydd yn talu – y dyn yw'r goddrych ac rydyn ni'n parhau i siarad amdano fe yn yr un cymal.

Cyfieithwch:

the car I drove

.....

the car I will be driving

.....

Cysylltwch y brawddegau isod trwy ddefnyddio cymal gan ddefnyddio **y**.

e.e Dyma'r papur. Gofynnaist ti am y papur y bore 'ma.
Dyma'r papur **y** gofynnaist ti amdano y bore 'ma.

1. Dyma'r ysgol. Ysgrifennodd yr awdur am yr ysgol.

.....

2. Weloch chi'r car? Talais i £3,000 am y car.

.....

3. Dyna'r bachgen. Byddwn i'n hoffi llongyfarch y bachgen.

.....

4. Glywaist ti'r gân? Gwrandawais i ar y gân ddoe.

.....

5. Dyna'r dillad. Talon nhw am y dillad echdoe.

.....

6. Wyt ti wedi gweld y llyfrau? Edrychon ni ar y llyfrau neithiwr.

.....

7. Ydych chi wedi gweld y dyn? Bydda i'n gweld y dyn yfory.

.....

8. Dyna'r ferch. Enillodd partner y ferch y brif wobr.

.....

Cefndir – Cerddoriaeth gyfoes Gymraeg



Datblygodd canu pop yng Nghymru gyda'r mudiad protest, a hynny yn y 1960au. Dechreuodd Dafydd Iwan ganu caneuon protest i gyd-fynd ag ymgyrchoedd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg. Yna, gyda'i gyfaill Huw Jones, sefydlodd Dafydd Iwan Gwmni Sain er mwyn cynhyrchu recordiau o safon uchel, yn gerddorol ac yn dechnegol.

Roedd dylanwad canu gwerin yn drwm ar lawer o'r bandiau Cymraeg cyntaf, ond yn ystod y saithdegau a'r wythdegau, datblygodd y sîn Gymraeg i gynnwys pob math o arddulliau, o reggae Geraint Jarman a'r Cynganeddwyr, i gerddoriaeth ddawns Tŷ Gwydr, i gerddoriaeth pync Yr Anhrefn.

Heddiw, mae amrywiaeth o fandiau ac artistiaid yn canu yn Gymraeg ac yn creu cerddoriaeth o safon uchel iawn. Efallai nad ydynt yn denu torfeydd enfawr fel bandiau Cymraeg yr wythdegau, ond mae'n sicr yn gyfnod cyffrous yn hanes cerddoriaeth gyfoes Gymraeg. Diolch i'r we, mae cerddoriaeth Gymraeg yn cyrraedd pobl ym mhedwar ban y byd, a phoblogrwydd artistiaid megis Gwenno – sy'n canu yn Gymraeg ac yn Gernyweg – yn dangos bod modd cael gyrfa lwyddiannus trwy ganu mewn iaith leiafrifol.

Cwmni Sain

Fideo 1

Byddwch chi'n gwyllo rhan o'r rhaglen *Sain yn 50* (BBC Cymru) a ddarllledwyd yn 2019. Sain oedd y label gyntaf i ryddhau recordiau Cymraeg a gwnaeth y cwmni waith pwysig iawn yn nyddiau cynnar canu pop Cymraeg.

1. Wrth wyllo'r fideo am y tro cyntaf, rhowch gylch o gwmpas y geiriau a'r ymadroddion hyn pan fyddwch yn eu clywed:

**ffyddloniaid
gwaddol**

**cymryd yr awenau
ymfalchïo**

crynhoi

Trafodwch ystyr y geiriau a'r ymadroddion gyda'ch partner. Os nad ydych yn gwybod eu hystyr, ceisiwch ddyfalu.

2. Ar ddechrau'r fideo, pam mae Stiwdio Sain yn agored i'r cyhoedd?

3. Nodwch o leiaf ddau beth sydd yn yr archif.

4. Mae Dyl Mei (y trydydd siaradwr) yn sôn am 'gynhyrchwyr preswyl'. Edrychwch ar y geiriau a'r ymadroddion Saesneg isod, sy'n gysylltiedig â'r gair preswyl. Beth ydyn nhw'n Gymraeg?

residents _____ *to reside* _____
resident artist _____ *residential centre* _____

5. Gwrandewch yn ofalus ar Hywel Gwynfryn (y pedwerydd siaradwr) yn siarad am y gân 'Yma o Hyd', a llenwch y bylchau.

Mae'n gân _____ on'd ydy? Mae'n gwneud i chi deimlo eich bod chi'n _____ eich bod chi'n Gymro ac mae'n eich _____ chi... ac mae'n deud y cyfan. Mi ydan ni fel _____ yma o hyd. Dim ond gobeithio y bydd Sain yn medru deud ymhen _____ arall, "Dan ni yma o hyd."

6. Mae rhai o'r cyfranwyr yn defnyddio ffurfiau llafar, anffurfiol ar eiriau Cymraeg. Ysgrifennwch y geiriau sydd wedi'u tanlinellu mewn Cymraeg safonol.

"Tmbo, maen nhw 'di gorfod newid, maen nhw 'di gorfod addasu."

"Snam dowt am hynna."

"Mae'n siŵr bod gan bawb record Sain yn cuddio rwla yn eu cartrefi."

"Dw i'n meddwl bod Sain 'di sylweddoli bod gynnon ni rw bath fel Cymry..."

Siaradwch



- Yn ôl Dyl Mei, mae'r ugain mlynedd diwethaf wedi bod yn anodd i Sain. Beth fyddai'r rheswm am hynny, yn eich barn chi? Pa newidiadau sydd wedi bod yn y ffordd rydyn ni'n prynu cerddoriaeth?
- Yn ôl Elin Fflur, mae Recordiau Sain a cherddoriaeth Gymraeg yn 'rhan fawr iawn o sut mae'r iaith wedi parhau'. Beth arall sydd wedi helpu'r iaith i barhau, yn eich barn chi?
- Mae'r fideo'n gorffen gyda'r gân 'Yma o Hyd' gan Dafydd Iwan. Ydych chi'n gyfarwydd â'r gân hon? Mae Hywel Gwynfryn yn ei galw'n gân 'anthemig'. Pa ganeuon eraill (Cymraeg neu Saesneg) sy'n 'anthemig', yn eich barn chi?
- Ydych chi erioed wedi bod i gig neu gyngerdd Cymraeg?
- Os ydych chi'n hoffi gwranddo ar gerddoriaeth Gymraeg, sut cawsoch chi eich cyflwyno i'ch hoff artistiaid?

Fideo 2

Anorac (2019) Ffilm gan Huw Stephens a Gruffydd Davies. Diolch i Boom Cymru am eu caniatâd caredig i ddefnyddio clipiau o'r ffilm.

Mae Huw Stephens yn DJ sydd wedi gweithio ar Radio Cymru a Radio 1, ac wedi trefnu llawer o wyliau a digwyddiadau cerddorol. Ffilm ddogfen yw *Anorac*, sy'n trafod ei obsesiwn â cherddoriaeth Gymraeg. Mae'n cynnwys perfformiadau gwych gan fandiau ac artistiaid amrywiol o bob cwr o Gymru, yn ogystal â sgysiau diddorol am hanes a datblygiad cerddoriaeth Gymraeg gyfoes.

Wrth wyllo'r fideo, gwnewch nodiadau yn y blwch isod. Yna, gyda'ch partner, ysgrifennwch bum cwestiwn i'w gofyn i aelodau'r dosbarth.

Cwestiynau

1.
2.
3.
4.
5.

Sut mae'r dosbarth yn gwranddo ar gerddoriaeth?

Enw	Ar y radio	Ffrydio / lawrlwytho	CD/ Feinyl	Yn fyw	Ddim yn gwranddo ar gerddoriaeth

Siaradwch



- Beth yw eich barn chi am y gerddoriaeth a glywoch chi yn y fideo?
- Hoffech chi wybod rhagor am fandiau ac artistiaid sy'n canu yn Gymraeg?
- Ydych chi erioed wedi clywed Huw Stephens ar y radio? Rhaglen Gymraeg neu raglen Saesneg oedd hi?
- Fyddwch chi'n gwrandio ar Radio Cymru?
- Oes gennych chi hoff ddarlledwr radio?

Uned 4

Nod yr uned hon yw...

- Cyflwyno agweddau ar arholiad Defnyddio'r Gymraeg Uwch
- Ystyried Trychineb Aber-fan

Geirfa

Amwythig	<i>Shrewsbury</i>
canran(nau)	<i>percentage(s)</i>
Gwyddeleg	<i>Irish</i>
gyrfa(oedd)	<i>career(s)</i>
helfa (helfeydd)	<i>hunt(s); catch(es)</i>
Manceinion	<i>Manchester</i>
paradwys(au)	<i>paradise(s)</i>

cyffwrdd (â)	<i>to touch</i>
digalonni	<i>to become disheartened</i>
ffurfio	<i>to form</i>
heneiddio	<i>mynd yn hen</i>
hyderu	<i>to trust, to hope</i>
parablu	<i>siarad (yn ddiddiwedd)</i>
ymestyn	<i>to reach</i>

cip	<i>glimpse</i>
comisiynydd (comisiynwyr)	<i>commissioner(s)</i>
culfor(oedd)	<i>strait(s)</i>
cydweithrediad	<i>cooperation</i>
cyfrifiad	<i>census</i>
cynfas(au)	<i>canvas(es)</i>
cynhyrchydd (cynhyrchwyr)	<i>producer(s)</i>
cywreindeb	<i>curoisity; dexterity, refinement</i>
diben(ion)	<i>aim(s), purpose(s)</i>
ffrwydrad (ffrwydriadau)	<i>explosion(s)</i>
gwair	<i>hay</i>
palas(au)	<i>palace(s)</i>
patrwm (patrymau)	<i>pattern(s)</i>
peintiad(au)	<i>painting(s)</i>
pensaer (penseiri)	<i>architect(s)</i>
perl(au)	<i>pearl(s)</i>
teipiadur(on)	<i>typewriter(s)</i>
twf	<i>growth</i>
y cyfan	<i>the whole</i>

bod â'ch bryd ar	<i>to have your mind set on</i>
cadw draw	<i>to keep away</i>
erbyn deall	<i>having understood</i>
mymryn	<i>ychydig bach</i>
teirawr	<i>tair awr</i>
yn drech na	<i>mightier than; superior to</i>

afresymol	<i>unreasonable</i>
Affricanaidd	<i>African</i>
awtistig	<i>autistic</i>
boreol	<i>yn perthyn i'r bore</i>
canlynol	<i>following</i>
deallusol	<i>intellectual</i>
dychmygol	<i>imaginary</i>
geirwir	<i>truthful</i>
gwleidyddol	<i>political</i>
proffidiol	<i>profitable</i>
teithiol	<i>travelling</i>



Geiriau pwysig i mi...

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Siaradwch



Siarad personol – Disgrifiwch y pen-blwydd mwyaf cofiadwy a gawsoch chi erioed.

Cyn siarad am eich profiad eich hunan, gwrandewch ar Gethin Jones yn sôn wrth Dewi Llwyd am ei ben-blwydd mwyaf cofiadwy e.

1. Nodwch dair ffaith am Gethin Jones:

- i.**
- ii.**
- iii.**

2. Pam roedd y pen-blwydd mae'n ei ddisgrifio yn y darn mor gofiadwy?

.....

Pa mor wir yw'r datganiadau isod amdanoch chi? Dewiswch un sy'n gywir ac un sy'n anghywir. Byddwch yn barod i siarad am hyn.

Dw i'n dathlu pob pen-blwydd.

Fy mhenblwyddi mawr yn unig dw i'n eu dathlu erbyn hyn.

Mae'n well gen i ddathlu penblwyddi pobl eraill na fy mhen-blwydd i.

Dw i eisiau anghofio fy mhen-blwydd i erbyn hyn.

Dw i'n dda iawn am gofio penblwyddi.

Ro'n i'n arfer cael parti pan o'n i'n blentyn.

Dw i ddim wedi cael parti pen-blwydd ers troi'n oedolyn.

Dw i'n hoffi gofyn am rywbeth dw i ei eisiau fel anrheg ben-blwydd, yn hytrach na chael syrpréis.

**Disgrifiwch y parti pen-blwydd diwetha y buoch chi ynddo fe.
Nesa, disgrifiwch y pen-blwydd mwyaf cofiadwy a gawsoch chi erioed.**

Soniwch am:

- beth oedd eich oed a pham roedd hwn yn ben-blwydd arbennig;
- beth wnaethoch chi;
- y bobl oedd yn rhan o'r achlysur.

Gwybodaeth o iaith - Llenwi bylchau



Os chi am dro i Dregaron dros yr wythnosau nesaf, mae'n bosib y byddwch chi'n gweld dau eliffant Affricanaidd!

Beth mae dau eliffant yn ei wneud yng nghefn Cymru, meddech chi? Wel, maen nhw yno i rhan mewn ffilm, a fydd yn cael ei darlledu ar S4C dros y Nadolig. Enw'r ffilm ydy *Y Syrcas*, ac mae hi'n seiliedig ar go iawn a ddigwyddodd yng nghanol y bedwaredd ar bymtheg. Daeth syrcas deithiol i'r dref ym 1848, ac yn anffodus, cafodd yr eliffant oedd ganddyn nhw ei daro'n wael tra oedden nhw yno. Ar ôl i'r anifail farw, cafodd ei yn yr ardd y tu ôl i Westy'r Talbot, medden nhw.

Dyma fu'r sbardun i'r ffilm newydd, ond mae stori ddychmygol yn clymu'r cyfan ynghyd. Sara ydy enw'r gymeriad yn y ffilm, ac mae'n dilyn ei stori hi, pan fydd y syrcas yn cyrraedd y dref.

Pam roedd angen dau eliffant i wneud y ffilm hon, gan dim ond un oedd gan y syrcas wreiddiol? Wel, roedd angen y ddau ofn bod un yn sâl neu'n methu ffilmio am ryw reswm; hefyd, dydy eliffantod ddim yn hoffi bod ar eu pennau eu felly roedd y ddau'n gallu bod yn gwmni i'w Bu'n rhaid cael pabell fawr iddyn nhw, a digon o le iddyn nhw grwydro tu allan a chael awyr Hefyd, bu'n rhaid i'r gofalwyr 'r eliffantod â thunelli o foron, afalau a gwair.

Bydd llawer o i'w clywed yn ffilm, gan gynnwys Ffrangeg, Gwyddeleg, Almaeneg, Sbaeneg, Yoruba, yn ogystal â'r Gymraeg, wrth gwrs. Dywedodd Comisiynydd Drama S4C, 'Mae cynhyrchwyr y ffilm yn dymuno i bobl ardal Tregaron am eu croeso a'u cydweithrediad. Gobeithio bydd y gwylwyr yn mwynhau'r ffilm gyffrous hon pan fydd hi'n cael ei darlledu ar San Steffan'.

Ymarfer

bod neu mai/taw

Edrychwch ar y ddwy frawddeg isod:

gan dim ond un oedd gan y syrcais wreiddiol Mae'r cymal yn dilyn y bwlch yn **gyflawn** felly rhaid i ni ddefnyddio **mai** neu **taw**.

gan un yn y syrcais wreiddiol Mae'r cymal yn dilyn y bwlch yn **anghyflawn** felly rhaid i ni ddefnyddio **bod**.

Dyma enghreifftiau o gwestiynau llenwi bylchau yn y gorffennol. Rhwch **bod** neu **mai/taw** yn y bylchau. Efallai bydd angen treiglo **bod**.

- i. Ond mae prifathro'r Berwyn yn mynnu yr ardal gyfan yn erbyn y cynllun.
- ii. Rydym yn gwybod llawer o waith eto i'w wneud.
- iii. Rhaid cofio newyddiadurwyr eraill yn cystadlu
- iv. Gan yn Twickenham mae'r gêm.
- v. Es i â'r ci am dro am ei gŵr yn sâl yn y gwely.
- vi. Roedd yn gwybod fo oedd biau'r unig ddyn eira yn y dref.
- vii. Y peth rhyfedd yw 'r un bobl sy'n dod yn ôl flwyddyn ar ôl blwyddyn.
- viii. Ond mae pobl yn synnu Cymraes yw hi.
- ix. Gan yr Americanwyr yn cadw draw.
- x. Dw i'n siŵr ti fydd yr olaf i orffen y ras.
- xi. Bydd gwylwyr *Uned 5* yn gwybod Gethin yn gallu gwneud unrhyw beth.
- xii. Mae un o sêr enwocaf diwydiant ffilm Bollywood yn dweud yng Nghymru mae paradwys ar y ddaear.

Ymarfer

ai > ei

Cofiwch fod y deusain **ai** yn troi yn **ei** pan fyddwn ni'n ychwanegu sillaf, e.e.

iaith

ieithoedd

Ychwanegwch sillaf at y geiriau isod i wneud o leiaf **dau air** newydd bob tro:

gwaith

taith

ffaith

Gwranddo – Profiad personol



Yma, mae Helen Greenwood yn siarad am ei chefnidir ar raglen BBC Radio Cymru *Beti a'i Phobl*. Atebwch y cwestiynau ar sail y wybodaeth yn y darn.

Atebwch y cwestiynau:

1. Y dyddiau hyn, beth sy'n gallu achosi i acen Helen newid?

.....

2. Beth oedd cysylltiad cynta tad Helen ag ardal Sir Feirionnydd?

.....

3. Beth yw cysylltiad Helen â phentre Hermon erbyn hyn?

.....

4. Sut roedd tad Helen yn mynd i'r gwaith, pan oedd y teulu'n byw yn yr ardal?

.....

5. Beth sy'n awgrymu bod mam Helen ddim yn awdur llwyddiannus?

.....

Siaradwch



- Mae Helen yn dweud bod ei rhieni wedi byw mewn nifer o dai gwahanol. Disgrifiwch eich profiadau chi o symud tŷ.
- Roedd rhieni Helen yn byw heb gar. Ydych chi'n gallu byw heb gar neu ydych chi'n gallu/medru dychmygu byw heb gar?

Mae Helen yn dweud bod ei mam **â'i bryd ar fod yn awdures**. Trafodwch ystyr yr idiom yma gyda'ch partner. Yna, llenwch y bylchau isod:

Dw i â fy ar

Mae fy, (enw'r person), â'i fryd ar

Mae fy , (enw'r person) â'i bryd ar

.....

Siaradwch - Pwnc llosg



Mae creu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn darged realistig.

Yn eich grŵp chi, rhestrwch y ffactorau sy o blaid cynnydd yn niferoedd y siaradwyr Cymraeg a'r ffactorau sydd yn erbyn llwyddiant y Gymraeg.

Ffactorau o blaid twf y Gymraeg	Ffactorau yn erbyn twf y Gymraeg

Gyda'ch partner, dewiswch yr ateb cywir:

i. Faint o bobl sy'n siarad Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2011?

- a) Tua 400,000 b) tua 600,000 c) tua 800,000

ii. Ym mha dref mae'r nifer mwyaf o siaradwyr Cymraeg?

- a) Llanelli b) Pwllheli c) Y Barri ch) Y Rhyl

iii. Pwy gyfieithodd y Beibl i'r Gymraeg?

- a) O.M. Edwards b) Saunders Lewis c) William Morgan

iv. Cywir neu anghywir:

Roedd canran y siaradwyr Cymraeg yn uwch yn 2011 nag yn 2001.

Mae lefel sgiliau pobl ddwyieithog yr un fath yn y ddwy iaith.

Mae bod yn ddwyieithog yn gallu helpu eich sgiliau deallusol chi.

Nesaf, gyda'ch partner, trafodwch y pwnc – **Mae creu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn darged realistig.**

Gwybodaeth o iaith – Aralleirio



Gyda'ch partner, ailysgrifennwch y frawddeg gan ddefnyddio'r sbardun mewn prif lythrennau. Dylai'r frawddeg newydd fod mor agos â phosib at y frawddeg wreiddiol o ran ystyr. Mae'n bosib y bydd angen treiglo'r gair sbardun yn yr ateb.

Wnei di drïo hyn?

CYNNIG

Wnei di **roi cynnig ar** hyn?

1. Mae'r cyfarfod wedi gorffen.

PEN

Mae'r cyfarfod

2. Does neb yn coginio'n well na Siân.

GORAU

..... am goginio.

3. Dw i ddim wedi clywed y stori o'r blaen.

CYNTA

Dyna'r glywed y stori.

4. Does neb arall i fod i wybod.

DWEUD

Paid â

5. Roedd hi'n edrych yn hapus iawn.

CLUST

Roedd hi'n

6. Doeddwn i ddim yn gwybod ble roeddwn i.

AR

Roeddwn i

7. Does dim trefn yma o gwbl.

TRAED

Mae'r trefniadau'n

8. Dwyt ti ddim wedi heneiddio o gwbl.

ERIOED

Rwyd ti'n edrych mor

Ymarfer

Y tro cynta

1985 oedd y tro cynta i mi brynu car.

Dewiswch o leiaf bump o'r isod a dywedwch wrth eich partner ym mha flwyddyn y gwnaethoch chi'r pethau hyn am y tro cynta.

prynu car

hedfan

mynd dramor

siarad Cymraeg

prynu tŷ

ennill cyflog

cael ffôn symudol

mynd i'r ysgol

Mor ifanc ag erioed

Dydyn nhw ddim yn edrych yn hen.

Nac ydyn, maen nhw mor ifanc ag erioed.

Dydyn nhw ddim yn ymddwyn yn dda.

Dydyn nhw ddim yn anghyffredin.

Dydyn nhw ddim yn hen ffasiwn.

Dydyn nhw ddim yn afresymol.

Dydyn nhw ddim yn edrych yn llac.

Idiomau

ar ben

Mae'r cyfarfod ar ben.

Mae'r cyfarfod wedi gorffen

Mae hi ar ben arny'n nhw.

It's all over for them.

Siaradwch



- Ydy hi **ar ben** ar rywun yn y byd gwleidyddol/chwaraeon ar hyn o bryd?
- Disgrifiwch y tro diwetha i chi weld rhywun **yn wên o glust i glust**.
- Ydych chi'n cofio bod yn rhywle pan oedd y trefniadau'n **draed moch**?

Cymraeg ffurfiol - Yr Amser Gorffennol



Llafar 'mynd'	Llenyddol 'mynd'	Llafar 'cael'	Llenyddol 'cael'	Llafar 'bod'	Llenyddol 'bod'
Es i/Mi es i	Euthum	Ces i/Ges i Mi ges i	Cefais	Bues i Mi fues i	Bûm
Est ti/Mi est ti	Aethost	Cest ti/Gest ti Mi gest ti	Cefaist	Buest ti Mi fuest ti	Buost
Aeth e/hi Mi aeth o/hi	Aeth	Cafodd e/ Gaeth hi Mi gaeth o/hi	Cafodd	Buodd e/hi Mi fuodd o/hi	Bu
Aethon ni Mi aethon ni	Aethom	Cawson ni/ Gaethon ni Mi gaethon ni	Cawsom	Buon ni Mi fuon ni	Buom
Aethoch chi Mi aethoch chi	Aethoch	Cawsoch chi/ Gaethoch chi Mi gaethoch chi	Cawsoch	Buoch chi Mi fuoch chi	Buoch
Aethon nhw Mi aethon nhw	Aethant	Cawson nhw/ Gaethon nhw Mi gaethon nhw	Cawsant	Buon nhw Mi fuon nhw	Buont

Mae **gwneud** a **dod** yr un peth â **mynd**.

Mae **cyfarfod** a **darganfod** yr un peth â **bod**.

Dysgwch hefyd:

Rhoddodd e/hi

Rhoes

Trodd/Troiodd e/hi

Troes

Dyma ddwy enghraifft o Gymraeg ffurfiol:

Cefais fraw wrth ateb y drws. (*BBC Cymru Fyw*)

Euthum heibio'r rhain (cylchgrawn *Y Stamp*)

Sut basech chi'n dweud y canlynol ar lafar?

1. Cefais eich llythyr. _____
2. Pam aethost? _____
3. Gwnaethost yn dda. _____
4. A gefaist ddigon? _____
5. Bu farw John yn sydyn. _____
6. Bûm yn ei thŷ neithiwr. _____
7. Rhoes y cyfan i mi. _____
8. Cawsant amser da. _____
9. Troes yn sydyn pan glywodd y sŵn. _____
10. Deuthum yn y car. _____

Cefndir – Trychineb Aber-fan



Pentref tua phedair milltir i'r de o Ferthyr Tydful yw Aber-fan. Fel cymaint o bentrefi yng nghymoedd De Cymru, tyfodd cymuned yno o ganlyniad i'r diwydiant glo.

Ar 21 Hydref 1966, digwyddodd trychineb erchyll yn Aber-fan. Roedd plant Ysgol Gynradd Pantglas newydd orffen eu gwasanaeth boreol pan lithrodd tomen o wastraff glo o'r tipiau oedd ar ben y mynydd uwchben y pentref gan ddinistrio'r ysgol a deunaw tŷ. Lladdwyd 116 o blant a 28 o oedolion.

Gwyllo a gwrando 1 – Atgofion o drychineb Aber-fan gan Wyn James



Siaradwch

1. Nodwch o leiaf dri pheth a ddysgoch chi am drychineb Aber-fan wrth wrando ar Wyn James yn siarad. Os oeddech chi'n gwybod llawer am y drychineb yn barod, a ddysgoch chi unrhyw beth newydd?

2. Llenwch y bylchau canlynol wrth wrando:

- "...ar y bore yna, wedi naw o'r gloch"
- "...roedd yna i'r bechgyn yn y pumed a'r chweched dosbarth..."
- "...i fynd i'r ysgol i ar frys..."

3. Sut mae'r rhifau canlynol yn cael eu dweud? At beth maen nhw'n cyfeirio?

16:
 3:
 50:

4. Meddyliwch am y gair **diarwybod**. (di + ar+ gwybod) yn y frawddeg '..dros amser wedyn, **yn ddiairwybod**, roedd y dŵr wedi bod yn cronni...' Allwch chi feddwl am chwe gair arall sy'n dechrau â **di-**? Nodwch nhw isod.

.....

Beth sy'n digwydd weithiau gyda'r ail sillaf yn y geiriau hyn?

.....

5. Mae'r ymadrodd **bob hyn a hyn** yn y darn. Beth yw ystyr yr ymadrodd? Ydych chi'n gwybod am ffordd arall o ddweud yr un peth?

.....

6. Mae Wyn James yn defnyddio'r ferf **disgyn**. Meddyliwch am ddwy ferf y gallech chi eu defnyddio yn lle **disgyn**.

.....

7. Defnyddir yr ansoddair **llethol** i ddisgrifio'r distawrwydd. Ysgrifennwch ddwy frawddeg sy'n cynnwys yr ansoddair **llethol** isod:

i. gwres

.....

ii. mwyafrif

.....

Gwyllo a gwrando 2 – Edrych yn ôl ar drychineb Aber-fan



1. Beth oedd ymateb pobl i'r drychineb dros gyfnodau gwahanol?

.....

.....

.....

.....

2. Pam roedd pobl yn ddig?

.....

.....

.....


.....

Siaradwch



- “Pe bai'r ysgol yna wedi bod yn Harrow neu yn Eton fydden nhw ddim wedi codi rhywbeth fel 'na uwch eu pennau nhw.” Ydych chi'n cytuno?
- ‘Mae trychinebau fel tân Tŵr Grenfell yn dangos bod rhai pobl yn y gymdeithas o hyd yn fwy tebygol o ddioddef oherwydd esgeulustod ac anghyfiawnder.’ Trafodwch.
- Sut mae cymdeithas wedi newid yn yr hanner can mlynedd a mwy ers trychineb Aber-fan? Trafodwch y canlynol:
 - iechyd a diogelwch
 - cymryd cyfrifoldeb a thalu iawndal
 - siarad am deimladau

Gwyllo a gwrando 3 – Cerdd ‘Aber-fan’ gan T. Llew Jones



I Hamelin erstmalwm
Os yw'r hen stori'n ffaith,
Fe ddaeth rhyw bibydd rhyfedd
Yn gwisgo mantell fraith.

A'r pibydd creulon hwnnw
A aeth â'r plant i gyd
A'u cloi, yn ôl yr hanes,
O fewn y mynydd mud.

A Hamelin oedd ddistaw
A'r holl gartrefi'n brudd,
A mawr fu'r galar yno
Tros lawer nos a dydd.

Distawodd chwerthin llawen
Y plant wrth chwarae 'nghyd,
Pob tegan bach yn segur,
A sŵn pob troed yn fud.

Trist iawn fu hanes colli
Y plant diniwed, gwan –
Yn Hamelin erstmalwm,
Heddiw yn Aber-fan.

T. Llew Jones

1. Pam penderfynodd Wyn a Christine James gasglu a golygu cerddi am Aber-fan?

.....

2. Rydych wedi clywed yr ymadroddion **dan yr wyneb** ac **ar yr wyneb** yn y cyfweiliadau hyn. Pa ymadroddion eraill y gallwch chi feddwl amdanyn nhw sy'n cynnwys y gair **wyneb**?

.....

3. Mae'r clip fideo yn cynnwys sawl **berf amhersonol**. Sut byddech chi'n troi'r brawddegau canlynol i'r **goddefol**?

'Fe ddarllledwyd y gerdd wedyn ar raglen *Heddiw* y nos Lun ganlynol.' >

.....

'Dw i'n credu taw dyma un o'r cerddi gorau a luniwyd.' >

.....

Ydych chi'n cofio'r terfyniadau i'w defnyddio gyda berfau amhersonol? Llenwch y bylchau yn y tabl isod.

berfenw	gorffennol	amherffaith	presennol / dyfodol
	- ____	- ____	- ____
darlledu			
llunio			
cymryd			
hudo			

4. Athro a phrifathro oedd T. Llew Jones **wrth ei alwedigaeth**. Pa ymadroddion eraill sy'n cynnwys y gair **wrth**?

.....

5. Yn y fideos rydyn ni'n clywed y berfau **ymdawelu** ac **ymuniaethu**. Allwch chi feddwl am ferfau eraill sy'n dechrau ag **ym-**?

.....

6. Gair arall y gellid ei ddefnyddio yn lle **segur** fyddai **llonydd**. Meddyliwch am eiriau eraill yn lle'r geiriau canlynol:

mantell	brith / braith	prudd	diniwed

7. Tanlinellwch yr ansoddeiriau yn y gerdd. Oes un neu ddau yn sefyll allan?

.....

.....

8. Rhwch ddau rheswm pam mae'n drawiadol mai T. Llew Jones a luniodd un o'r cerddi mwyaf cofiadwy i drychineb Aber-fan.

.....

.....

.....

.....

Siaradwch



- Beth sy'n debyg rhwng chwedl Hamelin a thrychineb Aber-fan?
- Oes rhywbeth arall rydych chi'n ei wybod am drychineb Aber-fan?
- Pa mor bwysig yw cofio trychineb Aber-fan er mwyn deall Cymru fodern?

Ymarfer Geirfa Uned 4

Gyda'ch partner, llenwch y bylchau.

1. Mae _____ uchel o'r dosbarth yn absennol heddiw.
2. Peidiwch â _____ â'r wal – mae'r paent yn wlyb.
3. Tref farchnad fawr yn Lloegr, ond yn agos at ffin Cymru, yw _____.
4. Roedd tîm Llanaber _____ tîm Aberheli ddydd Sadwrn diwethaf. Enillon nhw o dri deg o bwyntiau.
5. Roedd yn rhaid cau'r busnes am nad oedd e'n _____.
6. Ymddeolodd John Jones ar ôl _____ hir a llwyddiannus yn y gwasanaeth sifil.
7. Mae gweld cymaint o bobl ddigartref yn gwneud i rywun _____
8. _____ enwog gynlluniodd yr adeilad newydd.
9. Maen nhw am i fi _____ o'r swyddfa nes bod fy annwyd wedi clirio.
10. Roedd cais y pennaeth yn gwbl _____ felly es i at yr undeb.

Uned 5

Nod yr uned hon yw...

- Cyflwyno agweddau ar arholiad Defnyddio'r Gymraeg Uwch
- Dysgu am brotest iaith

Geirfa

asen(nau)	<i>rib(s)</i>
graddfa (graddfeydd)	<i>scale(s)</i>
gweithdrefn(au)	<i>procedure(s)</i>
gweledigaeth(au)	<i>vision(s)</i>
rhagfarn(au)	<i>prejudice(s)</i>
siarter(i)	<i>charter(s)</i>
tystysgrif(au)	<i>certificate(s)</i>

anfaddeuol	<i>unforgivable</i>
anorfod	<i>unavoidable, inevitable</i>
cyfalafol	<i>capitalist</i>
cymharol	<i>comparative</i>
disgwyliedig	<i>expected</i>
diymadferth	<i>helpless</i>
gorllewinol	<i>western; westernised</i>
priodol	<i>appropriate</i>

absenoldeb(au)	<i>absence(s)</i>
argyfwng (argyfyngau)	<i>crisis (crises), emergency(-ies)</i>
baich (beichiau)	<i>burden(s)</i>
bodddhad	<i>satisfaction</i>
chwistrelliad(au)	<i>injection(s)</i>
datganiad(au)	<i>statement(s)</i>
datrysiaid(au)	<i>solution(s)</i>
dirywiad	<i>deterioration</i>
elw	<i>profit</i>
ewylllys(iau)	<i>will(s)</i>
f(e)irws (feirysau)	<i>virus(es)</i>
gobennydd (gobenyddion)	<i>pillow(s)</i>
gof(aint)	<i>blacksmith(s)</i>
gweithlu(oedd)	<i>workforce(s)</i>
haint (heintiau)	<i>infection(s)</i>
hylendid	<i>hygiene</i>
lwfans(au)	<i>allowance(s)</i>
lletygarwch	<i>hospitality</i>
nawdd	<i>sponsorship</i>
presenoldeb	<i>presence, attendance</i>
sylfaenydd (sylfaenwyr)	<i>founder(s)</i>
tranc	<i>death</i>
ymholiad(au)	<i>enquiry (-ies)</i>
ymroddiad	<i>dedication</i>

adsefydlu	<i>to resettle</i>
amddifadu	<i>to deprive</i>
arlwyo	<i>to cater</i>
cartrefu	<i>to house</i>
cydweithio	<i>to work together</i>
dirywio	<i>to deteriorate</i>
disgyblu	<i>to discipline</i>
drysu	<i>to confuse</i>
eithrio	<i>to exclude;</i> <i>to exempt</i>
ffoi	<i>to flee</i>
gorfodi	<i>to force;</i> <i>to compel</i>
gweinyddu	<i>to administer,</i> <i>to officiate</i>
honni	<i>to claim,</i> <i>to allege</i>
rhagweld	<i>to foresee</i>
sgrechian	<i>to scream</i>
temptio	<i>to tempt</i>
torri ar draws	<i>to interrupt</i>
traethu	<i>to talk;</i> <i>to narrate;</i> <i>to relate</i>
ymgartrefu	<i>to settle</i>

achos(ion) brys	<i>emergency</i> <i>case(s)</i>
ar y blaen	<i>in the lead</i>
ar y cyd	<i>gyda'i gilydd</i>
ceisiwr (ceiswyr)	<i>asylum seeker(s)</i>
lloches	
enedl noddfa	<i>nation of sanctuary</i>
deufis	<i>dau fis</i>
ddim yn fêl i gyd	<i>not a bed of roses</i>
iechyd meddwl	<i>mental health</i>
o bryd i'w gilydd	<i>weithiau, o dro i dro</i>
o'r crud i'r bedd	<i>lifelong</i>
prif weithredwr	<i>chief executive</i>
torchï llewys	<i>to roll up one's</i> <i>sleeves, to</i> <i>knuckle down</i>

Geiriau pwysig i mi...

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Darllen a siaradwch – Ffoaduriaid yn Aberystwyth



Fuoch chi erioed yn Aberystwyth? Os felly, mae'n debyg y byddwch chi'n gwybod am y prom hyfryd, Craig-glais (*Constitution Hill* neu Consti), a'r Brifysgol (neu'r 'Coleg ger y lli'). Ond tybed a wydddech chi fod Aberystwyth yn prysur ennill enw da yn fyd-eang am reswm arall?

Ers mis Rhagfyr 2015 mae dros ddeugain ffoadur o Syria wedi ymgartrefu yn Aberystwyth. Teuluoedd gyda phlant yw'r rhan fwyaf, ond mae hefyd ambell fam-gu a thad-cu a rhai pobl sengl ymysg y criw. Yn ôl gwirfoddolwyr lleol, dywed y ffoaduriaid eu bod wedi cael croeso yn y dref; mae'n lle saff a heddychlon iddynt ailadeiladu eu bywydau.

Daeth y ffoaduriaid cyntaf i Aberystwyth trwy wahoddiad Cyngor Sir Ceredigion. Wedi hynny, sefydlwyd elusen o'r enw *Aberaid*, i gefnogi'r ffoaduriaid ac i gartrefu rhagor o deuluoedd ffoaduriaid.

Un o sylfaenwyr *Aberaid* yw Siôn Meredith, sy'n rheolwr yn y sector Dysgu Cymraeg. Fel yr esbonia Siôn, nid gwaith hawdd i *Aberaid* oedd cartrefu'r teuluoedd ychwanegol.

"Roedd yn rhaid codi £9,000 o nawdd bro (*community sponsorship*) i brofi i'r Swyddfa Gartref yn Llundain fod gennym y modd i gefnogi'r ffoaduriaid. Y cam nesaf oedd cyflwyno Cynllun Adsefydlu (*Resettlement Plan*) manwl iawn i'r Swyddfa Gartref, i sicrhau pob chwarae teg i'r ffoaduriaid ar ôl iddyn nhw gyrraedd. Ond yr her fwyaf oedd dod o hyd i gartrefi addas, gan nad oes hawl gan ffoaduriaid i fyw mewn tai cyngor na thai cymdeithasol. Roedd yn rhaid dod o hyd i landlordiaid preifat dibynadwy a oedd yn fodlon derbyn lwfans lleol. Wedi hynny, buon ni'n gweithio gyda'r asiantaethau priodol i drefnu gwersi Saesneg i'r ffoaduriaid, ac fe sefydlon ni dîm gwirfoddol i gefnogi'r teulu cyntaf i ddod atom ni."

Yn ôl Siôn, mae *Aberaid* yn gwneud yr hyn na all y Cyngor Sir ei wneud, sef "creu pont, agor drysau a meithrin cyfeillgarwch" rhwng y ffoaduriaid a'r gymuned leol. Menter lwyddiannus iawn yw Clwb Cinio wythnosol *Aberaid*, lle y daw pawb â phlataid o fwyd i'w rannu. Trwy'r clwb, mae cyfeillgarwch dwfn wedi datblygu rhwng teuluoedd Syriaidd a theuluoedd lleol, sydd bellach yn mwynhau prydau bwyd yng nghartrefi ei gilydd.

Cynllun llwyddiannus arall yw'r *Syrian Dinner Project*, a sefydlwyd gan fenywod o Syria mewn cydweithrediad â'r Groes Goch. Maent wedi cynnal gwleddoedd mewn neuaddau eglwys yn ogystal â noson Syriaidd ar y cyd â bwyty yn Aberystwyth. Nod y cynllun yw helpu'r menywod i ennill incwm, profiad, sgiliau a chymwysterau fel tystysgrifau hylendid bwyd. Mae hefyd yn rhoi llawer o foddhad i'r menywod gan fod bwyd a lletygarwch yn rhan bwysig o ddiwylliant Syria. Yn y pen draw, gobeithia'r menywod sefydlu busnes arlwyio teithiol ar gyfer digwyddiadau.

Sgîl hanfodol i'r ffoaduriaid yw siarad Saesneg, ac fe gynigir gwersi Saesneg am ddim iddynt. Ond mae *Aberaid* hefyd yn awyddus i addysgu'r ffoaduriaid am ddiwylliant Cymru, ac yn cefnogi unrhyw ffoaduriaid sy'n awyddus i ddysgu Cymraeg. Un o'r rheiny yw Mohammed, sydd bellach yn gweithio yn y gymuned ac mae ei gydweithwyr yn siarad Cymraeg. Nid peth hawdd yw dysgu'r iaith, ac yntau'n gweithio oriau hir ac yn gorfod ymdopi â nifer mawr o heriau wrth greu bywyd newydd iddo ef ei hun a'i deulu. Ond mae ei ddosbarth Cymraeg yn falch iawn ohono, a'i gydweithwyr yn gwerthfawrogi ei ymdrech i ddysgu'r iaith.

Mae angen oriau o wirfoddoli a llawer o ewyllys da i gynnal popeth, ond nid perthynas unochrog yw hi, yn ôl Siôn Meredith. Dywed fod gwirfoddolwyr *Aberaid* wedi elwa mwy o'r cyfeillgarwch nag y mae'r Syriaidd: "Dyn ni wedi derbyn mwy nag rydyn ni wedi'i roi."

Wrth gwrs, nid yw pethau'n fêl i gyd. Mae ychydig o bobl leol wedi dangos rhagfarn a chasineb tuag at y ffoaduriaid, ond enghreifftiau prin yw'r rheini. Problem arall yw diffyg cefnogaeth iechyd meddwl arbenigol i'r ffoaduriaid sydd wedi dioddef trawma difrifol. Ond ar y cyfan, mae Aberystwyth wedi estyn croeso cynnes iawn.

Erbyn heddiw, ceir mudiadau tebyg i *Aberaid* ym mhob cwr o Gymru. Cymru yw'r ail wlad yn y byd o ran estyn cefnogaeth a chodi nawdd bro i ailgartrefu ffoaduriaid. Canada sydd ar y blaen, gan ei bod yn cynnal cynlluniau nawdd bro ers blyneddau maith, ac wedi ysbrydoli grwpiau fel *Aberaid* ledled y byd. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn dda iawn o ran ei hagwedd tuag at ffoaduriaid, ac ym mis Ionawr 2019, cyhoeddodd gynllun Cenedl Noddfa. Cynllun yw hwn i sicrhau bod ffoaduriaid a cheiswyr lloches sy'n dod i Gymru yn derbyn digon o gefnogaeth a chymorth wrth ymsefydlu yn ein cymunedau.

Yn ôl Siôn Meredith, nid oes digon o bobl yn gwybod am waith da Cymru ym maes ailgartrefu ffoaduriaid. Dywed fod "...lle i ni fod yn falch fel cenedl ein bod ni'n croesawu ffoaduriaid."

Ar ôl darllen yr erthygl, nodwch y pum prif pwynt yma:

.....

.....

.....

.....

.....

- Ydych chi'n gwybod am unrhyw waith sy'n digwydd gyda ffoaduriaid yn eich ardal chi?
- Ydych chi'n gwybod am unrhyw brosiectau cymunedol lle mae pobl wedi dod at ei gilydd i gyflawni rhywbeth pwysig?
- Ydych chi'n gwneud unrhyw waith gwirfoddol?

Mae'r geiriau **croeso**, **cartref** ac **iechyd** yn codi yn y darn. Meddyliwch am gymaint â phosib o gysylltiadau – enwau, berfau, ansoddeiriau, idiomau, dywediadau.

Gwybodaeth o iaith – Dewis y ffurf gywir



Dewiswch yr ateb mwyaf tebygol a allai fynd yn y bwlch.

- i.** Does dim byd arbennig weld yn yr ardal.
- i'w
 - i
 - o
- ii.** Ydy'r plant yn gwybod pryd 'r gêm yn dechrau?
- sy
- iii.** Roedd yn amlwg i bawb fod ariannol y cwmni wedi mynd o ddrwg i waeth yn ddiweddar iawn.
- safle
 - agwedd
- iv.** Er nad wyt ti'n siŵr o'r ateb, rho gynnig
- iddi
 - arni

v. y cyngor gyfarfod yn y neuadd ddoe.

- a. Cynhaliwyd
- b. Cynhaliodd
- c. Cynhelir
- ch. Cynhelid

vi. Er y daith yn eithaf hir, roedd pawb wedi mwynhau'r gwyliau.

- a. bod
- b. roedd
- c. gwaethaf
- ch. mai

vii. Mae hi'n gobeithio bydd hi'n mynd yfory.

- a. mai
- b. bod
- c. ei
- ch. y

viii. Doedd o obaith y byddai'r tîm yn ennill, ar ôl cymaint o anafiadau.

- a. fawr
- b. dim
- c. llawer
- ch. ddim

Ymarfer

Mae cwestiwn **iii.** yn profi geirfa. Mae cymysygu **sefyllfa** a **safle** yn gyffredin iawn.

safle – lle mae rhywun yn chwarae mewn tîm (*position*); lle mae rhywbeth fel adeilad yn sefyll (*location/site*).

Mae'r siop mewn safle delfrydol achos mae llawer o bobl yn cerdded heibio.

sefyllfa – amgylchiadau person neu gwmni (*situation*).

Mae'r RSPB yn poeni am sefyllfa adar yng Nghymru.

Rhowch gynnig ar y parau isod. Efallai bydd yn rhaid i chi dreiglo hefyd.

i. rheolaeth rheolaidd

Collodd e ar y car.

Mae hi'n arddangos ei gwaith yn

ii. diwylliannol **diwylliedig**

Mae llawer o bethau i'w gwneud yn y ddinas – mae'n ddinas
iawn.

Maen nhw'n bobl wybodus a

iii. chwythu **chwysu**

Mae hi'n edrych yn welw iawn ac mae hi'n llawer hefyd.

"Rhaid i ti 'r canhwyllau i gyd".

iv. cau **cae**

"Pryd mae'r llety'n dros y gaeaf?"

Cynhaliwyd y ffair haf ar 'r ysgol.

v. nodau **nodïadau**

Er bod y bachgen wedi cymryd llawer o yn ystod y gwersi,
methodd e'r arholiad.

"Gobeithio bydd y côr yn canu'r cywir i gyd."

vi. cylch **crwn**

Mae plant bach yn dysgu'n ifanc iawn beth yw siapiau fel sgwâr, triongl a

.....

Roedd y gwesteion yn eistedd o gwmpas byrddau

vii. cartrefi **cartrefu**

Mae cynghorau Cymru'n ceisio pobl ond does dim digon o
dai ar gael.

Mae gan y plant eu eu hunain erbyn hyn.

viii. seilio **lleoli**

Mae'r ffilm wedi'i ar stori wir.

Mae'r ffilm wedi'i yng nghefn gwlad Cymru.

ix. golwg **golygfa**

Mae'r o gopa'r mynydd yn anhygoel.

"Rhaid i mi gael sbectol achos dw i'n fyr fy "

x. llym **llwm**

Roedd athrawon yn fwy yn y gorffennol ac roedd
disgyblaeth yn well.

Mae'r teulu'n byw mewn amgylchiadau digon

xi. diben dibyn

"Does dim i ni aros, ddôn nhw ddim nawr."

Yn ffodus iawn, arafodd y car a stopio ar ymyl y

xii. poblogaidd poblogaeth

Mae gemau cyfrifiadurol yn iawn ymhlith pobl ifainc.

Mae y dref wedi cynyddu ers codi'r tai newydd.

Weithiau, byddwn ni'n defnyddio **fawr ddim** neu **fawr neb** yn lle **dim llawer**:

Brynoch chi rywbeth?

Doedd fawr ddim i'w brynu.

Wnaethoch chi rywbeth?

.....

Fwytoch chi rywbeth?

.....

Archeboch chi rywbeth?

.....

Gadwoch chi rywbeth?

.....

Adawoch chi rywbeth?

.....

Ddealloch chi rywbeth?

.....

Yfoch chi rywbeth?

.....

Wyliochoch chi rywbeth?

.....

Werthoch chi rywbeth?

.....

Weloch chi rywbeth?

.....

Weloch chi rywun?

Doedd fawr neb i'w weld.

Goesawoch chi rywun?

.....

Enweboch chi rywun?

.....

Ffonioch chi rywun?

.....

Herioch chi rywun?

.....

Helpoch chi rywun?

.....

Gytunoch chi â rhywun?

Doedd fawr neb i gytuno ag e/o.

Siaradoch chi â rhywun?

.....

Anghytunoch chi â rhywun?

.....

Gydweithioch chi â rhywun?

.....

Gwrando – Trafodaeth




Yma, mae tri o bobl yn siarad am gau canghennau banciau yng Nghymru.

Cyflwynydd: Vaughan Roderick (o'r rhaglen *O'r Bae* ar BBC Radio Cymru)

Siaradwyr: Rhun ap Iorwerth a Russell Isaac

Cyn gwrando ar y darn, gyda'ch partner, nodwch chwe gair y basech chi'n disgwyl eu clywed yn codi mewn trafodaeth ar **gau banciau**.



Nesaf, atebwch y cwestiynau:

1. Yn ôl Rhun ap Iorwerth, faint o fanciau sy ar agor yn llawn amser ar Ynys Môn ar hyn o bryd?

- a. mwy nag yn unman arall yng Nghymru
- b. yr un faint ag oedd ddeng mlynedd yn ôl
- c. llawer llai nag oedd yn arfer bod
- ch. dim un

2. Yn ôl Rhun ap Iorwerth, mae'r ffordd mae pobl yn bancio wedi newid, ond...

- a. dydy pobl Sir Fôn ddim wedi newid eu harferion.
- b. dydy'r cysylltiad â'r we ddim yn ddigon da i gynnal y newid hwnnw.
- c. mae'n well gan bobl fancio yn y Swyddfa Bost.
- ch. dydy'r newid hwnnw ddim yn digwydd mor gyflym ag y mae banciau'n cau.

3. Yn ôl Rhun ap Iorwerth, yr ateb tymor hir ydy...

- a. dechrau 'Banc Cymreig' newydd.
- b. agor canghennau o'r banciau presennol yng nghefn gwlad.
- c. hyfforddi pobl sut i fancio ar-lein.
- ch. rhoi cyngor ariannol i bobl er mwyn eu helpu.

4. Y broblem gyda'r 'Post' (y Swyddfa Bost), yn ôl Rhun, ydy...

- a. eu bod nhw'n cau hefyd.
- b. does dim modd trafod â phobl go iawn wrth fancio yno.
- c. does dim digon ohonyn nhw yn yr ardal.
- ch. mai dim ond ychydig o wasanaethau y maen nhw'n eu cynnig.

5. Yn ôl Russell Isaac, bwriad Derek French a'r 'Campaign for Community Banking Services' oedd...

- a. cael banciau i weithio gyda'i gilydd.
- b. gwneud gwaith elusennol.
- c. dechrau 'Banc Cymreig'.
- ch. cystadlu â'r banciau mawr.

6. Pan gaeodd ei changen leol hi, ymateb mam Russell Isaac oedd...

- a. mynd i fanc arall.
- b. bancio ar-lein.
- c. cuddio'r arian oedd ganddi.
- ch. rhoi'r arian i'w mab.

Siaradwch



- Beth yw sefyllfa'r banciau yn eich ardal chi?
- Sut byddwch chi'n bancio y dyddiau hyn? Pa mor aml byddwch chi'n defnyddio cerdyn debyd / cerdyn credyd / cerdyn digyffwrdd / llyfr sieciau / archeb bost?
- Pa mor aml ydych chi chi'n defnyddio arian parod? Pa bethau ydych chi'n chi'n prynu gydag arian parod? Ydych chi'n dal i dalu pobl ag arian parod? Os felly, pwy?
- Sut dylai banciau ddarparu gwasanaeth i gymunedau, yn eich barn chi?

Mae Rhun yn dweud bod rhaid **torchi llewys**. Ystyr hyn yw bod yn barod i weithio'n galed. Yn eich grŵp, meddyliwch am bum sefyllfa lle basech chi'n gallu dweud bod yn rhaid **torchi llewys**:

- i.
- ii.
- iii.
- iv.
- v.

Siaradwch – Siarad personol

Disgrifiwch rywun sy wedi bod yn bennaeth arnoch chi yn y gwaith.



Rhestrwch eiriau gwahanol ar gyfer swyddi posibl penaethiaid yn y blwch:

golygydd (papur newydd)

prif weithredwr (cwmni)

Beth yw pennaeth da? Dewiswch dri pheth pwysig a thri pheth sy ddim yn bwysig o'r rhestr isod. Beth sy ar goll?

gweithio'n galed

cyrraedd y gwaith cyn pawb arall a gadael ar ôl pawb

cyfathrebu'n dda

prynu diodydd i bawb yn y parti Nadolig

yn deall y gwaith

gosod esiampl

gwneud y coffi

cefnogi'r staff

yn disgyblu pan fydd angen

bod â gweledigaeth

.....

.....

Edrychwch ar y lluniau o'r pedwar pennaeth. Faint o ansoddeiriau rydych chi'n gallu meddwl amdanyn nhw i ddisgrifio'r penaethiaid hyn?



Sgwrs (Fersiwn y de)



- Pennaeth:** **Dewch** i mewn.
- Sam:** Diolch. Mae'n flin gyda fi dorri ar **eich traws chi**. Oes munud gyda **chi, os gwelwch chi'n dda?**
- Pennaeth:** Wrth gwrs. **Eisteddwch**. Gobeithio **eich bod chi** ddim eisiau codiad cyflog.
- Sam:** Na, dim heddiw, beth bynnag. Na, ro'n i am gael sgwrs am fy amgylchiadau personol i ar hyn o bryd a gofyn a **fyddech chi'n** gallu bod yn hyblyg gyda fi.
- Pennaeth:** **Eich** mam **chi**, ife? Sut mae hi?
- Sam:** Ddim yn rhy dda, a dweud y gwir. Mae ei chyflwr hi wedi dirywio dros yr wythnosau diwetha. Yn ogystal â'r broblem ar ei hysgyfaint hi sy'n golygu ei bod hi'n cael gwaith anadlu, mae hi'n gloff iawn erbyn hyn hefyd.
- Pennaeth:** Mae'n flin gyda fi glywed. Gobeithio ei bod hi ddim mewn gormod o boen.
- Sam:** Nac ydy, diolch byth. Mae'r tabledi'n llwyddo i leddfu'r boen. Dw i am iddi hi fyw yn annibynnol cyn hired â phosib. Mae'r ddarpariaeth gofal yn dda iawn – mae pobl yn dod ati hi bedair gwaith y dydd. Ond hoffwn i allu helpu mwy.
- Pennaeth:** Felly, beth **dych chi'n** ei awgrymu?
- Sam:** Hoffwn i fynd ati hi bob penwythnos, a dweud y gwir. Gan fod y daith yn gant a hanner o filltiroedd un ffordd, ro'n i'n meddwl tybed **fyddech chi'n** fodlon i fi weithio fy oriau i i gyd mewn pedwar diwrnod?
- Pennaeth:** Dw i'n cymeradwyo **eich ymroddiad chi i'ch mam**. Mae fy rhieni i'n oedrannus ond dw i'n ffodus achos maen nhw mewn iechyd da. Dyw **eich cais chi** ddim yn afresymol, felly beth am gytuno ar dri mis yn y lle cynta, ar yr amod, wrth gwrs, y bydd angen gweithio pum niwrnod os bydd argyfwng yn y swyddfa.
- Sam:** Diolch o galon – mae hynny mor garedig. A bydda i ar gael ar ebost bob dydd Gwener hefyd, wrth gwrs.
- Pennaeth:** Dw i'n gwybod hynny, ond byddwn ni'n gwneud ein gorau i beidio â chysylltu – mae **eich lles chi'n** bwysig hefyd.

Sgwrs (Fersiwn y gogledd)



Pennaeth: Dewch i mewn.

Sam: Diolch. Mae'n ddrwg gen i dorri **ar eich traws chi. Sgynnoch chi** funud, **os gwelwch chi'n dda?**

Pennaeth: Wrth gwrs. Eisteddwch. Gobeithio **eich bod chi** ddim eisiau codiad cyflog.

Sam: Na, dim heddiw, beth bynnag. Na, ro'n i am gael sgwrs am fy amgylchiadau personol i ar hyn o bryd a gofyn a **fasech chi'n** medru bod yn hyblyg efo fi.

Pennaeth: **Eich mam chi**, ia? Sut mae hi?

Sam: Ddim yn rhy dda, a deud y gwir. Mae ei chyflwr hi wedi dirywio dros yr wythnosau diwetha. Yn ogystal â'r broblem ar ei hysgyfaint hi sy'n golygu ei bod hi'n cael trafferth anadlu, mae hi'n gloff iawn erbyn hyn hefyd.

Pennaeth: Mae'n ddrwg gen i glywed. Gobeithio ei bod hi ddim mewn gormod o boen.

Sam: Nac ydy, diolch byth. Mae'r tabledi'n llwyddo i leddfu'r boen. Dw i am iddi hi fyw yn annibynnol cyn hired â phosib. Mae'r ddarpariaeth gofal yn dda iawn – mae pobl yn dod ati hi bedair gwaith y dydd. Ond liciwn i fedru helpu mwy.

Pennaeth: Felly, be **dach chi'n** ei awgrymu?

Sam: Liciwn i fynd ati hi bob penwythnos a deud y gwir. Gan fod y daith yn gant a hanner o filltiroedd un ffordd, ro'n i'n meddwl tybed fasech chi'n fodlon i mi weithio fy oriau i i gyd mewn pedwar diwrnod?

Pennaeth: Dw i'n cymeradwyo **eich ymroddiad chi i'ch mam**. Mae fy rhieni i'n oedrannus ond dw i'n ffodus achos maen nhw mewn iechyd da. Dydy eich cais chi ddim yn afresymol, felly be am gytuno ar dri mis yn y lle cynta, ar yr amod, wrth gwrs, y bydd angen gweithio pum niwrnod os bydd argyfwng yn y swyddfa.

Sam: Diolch o galon – mae hynny mor garedig. Ac mi fydda i ar gael ar ebost bob dydd Gwener hefyd, wrth gwrs.

Pennaeth: Dw i'n gwybod hynny, ond mi fyddwn ni'n gwneud ein gorau i beidio â chysylltu – mae **eich lles chi'n** bwysig hefyd.

Disgrifiwch rywun sy wedi bod yn bennaeth arnoch chi yn y gwaith.

Soniwch am:

- beth oedd y swydd a phwy oedd y pennaeth;
- sut roedd y berthynas rhyngoch chi;
- un digwyddiad rydych chi'n ei gofio yn ymwneud â'r pennaeth;
- beth oedd yn gwneud y person yn bennaeth da / yn bennaeth drwg;
- beth yw hanes y pennaeth erbyn hyn.

Gwybodaeth o iaith - Llenwi bylchau

Dw i wedi cael llond ar bobl â'u ffonau symudol!

Peidiwch â'm camddeall, dw i ddim yn dechnoffôb yn ddeinosôr. Dw i'n derbyn technoleg newydd yn rhan bwysig o'n byd ni ac yn gwneud ein bywydau ni'n haws sawl ffordd. Mae gen i ffôn symudol fy hun, ac mae'n bosibl gwneud pob math o dasgau arno yn rhwydd ac yn gyflym. dim gwahaniaeth ble rydw i. Dw i'n ei ddefnyddio i biliau, i siopa ar y we, ac mae'n rhoi'r newyddion diweddaraf. Mae hefyd yn fy helpu i gadw cysylltiad â ffrindiau a chael gwybod tipyn hanes nhw. Fydda i byth yn gadael y tŷ fy ffôn, a phan fydda i'n teithio ar y bws neu'r trê, mae'n help i ladd amser.

Pam felly rydw i'n cwyno am bobl eraill yn defnyddio ffôn symudol? Wel, mae un peth y gallwch ei wneud â'ch ffôn sy'n gwneud mi sgrechian. Yr hyn sy'n fy ngwylltio i fwya pobl sy'n defnyddio'u ffôn i dynnu lluniau pryd bynnag maen nhw'n mwynhau hunain. Ym mhob cyngerdd neu sioe, fe welwch chi bobl yn dal ffôn yn yr awyr er mwyn cofnodi'r profiad. Canlyniad hynny yw difetha'r profiad i bawb arall. Allwch chi ddim gweld y llwyfan yn iawn oherwydd yr holl (braich) sy yn y ffordd. Mae hyn yn difetha'r profiad i'r rhai sy'n tynnu'r lluniau hefyd. Yn hytrach mwynhau'r hyn sy ar y llwyfan, mae eu sylw ar eu ffôn wrth nhw drïo cael y llun gorau. Mewn cyngerdd yn y stadiwm nos Sadwrn diwetha, rhaid i mi ddweud wrth ddyn oedd yn dal ei ffôn o'm blaen drwy'r cyngerdd am roi ei fraich i lawr; edrychodd e arna i fel i'n ffŵl.

Ga'i roi gair o gyngor i chi felly? Y nesa byddwch chi'n cael eich temtio i estyn am eich ffôn i dynnu llun, (meddwl) eto; cofiwch 'r profiad ei hun sy'n bwysig, nid llun ohono. Bydd yr atgofion go iawn yn eglur na'r llun neu'r fideo amatur a fydd gyda chi!

Ymarfer

llond bol

Gyda'ch partner, cyfieithwch y parau isod:

<i>a bellyful</i>	<i>a full belly</i>
<i>a handful</i>	<i>a full hand</i>
<i>a roomful</i>	<i>a full room</i>
<i>a cupboardful</i>	<i>a full cupboard</i>
<i>a spoonful</i>	<i>a full spoon</i>
<i>a cupful</i>	<i>a full cup</i>
<i>a mouthful</i>	<i>a full mouth</i>

na

Byddwn ni'n defnyddio **neu** mewn brawddegau neu gwestiynau cadarnhaol.

Byddwn ni'n defnyddio **na** mewn brawddegau negyddol. Mae'r **na** yma'n troi yn **nac** cyn llafaraiaid:

Ydych chi'n dechnophôb neu'n ddeinosôr?

Dw i ddim yn dechnophôb nac yn ddeinosôr.

Cyfieithwch:

Do you want tea or coffee? No thanks, I don't drink tea or coffee.

.....

Are you working on Saturday or Sunday? No, I'm not working on Saturday or Sunday this week.

.....

Is the company profitable or not? No, it's not suitable or profitable at the moment.

.....

Has the town improved or deteriorated? There are no shops or facilities left here.

.....

Siaradwch - gwneud i chi...



- Beth sy'n gwneud i chi wylltio?
- Beth sy'n gwneud i chi chwerthin?
- Beth sy'n gwneud i chi grio?
- Beth sy'n gwneud i chi weithio'n galed?



Cymraeg ffurfiol – Brawddegau negyddol

Byddwch chi siŵr o fod wedi dod ar draws brawddegau'n dechrau gyda **ni**. Dyna sut byddwn ni'n dechrau brawddegau negyddol mewn Cymraeg ffurfiol. Mae **ni** yn achosi treigladau llaes (T, C, P) neu dreigladau meddal (D, G, B, M, Ll, Rh). Does dim angen defnyddio **ddim** pan fyddwch yn defnyddio **ni**. Mae **ni** yn troi yn **nid** o flaen llafariad, e.e. yn llinell gyntaf yr emyn enwog Calon Lân – 'Nid wy'n gofyn bywyd moethus'.

Felly cofiwch, mae **ni/nid** yn cael ei ddefnyddio ar ddechrau brawddeg neu gymal annibynnol. Mae **na/nad** yn cael ei ddefnyddio mewn cymalau negyddol:

Nid yw Cymru ar werth ac **nid** oes hawl i'w gwerthu.

Mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn dweud **nad** yw Cymru ar werth ac **nad** oes hawl i'w gwerthu.

Dyma ddwy enghraifft o Gymraeg ffurfiol:

Nid yw trosedd casineb yn iawn. (Cyngor Conwy)

Ni fydd ymddygiad treisiol nac ymosodol yn erbyn staff y GIG yn cael ei oddef. (GIG Cymru).

Sut byddech chi'n dweud yr isod mewn Cymraeg llafar?

Ni fwriadaf gwyno.

Ni chyrhaeddodd mewn pryd.

Nid oedd gwrthwynebiad.

Nid oes twf yn yr economi.

Ni fydd ymchwiliad gan yr heddlu.

Ni fydd y lein yn cael ei thrydaneiddio.

Ni wn beth i'w wneud.

Cefndir – Protest iaith

Gwyllo a gwrando 1 – Hanes Cymdeithas yr Iaith



Diolch i Tinopolis am eu caniatâd caredig i ddefnyddio'r eitem hon.

1. Byddwch chi a'ch partner yn cael naw cerdyn sy'n cynnwys gwybodaeth o'r fideo. Tair set o dri yw'r cardiau ac mae'n rhaid i chi a'ch partner benderfynu sut i'w rhannu'n setiau trwy roi'r cardiau cywir gyda'i gilydd. Yna, ysgrifennwch dair ffaith am Gymdeithas yr Iaith gan ddefnyddio'r cardiau.

i.

ii.

iii.

2. Gyda'ch partner, trafodwch y dyfyniadau isod o'r fideo, ac esboniwch, yn eich geiriau eich hun, sut roedd yr ymgyrchwyr iaith yn gweld sefyllfa Cymru a'r Gymraeg ar ddechrau'r 1960au.

Yng ngeiriau Saunders Lewis, roedd fel petai angau'r Gymraeg yn anorfod...roedd llanw hanes fel petai yn erbyn y Gymraeg.

Gareth Miles

Yn ystod y 1960au fe gafwyd ffrwydrad o wrthryfel gan bobl ifanc yn erbyn yr hen gyfundrefnau a'r hen ffyrdd o feddwl, ac roedd Cymdeithas yr Iaith yn fynegiant Cymraeg a Chymreig o hynny.

Cyn cyfnod Cymdeithas yr Iaith, roedd y Gymraeg yn cael ei chysylltu â hen bobl a phopeth oedd yn marw.

Ffred Ffransis

Gyda'ch partner, edrychwch ar y gair **cyfundrefnau**. Allwch chi feddwl am o leiaf dri gair arall sy'n cynnwys y gair **trefn** neu **cyfun**? Nodwch nhw isod.

3. Mae Gareth Miles yn trafod dulliau ymgyrchu Cymdeithas yr Iaith. Pa fath o ddulliau roedden nhw'n eu defnyddio?

.....

.....

4. Prynodd Ffred Ffransis hen gar am £5.00 a'i yswirio am £18.00. Pam? Yn erbyn beth roedd e'n protestio?

.....

5. Beth wnaeth aelodau Cymdeithas yr Iaith i arwyddion ffyrdd Saesneg?

.....

6. Yn ôl Gareth Miles, "Gallwch chi ddweud bod yr holl bethau rydym yn eu cymryd yn ganiataol heddiw yn deillio o'r cyfnod cyffrous hwnnw."

Enwch o leiaf ddau o'r pethau hynny.

.....

Trafodwch y dyfyniad isod gan Hywel Griffiths. Ydych chi'n cytuno?

"Mae'n hollol **foesol** i dorri cyfraith sydd mewn gwirionedd yn **anfoesol**."

Gwyllo a gwrando 2 – Tryweryn



1. Pam roedd angen rhagor o ddŵr ar ddinas Lerpwl yn y 1950au?

.....

2. Pa fath o bentref oedd Capel Celyn? Nodwch o leiaf dri pheth oedd yn y pentref, ac unrhyw ffeithiau eraill amdano.

.....

3. Sut gwnaeth y bobl isod ymateb i'r cynllun i foddi Cwm Tryweryn?

Gwynfor Evans

.....

.....

David Pritchard a David Walters

.....

.....

Emyr Llywelyn Jones, John Albert Jones ac Owain Williams

.....

.....

4. Roedd "gwrthwynebiad chwyrn" i'r cynllun am sawl rheswm.
Nodwch dri ohonyn nhw.

- i.**
- ii.**
- iii.**

5. Gyda'ch partner, edrychwch ar y pedwar ymadrodd isod, a cheisiwch feddwl am o leiaf ddau air neu ymadrodd sy'n gysylltiedig â phob un. Mae enghreifftiau wedi'u rhoi i chi.

mesur seneddol	tir amaethyddol	adnoddau gwerthfawr	gweithredu'n uniongyrchol
mesuriadau	tirlun	gwerthu	yn union

6. "Ond er mor bwerus oedd anerchiad Gwynfor Evans gerbron y Gorfforaeth, roedd Corfforaeth Lerpwl mor benderfynol **ag erioed i fwrw ymlaen** â'r cynllun."

Gyda'ch partner, edrychwch ar y dyfyniad uchod a meddyliwch am frawddeg sy'n cynnwys **ag erioed**, a brawddeg sy'n cynnwys **bwrw ymlaen**. Ysgrifennwch y ddwy frawddeg isod.

.....

.....

7. Mae'r cyflwynydd yn dweud, "I rai, roedd Argae Cwm Tryweryn yn symbol o'r byd newydd modern, a phentref Capel Celyn yn perthyn i'r **oes o'r blaen**."

Ystyr **yr oes o'r blaen** yw 'y gorffennol'. Gyda'ch partner, allwch chi feddwl beth yw ystyr yr ymadroddion isod?

oes yr arth a'r blaidd
Oes y Cerrig
Oes yr Iâ
oes silff
ar ôl yr oes
o flaen yr oes
yn oes oesoedd

Siaradwch



- Ar ddiwedd y fideo, mae'r cyflwynydd yn sôn am bedwar digwyddiad. Siaradwch am ddau o'r digwyddiadau hyn gyda'ch partner. Pa mor bwysig ydyn nhw i hanes Cymru, yn eich barn chi?
- Faint roeddech chi'n ei wybod am foddi Cwm Tryweryn cyn gwyllo'r fideo?
- Hoffech chi ddysgu rhagor am hanes Cymru? Pam?
- Faint rydych chi'n ei wybod am hanes yr ardal rydych chi'n byw ynddi?
- Ydyn ni'n gwneud digon i ddiogelu adnoddau gwerthfawr fel dŵr?

Uned 6

Nod yr uned hon yw...

- Cyflwyno agweddau ar arholiad Defnyddio'r Gymraeg Uwch
- Dysgu am gyfieithu'r Beibl

Geirfa

cyfundrefn(au) *system(s)*

delwedd(au) *image(s)*

egwyddor(ion) *principle(s)*

ffrae(on) *row(s)*

gweddi (gweddïau) *prayer(s)*

marwolaeth(au) *death(s)*

streipen (streipiau) *stripe(s)*

agosáu *to approach*

anesmwytho *to become
uneasy*

clodfori *to extol,
to praise*

condemnio *to condemn*

cwestiynu *to question*

cyflyru *to condition*

chwifio *to wave*

esgyn *to ascend*

lleddfu *to ease*

lleisio *to voice*

naddu *to chip, to carve*

pwytio *to point*

pwysleisio *to emphasise*

rhesymu *to reason*

rhychu *to groove,
to become
wrinkled*

rhyfeddu (at) *to wonder (at)*

sibrwd *to whisper*

tewi *mynd yn dawel*

trin *to treat, to handle*

beibl(au) *bible(s)*

clawdd (cloddiau) *hedge(s)*

consŷrn *concern*

corn (cyrn) *horn(s)*

cysur(on) *comfort(s)*

dieithryn *stranger(s)*

(dieithriaid)

drwgweithredwr *villain(s)*
(-wyr)

dylanwad(au) *influence(s)*

ffyrnigrwydd *ferocity*

murmur(on) *murmur(s)*

parodrwydd *willingness*

pregethwr (-wyr) *preacher(s)*

pulpud(au) *pulpit(s)*

rhosyn (rhosod) *rose(s)*

rhuddin *mettle*

safiad(au) *stance(s)*

stŵr *row*

tusw *bouquet*

aeddfed *mature*

afieithus *exuberant*

annymunol *unpleasant*

beirniadol *critical*

boddhaus *satisfying*

brodorol *native*

claerwyn *gwyn iawn,
iawn*

dewr *brave*

dieithr *strange*

digywilydd	<i>shameless</i>
Fictoraidd	<i>Victorian</i>
hunangyflogedig	<i>self-employed</i>
llaes	<i>hir</i>
maith	<i>extensive</i>
sgleiniog	<i>shiny</i>
tonnog	<i>wavy</i>

brith gof	<i>a faint memory</i>
ers oes pys	<i>ers oesoedd; ers talwm</i>
mynd yn angof	<i>to be forgotten</i>
treigl y blynyddoedd	<i>the passing of the years</i>
trwy gydol...	<i>throughout...</i>

Geiriau pwysig i mi...

.....
.....
.....

Siaradwch - Pwnc llosg - Mae'n amhosib byw heb blastig



Gyda'ch partner, meddyliwch am eich tŷ chi a nodwch y pethau plastig sy yn y gwahanol lefydd yn y tŷ. Nodwch nhw yn y blychau:

y gegin	yr ystafelloedd ymolchi
yr ardd	yr ystafelloedd gwely

Nesaf, gyda phartner newydd, cymharwch y rhestri a thrafodwch pa mor hanfodol yw pob un o'r eitemau hyn.

Holiadur

Enw	defnyddio <i>cling film</i>	defnyddio brws dannedd bambw	prynu dŵr potel

Trafodwch bob un o'r datganiadau yma:

- Mae Syr David Attenborough wedi gwneud mwy na neb yn y frwydr yn erbyn plastig.
- Dylai pob siop ddefnyddio bagiau papur yn hytrach na bagiau plastig.
- Mae pobl ifainc yn fwy ymwybodol o broblemau plastig na phobl hŷn.

Darllenwch y paragraff isod. Ydych chi'n gallu meddwl am enghreifftiau eraill lle mae plastig wedi cael effaith andwyol ar anifeiliaid neu ar yr amgylchedd?

Mae naw o geirw wedi marw mewn parc yn Japan ar ôl bwyta cynnyrch plastig. Gall ymwelwyr â pharc Nara fwydo'r anifeiliaid ond yn aml, maen nhw'n cario'r bwyd mewn bagiau plastig. Roedd gan naw allan o'r 14 o geirw a fu farw yno blastig yn eu stumogau. Yn yr achos mwyaf difrifol, roedd gan un carw 4.3kg o blastig yn ei stumog. (*Golwg 360*)

Yn olaf, trafodwch y datganiad **Mae'n amhosib byw heb blastig.**



Gwybodaeth o iaith – Aralleirio

Gyda'ch partner, ailysgrifennwch y frawddeg gan ddefnyddio'r sbardun mewn prif lythrennau. Dylai'r frawddeg newydd fod mor agos â phosib at y frawddeg wreiddiol o ran ystyr. Mae'n bosib y bydd angen treiglo'r gair sbardun yn yr ateb.

e.e. Dwyt ti ddim wedi heneiddio o gwbl.

ERIOED

Rwyt ti'n edrych **mor ifanc ag erioed**.

1. Rhaid iddyn nhw adael mor fuan ag sy'n bosib.

GORAU

_____ iddyn nhw adael.

2. Ddylai'r staff ddim gweithio'n hwyr.

RHAID

_____ â gweithio'n hwyr.

3. Bydda i'n gorffen mewn munud.

BRON

Dw i _____.

4. Bai pwy ydy hyn?

AR

_____ am hyn?

5. Pwy a wŷr?

GWYBOD

Pwy _____?

6. Penderfynodd Jasmin adael y cwmni er mwyn gweithio'n hunangyflogedig.

LIWT

Penderfynodd Jasmin adael y cwmni er mwyn gweithio _____.

7. Ffoniwch fi cyn amser cinio yfory.

GALWAD

_____ cyn amser cinio yfory.

8. Beth wyt ti'n bwriadu'i wneud dros yr wythnosau nesa?

GWEILL

Beth _____ dros yr wythnosau nesa?



Help llaw - mae, sy, ydy/yw

Mae rhif **5** yn ymarfer y patrwm **Pwy sy'n gwybod?**

Dyma rai canllawiau i wybod y gwahaniaeth rhwng **yw/ydy, sy** a **mae**.

1. yw/ydy

Pwy Beth Faint Pa + [rhywbeth]	yw	+ enw/rhif pendant + rhagenw
-----------------------------------------	-----------	---------------------------------

Pwy yw'r tiwtor?

Pwy yw tiwtor y dosbarth?

Pwy ydy o?

Beth yw'r broblem?

Beth ydy gwaith Tom?

Beth ydy hi?

Faint ydy'r tri?

Faint yw ei hoed hi?

Faint yw hwn?

Pa un yw'r cogydd?

Pa rai ydy ei blant o?

Pa gar yw e?

2. sy

Pwy Beth Faint Pa + [rhywbeth]	sy	+ berfenw + enw/rhif amhendant + ansoddair + arddodiad
-----------------------------------------	-----------	-----------------------------------------------------------------

Pwy sy'n gwybod? Pwy sy'n feddyg? Pwy sy'n gyflym? Pwy sy yn y tîm?

Beth sy'n bod?

Beth sy'n fawr ac yn ddu?

Beth sy ar y teledu?

Faint sy'n dod?

Faint sy'n athrawon?

Faint sy'n frwnt?

Faint sy yn y dosbarth?

Pa un sy'n mynd?

Pa un sy'n ddeunaw?

Pa grys sy'n lân?

Pa blant sy yn y grŵp yma?

Sylwer bod modd defnyddio:

Beth	yw	+ berfenw + enw/rhif amhendant
------	-----------	-----------------------------------

ond dim ond pan fyddwch chi'n gofyn am **ddiffiniad**.

Beth yw twll du?

Beth yw "government" yn Gymraeg?

Beth yw hela'r dryw?

Hefyd, gallwch chi ddefnyddio

Faint	yw	+ berfenw + enw/rhif amhendant
-------	-----------	-----------------------------------

ond dim ond pan fyddwch chi'n gofyn am **gost**.

Faint yw petrol? – *How much is petrol?*

Faint yw tair (torth)? – *How much are three (loaves)?*

Faint yw blawd? – *How much is flour (in price)?*

3. mae

Ym mhob achos arall, byddwn ni'n defnyddio **mae**.

Ble Pryd Sut Pam Arddodiad + [gair cwestiwn]	mae
----------------------------------------------------------	------------

Ble mae'r tiwtor?

Ble mae tiwtor y dosbarth?

Ble mae e?

Pryd mae'r ddrama?

Pryd mae ffair yr ysgol?

Pryd mae hon?

Sut mae'r tywydd?

Sut mae tad Siân?

Sut mae hi?

I bwy mae'r anrheg?

O ble mae hi'n dod?

Am beth mae e'n siarad?

Sylwch ar y gwahaniaeth rhwng:

Faint o'r gloch ydy hi?

Am faint o'r gloch mae hi/mae'r rhaglen?

Pwy Beth Faint Pa + [rhywbeth]	mae	+ [rhywbeth/rhywun] + berfenw
-----------------------------------------	------------	----------------------------------

Pwy mae e'n ei ddysgu?

Pwy mae Siân yn ei hoffi?

Pwy mae pobl yn ei hoffi?

Beth mae hi'n ei wneud?

Beth mae'r cŵn yn
ei fwyta?

Beth mae draenog yn
ei yfed?

Faint mae'r cymdogion
ei wybod?

Faint mae'r cwmni
yn ei dalu?

Faint mae ei
petrol yn ei gostio?

Pa un mae o'n ei nabod?

Pa gêm mae dy fab
yn ei chwarae?

Pa raglenni mae plant
yn eu gwyllo?

Sylwer eto ar y gwahaniaeth rhwng **yw/ydy** a **mae** yn y canlynol:

Beth yw hi?

Beth mae hi'n ei gofio?

Pwy ydy Aled?

Pwy mae Aled yn ei weld?

Faint yw hwn?

Faint mae hwn yn ei gostio?

Ymarfer - Peidio â

Dysgwch y gwahaniaeth rhwng:

Does dim rhaid i mi fynd.

I don't have to go.

a:

Rhaid i mi beidio â mynd.

I mustn't go.

Cyfieithwch

1. *I don't have to smoke.*

I mustn't smoke.

2. *You don't have to be unreasonable.*

You mustn't be unreasonable.

3. *It doesn't have to be a burden.*

It mustn't become a burden.

Gorffennwch y brawddegau

1. Rhaid i mi beidio â bwyta cnau achos _____
2. Rhaid i mi beidio â digalonni achos _____
3. Rhaid i mi beidio â gwamalu achos _____
4. Does dim rhaid i mi fynd i'r gwaith achos _____
5. Does dim rhaid i ti helpu achos _____
6. Does dim rhaid iddyn nhw dalu achos _____

Bron â

Er mwyn dweud *I've almost...*, rydyn ni'n dweud: **Dw i bron â...**, e.e. Dw i bron â gorffen.

Wrth sôn am ddigwyddiad yn y gorffennol, rydyn ni'n dweud: **Ro'n i bron â...**

Sut basech chi'n gallu defnyddio **Dw i bron â.../Ro'n i bron â...** i aralleirio'r isod?

1. Dw i eisiau bwyd yn ofnadwy. _____
2. Bydda i yna mewn pum munud. _____
3. Roedd rhywbeth yn sownd yn fy ngwddw i. _____
4. Daeth y car coch yn agos at fwrw fy nghar i. _____

Ar y gweill – Siaradwch



- Beth sy ar y gweill gyda chi ar hyn o bryd – yn eich bywyd personol, yn y gwaith?
- Beth sy ar y gweill yn y byd chwaraeon yn y chwe mis nesa?
- Beth sy ar y gweill yn y byd gwleidyddol yn y chwe mis nesa?
- Beth sy ar y gweill gyda'r cyngor lleol ar hyn o bryd?
- Beth sy ar y gweill gyda Dysgu Cymraeg ar hyn o bryd?





Gwranddo – Siarad personol

Yma, mae Hedd Ladd-Lewis yn siarad am ei blentyndod yn Affrica, ar raglen BBC Radio Cymru *Beti a'i Phobl*.

Mae tafodiaith Sir Benfro i'w chlywed yng Nghymraeg Hedd Ladd-Lewis. Codwch eich llaw wrth glywed y geiriau isod. Yna, trafodwch gyda'ch partner beth yw ystyr y geiriau hyn:

marcet _____
 wên _____
 rhocyn _____
 wêdd _____

Atebwch y cwestiynau:

1. Pam buodd Hedd yn treulio amser efo merch leol tra buodd o'n byw ym Mombasa, Cenia? _____

2. Pam mae Hedd yn cofio ei amser yn Zambia yn well na'i amser yng Nghenia?

3. Beth oedd wedi digwydd yng Nghenia ychydig amser cyn i Hedd a'i deulu gyrraedd yno?

4. Beth oedd gwaith tad Hedd yng Nghenia?

5. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng Hedd a'i chwaer, o safbwynt y ffordd maen nhw'n siarad â'u tad?

Siaradwch – Milltir sgwâr



- Ble mae'ch milltir sgwâr chi?
- Ydy'ch milltir sgwâr chi wedi newid yn ystod eich bywyd chi?
- Ydy'ch milltir sgwâr chi'n wahanol i un eich rhieni chi?
- Sut basech chi'n diffinio milltir sgwâr?

Darllen a siaradwch



Cosbi neu glodfori annibyniaeth barn yr ifanc? (Addasiad o golofn Cris Dafis, *Golwg*, 27 Medi 2018)

Flynyddoedd maith yn ôl – mewn canrif wahanol, ac oes wahanol – ro'n i'n ddisgybl mewn ysgol gynradd. Er mor hir yn ôl, ac er mor ifanc oeddwn i ar y pryd, mae'r cof sydd gennyf am ffræ a gefais un diwrnod yn gwbl, gwbl glir.

Cefais i a chriw bach o fy ffrindiau ein galw i swyddfa'r Pennaeth, ac fe gawson ni stŵr go iawn. Dywedwyd wrthon ni ein bod yn 'rhy fawr i'n sgidiau', ac fe bwyntiwyd bys yn benodol ataf i am fod yn arbennig o ddrwg, am mai fi oedd 'arweinydd' y drwgweithredwyr.

Ein trosedd oedd trefnu deiseb yn gwrthwynebu penderfyniad yr ysgol i wahardd disgyblion rhag dod â brechdanau i'w bwyta amser cinio, a'n gorfodi i fwyta cinio ysgol yn lle hynny.

Mae'r digwyddiad hwnnw wedi dod i fy meddwl droeon dros y blynyddoedd mawr ers hynny, a dw i wedi rhyfeddu droeon na chafodd y criw bach yna o blant eu llongyfarch am eu safiad. Fyth ers hynny, mae penderfyniad yr ysgol i'n cosbi, yn hytrach na'n clodfori, am ein hannibyniaeth barn wedi fy anesmwytho. Dw i wedi pyslo'n reit aml a gafodd y stŵr a gawson ni'r diwrnod hwnnw effaith andwyol ar ein parodrwydd i gwestiynu'r drefn. Dw i wedi cwestiynu'n aml faint o blant, dros y blynyddoedd, y mae'r system addysg wedi bwrw'r rhuddin ohonynt.

Dw i wedi dwyn cysur, fodd bynnag, o'r gred fod y gyfundrefn addysg wedi newid ers hynny, a bod plant heddiw'n cael eu hannog i feddwl yn annibynnol – bod yr hen gred mai pethau i'w gweld, yn hytrach na'u clywed, yw plant wedi hen ddiflannu.

Siom fawr iawn felly, oedd darllen am farn llawer o oedolion am safiad merch fach naw mlwydd oed yn Awstralia. Harper Nielsen yw enw'r ferch fach honno, ac fe wrthododd sefyll i'r anthem genedlaethol am ei bod yn cynnwys cyfeiriadau at Awstralia fel cenedl wen. 'Mae'n diystyru'r Awstraliaid brodorol,' dywedodd, 'a oedd yno o'n blaenau ni.' Bu'n rhaid iddi aros ar ôl yr ysgol yn gosb am wrthod sefyll a chanu'r gân. Yn hytrach na chanmol Harper am ei chonsýrn dros eraill; yn hytrach na chroesawu'r ffaith fod merch naw mlwydd oed yn ddigon aeddfed i resymu a chwestiynu, aeth rhai o wleidyddion Awstralia ati i'w chondemnio am ei 'diffyg parch' ac am fod yn *'spoilt brat'*, chwedl un gwleidydd. Aeth un mor bell â dweud bod y ferch wedi cael ei chyflyru gan eraill a'i bod yn haeddu cic yn ei phen ôl. Doedd pob gwleidydd ddim wedi bod mor feirniadol ohoni, ond eto dyna oedd agwedd llawer ohonynt. Fyddai hi ddim wedi cael yr un ymateb pe bai hi'n oedolyn... ond fyddai hi ddim wedi cael yr un sylw chwaith.

Mae ei safiad hi yn anferthol bwysicach na safiad y criw bach drwg ohonom a'n deiseb dros yr hawl i frechdan yn Llanelli ddegawdau yn ôl, ond roedd ganddyn nhw – ac mae ganddi hi – hawl i leisio barn. Yr un yw'r egwyddor, ac nid yw'r ffaith mai plant sy'n codi llais yn golygu bod yr hyn maen nhw'n ei ddweud yn anghywir neu'n ddibwys. Mae'r oes Fictoraidd wedi hen ddiflannu; ac mae'r syniad mai gwrthrychau i'w gweld a'u disgyblu yw plant, yn hytrach na phobl a chanddynt ryw beth gwerth ei ddweud wedi diflannu hefyd, gobeithio. Fydd neb arall yn cofio am brotest y brechdanau, ac efallai na fydd neb yn cofio enw Harper Nielsen ymhen blwyddyn neu ddwy, ond mae'n werth cofio'r stori y tro nesa y bydd plant yn herio'r drefn, waeth beth yw'r rheswm dros y brotest.

Felly da iawn, Harper Nielsen. Llongyfarchiadau ar fod yn arweinydd dewr i ddrwgweithredwyr! A phaid â gadael i neb dy dawelu.

1. Beth yw'r pum prif bwynt yn yr erthygl?

2. Sut mae cyfieithu'r ymadroddion hyn?

to point a finger

a detrimental effect

to knock the stuffing from

to take comfort from

long since disappeared

to voice an opinion

Gyda'ch partner, dewiswch un o'r ymadroddion a'i ddefnyddio mewn brawddeg:

Siaradwch



- Dych chi'n cofio protestio dros neu yn erbyn rhywbeth pan oeddech chi'n ifanc?
- Dych chi'n gallu meddwl am unrhyw blant sy'n codi llais ar hyn o bryd?
- Dych chi'n meddwl dylai pobl ifainc un ar bymtheg oed gael pleidleisio?

Gwybodaeth o iaith



Dewiswch y ffurf gywir i'w rhoi yn y blwch.

1. Roedd dau _____ yn aros eu tro wrth y cownter yn y siop.



a. berson

b. bobl

c. bersonau

ch. unigolion

2. Gan fod y cyngerdd yn agosáu, byddai'n talu _____ i chi ymarfer a dysgu'r darnau ar y cof.

- a. ffordd
- b. arian
- c. rhaid
- ch. llawer

3. _____ wythnos neu ddwy, bydd pawb yn gwybod y canlyniad.

- a. Ymhen
- b. O flaen
- c. Gerbron
- ch. Am

4. Mae'r cwmni ar fin mynd i'r wal; do'n i ddim yn gwybod bod pethau _____ â hyn.

- a. gwell
- b. cymaint
- c. cynddrwg
- ch. cystal

5. Aeth y parti ymlaen tan oriau _____ y bore.

- a. mawr
- b. gwawr
- c. mân
- ch. olaf

6. Os nad ydych chi'n llwyddo'r tro cyntaf, mae'n bwysig dal _____.

- a. arni
- b. amdani
- c. â hi
- ch. ati

7. Mae'r ffordd y mae pobl ddigartref yn cael eu trin yn codi _____ arna i.

- a. syched
- b. cywilydd
- c. chwant bwyd
- ch. hiraeth

8. Doeddwn i ddim yn gwybod mai athrawes _____ Gwen.

- a. yw
- b. mae
- c. sy
- ch. i'w



Ymarfer

Cyfieithwch

1. *Within twenty four hours, two people will create a new world record.*

2. *I kept at it until the early hours.*

3. *"I didn't realise that your behaviour was so bad. You are shaming me."*

Talu ffordd

Ydych chi'n gallu meddwl am dri gair arall i ddilyn **tal**u?

talu _____

talu _____

talu _____

Faint o eiriau rydych chi'n gallu eu creu o'r gair **tal**u?



Cymraeg ffurfiol – Yr Amherffaith

Mewn llyfrau Cymraeg, mae'n eithaf cyffredin i weld **ffurfiau cryno**'n cael eu defnyddio yn yr amherffaith yn lle ffurfiau **roedd**, e.e.

Roeddwn i'n canu	Can wn	Roedden ni'n canu	Can em
Roeddet ti'n canu	Can et	Roeddech chi'n canu	Cane ch
Roedd e/o/hi'n canu	Can ai	Roedden nhw'n canu	Can ent

Dyma ddwy enghraifft o Gymraeg ffurfiol:

Trefniadau i gefnogi'r rhai **arferai** dderbyn cymorth (Llywodraeth Cymru)

Arferai fod yn newyddiadurwraig ryngwladol a **ysgrifennai** am fywydau pobl. (Theatrau Sir Gâr)

Felly, defnyddiwch ffurfiau **roedd** i ddangos eich bod chi'n deall y brawddegau isod:

1. Cerddwn i'r ysgol.

.....

2. Cerddai'r glowyr bum milltir i'r gwaith.

.....

3. Canem gyda Chôr Aberwylan.

.....

4. Pan oeddwn yn yr ysgol, eisteddwn yn y sedd flaen.

.....

5. Rhedet bob nos.

.....

6. Clywn y gog yn canu bob mis Ebrill a mis Mai.

.....

7. Gwrandawai pawb ar y ddadl yn y Siambr.

.....

8. Cyrhaeddai hi'n gynnar bob bore.

.....

Fel arfer, mae berfau **mynd**, **gwneud**, **cael** a **dod** yn afreolaidd. Mae **gwybod** yn afreolaidd hefyd. Byddai'n ddefnyddiol wrth ddarllen tasech chi'n gallu adnabod y ffurfiau hyn:

Mynd	Gwneud	Cael	Dod	Gwybod
Awn	Gwnawn	Cawn	Down	Gwyddwn
Aet	Gwnaet	Caet	Doet	Gwyddet
Âi	Gwnâi	Câi	Dôi	Gwyddai
Aem	Gwnaem	Caem	Doem	Gwyddem
Aech	Gwnaech	Caech	Doech	Gwyddech
Aent	Gwnaent	Caent	Doent	Gwyddent

Gyda'ch partner, tanlinellwch **ffurfiau'r amherffraith** yn y paragraff isod:

A minnau'n fachgen, awn am dro gydag Wncwl Huw yn aml iawn. Crwydrem ar hyd Afon Taf neu ar hyd y llyn neu i fyny drwy'r coed. Rhedai fy ewythr yn wyllt ger glan yr afon, cwmpai ar ei hyd weithiau i chwarae saethu, safai ar un droed ar garreg lithrig yng nghanol yr afon a dringai goeden er mwyn hongian o un o'r canghennau. Ambell brynhawn Sadwrn, âi â mi cyn belled â Phontypridd. Gwyddwn fod fy mam yn hapus iawn bod fy ewythr yn gofalu amdanaf i fel hyn!

Cefndir – Cyfieithu'r Beibl



Gwyllo a gwrando – William Morgan a Chyfieithu'r Beibl



Fideo 1

Mae Beibl William Morgan a gyhoeddwyd yn 1588 yn garreg filltir bwysig yn hanes y Gymraeg, ond pwy oedd William Morgan?

Ar ôl gwyllo'r fideo, atebwch y cwestiynau isod.

1. Esboniwch sut cafodd William Morgan ei addysg.

2. Mae'r geiriau **yn berchen** ac **yn eiddo i** yn cael eu defnyddio yn y fideo wrth sôn am gartref teulu William Morgan, sef Tŷ Mawr Wybrnant.

Mae perchen yn golygu'r un peth â **perchennog** (*owner*). Gyda'ch partner, ysgrifennwch frawddeg sy'n cynnwys **yn berchen**.

Ystyr **yn eiddo i** yw *property of*. Beth yw'r ymadroddion isod yn Gymraeg? Mae pob un yn gysylltiedig â'r gair **eiddo**.

Yours truly _____

envious _____

lost property _____

3. Mae Dr Eryn White yn dweud bod y Teulu Wynn yn "... deulu mawr ... un o deuluoedd mwyaf Cymru ar y pryd."

Beth ydych chi'n meddwl yw ystyr **mawr** a **mwyaf** yn y frawddeg yma? Allwch chi feddwl am eiriau eraill yn Gymraeg sy'n cyfleu'r un ystyr? Nodwch nhw yn y blwch isod.

Siaradwch



- Pa mor bwysig oedd eich addysg gynnar i chi?
- Pwy oedd y dylanwad mwyaf arnoch chi?
- Beth roddodd sylfaen i chi wneud eich swydd, neu'r swydd roeddech chi'n arfer ei gwneud?

Fideo 2 – Digwyddiadau pwysig cyn cyfieithu'r Beibl

Mae'r fideo hwn yn sôn am ddyn pwysig yn hanes llenyddiaeth Gymraeg, sef William Salesbury. Ganwyd Williams Salesbury tua 1520 yn Llansannan, Conwy. Roedd e'n ysgolhaig disglair, a'i ddiddordebau'n eang. Cyhoeddodd lawer o lyfrau amrywiol, gan gynnwys *A dictionary in Englyshe and Welshe ac Oll synnwyr pen Kembero ygyd* (llyfr o ddiarhebion Cymraeg), ynghyd â *The Description of the Sphere or Frame of the Worlde (1550)*, sef yn ôl rhai, y llyfr gwyddoniaeth cyntaf yn Saesneg.

Roedd William Salesbury yn Brotestant oedd yn credu'n gryf bod rhaid i bobl gael y Beibl yn eu hiaith eu hunain. Roedd hefyd yn awyddus i godi statws y Gymraeg ym myd addysg. Felly, pan gafwyd deddf seneddol yn 1563 i sicrhau bod y Beibl, y Llyfr Gweddi Cyffredin a'r Llyfr Gwasanaeth ar gael yn Gymraeg erbyn 1567, William Salesbury oedd y dewis amlwg i wneud y gwaith.

Am lawer o resymau, ni lwyddodd William Salesbury i orffen yr holl gyfieithiadau erbyn 1567, ond roedd y Testament Newydd a'r Llyfr Gweddi Cyffredin ar gael erbyn diwedd y flwyddyn honno. Fel mae Dr Eryn White yn ei esbonio yn y fideo, doedd pobl ddim yn hollol hapus gyda Thestament Newydd William Salesbury. Er hynny, roedd ei gyfieithiad yn help mawr i William Morgan wrth iddo barhau â'r gwaith, ac mae cyfraniad pwysig William Salesbury i addysg Gymraeg yn cael ei nodi heddiw gydag Ysgoloriaeth William Salesbury, a roddir bob blwyddyn i fyfyrwr sy'n astudio unrhyw gwrs prifysgol yn gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ar ôl gwyllo'r fideo, atebwch y cwestiynau isod.

1. Pam roedd William Salesbury yn ysgrifennu 'Deo' yn lle 'Duw' yn ei gyfieithiad o'r Testament Newydd?

2. Pam roedd Elisabeth y Cyntaf yn awyddus i gael cyfieithiad Cymraeg o'r Beibl?

3. Wrth drafod cyfieithiad William Salesbury o'r Testament Newydd, mae Dr Eryn White yn dweud, "Mae rhywun yn gallu gweld yn syth pam mae angen treigladau yn y Gymraeg."

Gyda'ch partner, defnyddiwch y frawddeg hon fel model i greu eich brawddegau eich hun trwy newid y geiriau sydd wedi'u tanlinellu, e.e.

Mae rhywun yn gallu gweld yn syth pam mae angen gwisgo esgidiau addas ar y llwybr yma.

Siaradwch

Doedd William Salesbury ddim yn hoffi ysgrifennu'r treigladau, ac i lawer o bobl sy'n dysgu Cymraeg, treiglo sy'n achosi'r anhawster mwyaf.

- Beth yw eich barn chi?
- Ydych chi'n poeni am dreigladau, neu ydy treiglo'n digwydd yn haws i chi erbyn hyn?
- Oes gormod o bwyslais ar y treigladau mewn cyrsiau Cymraeg?
- Beth wnaeth eich helpu chi i ddysgu rheolau treiglo?
- Ydych chi'n sylwi ar gamdreiglo?

Fideo 3 – Effaith a dylanwad y Beibl

1. Beth oedd yn arbennig am Feibl William Morgan, yn ôl Dr Eryn White?

2. Beth ddigwyddodd yn 1630 i helpu pobl i ddarllen y Beibl yn eu cartrefi?

3. Mae Dr Eryn White yn dweud mai '**cychwyn** y broses' o achub yr iaith Gymraeg oedd cyfieithiad William Morgan o'r Beibl. Mae **cychwyn** yn cael ei ddefnyddio'n fwy aml yn y gogledd na'r de i olygu **dechrau**, ond defnyddir rhai ymadroddion sy'n cynnwys **cychwyn** yn y de a'r gogledd. Beth yw ystyr:

man cychwyn _____

o'r cychwyn cyntaf _____

Siaradwch



Mae Dr Eryn White yn trafod pwysigrwydd cyfieithu'r Beibl i barhad yr iaith Gymraeg. Wrth feddwl am nod Llywodraeth Cymru i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2030, beth fyddai'n help i gyrraedd y nod, yn eich barn chi?

Darllen



Y Beibl ac Addysg

Cyn pen 200 mlynedd i gyfieithu'r Beibl, Cymru oedd un o'r gwledydd mwyaf llythrennog yn Ewrop a thua thri chwarter y boblogaeth yn gallu darllen. Roedd llawer mwy o lyfrau eraill yn cael eu cyhoeddi erbyn hynny; dim ond 108 o lyfrau gafodd eu cyhoeddi yn y Gymraeg rhwng 1546 ac 1660 ond cyhoeddwyd 2,500 o lyfrau rhwng 1700 ac 1799.

Tua 1731 cynigiodd dyn o'r enw Griffith Jones (1683-1761) y dylai ysgol i oedolion a phlant gael addysg Gymraeg ddechrau yn Llanddowror yn ne-orllewin Cymru. Erbyn 1737 roedd Griffith Jones yn hyfforddi athrawon i ddysgu 37 o ysgolion cylchynol a oedd yn teithio o gwmpas Cymru i ddysgu pobl i ddarllen ac ysgrifennu. Mewn cyfnod o chwarter canrif, cafodd 3,500 o ysgolion eu sefydlu a chafodd tua 200,000 o oedolion a phlant addysg ynddynt. Y Beibl oedd y prif lyfr a oedd yn cael ei ddefnyddio gan yr athrawon i ddysgu'r bobl ac o ganlyniad i waith Griffith Jones, daeth y werin i ddarllen a deall iaith safonol y Beibl. Cyn pen tair blynedd iddo farw, roedd yr hanes am yr ysgolion wedi cyrraedd mor bell â Rwsia, ac yn 1764 cafodd adroddiad ar yr ysgolion ei gyflwyno gan gomisiynwr ar ran Catherine yr ail, ymerodres y wlad honno.

Roedd mwy o ysgolion Griffith Jones yn y de nag yn y gogledd, ond roedd ysgolion tebyg i'w cael yno hefyd. Bu dyn o'r enw Thomas Charles (1755-1814) yn cyflogi athrawon ac yn trefnu iddynt fynd oddi amgylch o gylch i gylch, gan aros ym mhob ardal am ychydig fisoedd ar y tro i ddysgu'r bobl i ddarllen. Disgybl un o'r ysgolion hyn oedd Mary Jones.

Ar ôl ateb y cwestiynau isod, gwylwch y fideo i glywed am hanes taith enwog Mary Jones i'r Bala i brynu Beibl gan Thomas Charles.

1. Beth oedd oed Griffith Jones pan benderfynodd ddechrau'r ysgolion?

2. Pam roedd ysgolion Griffith Jones yn cael eu galw yn ysgolion 'cylchynol'?

3. Mae'r darn yn sôn am faint o lyfrau a gafodd eu cyhoeddi rhwng 1700 ac 1799.

i. Beth rydyn ni'n galw'r ganrif honno?

ii. Beth am y ganrif sy'n dilyn?

iii. Ym mha ganrif y cafodd y Beibl ei gyfieithu?

i.

ii.

iii.

4. Sut basech chi'n cyfieithu **y werin** i'r Saesneg?

5. Sawl gwaith rydych chi'n darllen y gair **cylch** (wedi ei dreiglo neu yn rhan o air arall)? Beth yw'r ystyr bob tro?

Gwyllo a gwrando 2 - Mary Jones a Thomas Charles



1. Rhowch gylch o gwmpas y geiriau hyn pan fyddwch chi'n eu clywed nhw. Trafodwch nhw gyda'ch partner os nad ydych yn siŵr o'u hystyr.

gwehyddion

ar gynnydd

selog

mynychu

cynilo

Gweinidog

anghyfarwydd

angerdd

ymroddiad

fforddiadwy

llythrennedd

dosbarthu

hybu

2. Wrth wyllo'r fideo, gwnewch nodiadau yn y blwch isod ac ysgrifennwch gwestiynau i'w gofyn i aelodau'r dosbarth am y ddau berson enwog.

Mary Jones	Thomas Charles
1.	1.
2.	2.
3.	3.

3. Rydych wedi clywed yr ymadrodd **gwneud siwrne o'r fath**. Cyfieithwch y canlynol: gan ddefnyddio **math**. (Cofiwch dreiglo os oes angen).

Saesneg	Cymraeg
<i>the first of its kind</i>	
<i>the kind of person who would lie</i>	

<i>I did nothing of the kind!</i>	
<i>There are several kinds of them.</i>	

4. Beth yw arwyddocâd y llefydd hyn yn yr hanes?

Y Bala	
Llanfihangel-y-Pennant	
Gwlad yr Haf	
Llundain	
America	
Caergrawnt	
Aberystwyth	

5. Mae Nerys yn defnyddio'r gair **goroesi** ddwywaith. Am bwy / beth mae hi'n siarad?

i. _____

ii. _____

Dylanwad y Beibl ar y Gymraeg:

Mae sawl person wedi gwneud rhestri o'r idiomau o'r Beibl sy'n cael eu defnyddio yn y Saesneg heddiw. Dydy ymadroddion fel *at my wits' end*, *by the skin of our teeth*, *bite the dust* ddim yn cael eu defnyddio yn y Gymraeg fel yn y Saesneg ond mae rhai dywediadau cyfarwydd sy'n gyffredin i'r ddwy iaith. Allwch chi gyfieithu'r rhain i'r Saesneg?

Cymraeg	Saesneg
mynd o nerth i nerth	
llafur cariad	
llygad barcud	
cig a gwaed	
halen y ddaear	
llygad am lygad	
Pa fodd y cwmpodd y cedyrn?	
y dall yn arwain y dall	

Uned 7

Nod yr uned hon yw...

- Cyflwyno agweddau ar arholiad Defnyddio'r Gymraeg Uwch
- Dysgu am fudiadau Cymraeg (Mudiad Meithrin, Merched y Wawr)

Geirfa

brân (brain) *crow(s)*

tomen(ni) *heap(s)*

aillethol *to re-elect*

aifeddwl *to rethink*

amau *to doubt;*
to suspect

cydymdeimlo (â) *to sympathise*
(with)

cynrychioli *to represent*

graeanu *to grit*

mynychu *to attend*

perylgu *to endanger*

plesio *to please*

pregethu *to preach*

prosesu *to process*

brodor(ion) *native(s)*

canolbarth *mid (Wales)*

categori
(categoriâu) *category (-ies)*

clefyd y siwgr *diabetes*

cyd-destun(au) *context(s)*

ffocws (ffocysau) *focus (foci)*

gordewdra *obesity*

gwariant *expenditure*

persbectif(au) *perspective(s)*

ymadrodd(ion) *phrase(s)*

ymgyngoriad(au) *consultation(s)*

afiach *unhealthy*

anghyfrifol *irresponsible*

amrwd *heb ei goginio*

arallfydol *otherworldly*

cefnogol *supportive*

cymedrol *moderate*

graddol *gradual*

organig *organic*

tueddol (o) *inclined (to)*

ysbrydol *spiritual*

o ran

regarding

Geiriau pwysig i mi...

.....

.....

.....

Siaradwch – Siarad Personol – Disgrifiwch y person mwyaf enwog rydych chi wedi cwrdd ag ef/â hi erioed



- Beth sy'n gwneud rhywun yn enwog?
- Oes gwahaniaeth rhwng bod yn **enwog** a bod yn **adnabyddus**?
- Nodwch yn y blwch categorïau gwahanol o bobl enwog, e.e. actorion.

- Ym mha swyddi fasech chi'n debygol o gwrdd â phobl enwog?
- Beth dych chi'n ei feddwl o 'oes y selebs'?

Y person mwyaf enwog rydych chi wedi cwrdd â hi/ag ef – soniwch am:

- pam mae'r person yma'n enwog;
- pryd a ble gwnaethoch chi gwrdd;
- beth oedd eich argraff chi o'r person enwog;
- sut roedd y person yn wahanol neu'n debyg i'r person cyhoeddus;
- tasech chi'n cwrdd â'r person eto, beth fasech chi'n ei ddweud wrtho/wrthi.



Gwybodaeth o iaith – Llenwi'r bylchau

Un o'r _____ (lle) mwyaf diddorol yn y byd yw Uluru yng nghanolbarth Awstralia, ac mae'n lle y dylai pawb ymweld _____ fe rywbyrd. Y maes awyr _____ (agos) i'r mynydd ei hun yw'r un yn Alice Springs, ac mae'n dref sy'n dibynnu _____ dwristiaid, oherwydd does dim byd arall i ddenu pobl yno. _____ gwirionedd, mae'r twristiaid sy'n dod i Alice Springs yn mynd drwy'r dref ar y ffordd i weld Ayers Rock, neu Uluru yn iaith y brodorion. Fel arfer, maen nhw'n _____ diwrnod neu ddau yn Uluru mewn pabell cyn mynd adre.

Mae'r daith yn werth _____ gwneud, wir i chi. _____ (anghofio) am bopeth rydych chi wedi'i ddarllen neu'i weld o'r blaen. Dydy gweld lluniau na gwyllo ffilmau ddim yn debyg i'r profiad o weld Uluru am y _____ cyntaf, ac ni all yr un adolygiad gwyliau ail-greu'r argraff honno. Ychydig o _____ (blwyddyn) yn ôl, _____ (agor) man gwyllo newydd gan lywodraeth yr ardal. Mae'n bosib i dwristiaid weld y graig o bersbectif gwahanol i'r un a welir ar gardiau post. Dwedodd rhywun _____ ni am fynd i'r man gwyllo hwn wrth i'r haul godi, felly dyna _____ (gwneud) ni.

Roedd y lliwiau'n newid yn raddol, o borffor, i oren nes _____ nhw droi'n goch. Doedd _____ o'n grŵp ni'n siarad, a doedd dim sŵn i'w glywed, heblaw am glicio'r camerâu. Dw i'n meddwl _____ pawb wedi cael profiad ysbrydol neu arallfydol o leiaf, fel _____ ni wedi mynd yn ôl i oes arall. Os _____ (cael) chi gyfle i fynd i Uluru, rhaid i chi fynd, ond peidiwch â mynd _____ ddillad cynnes... mae hi'n gallu bod yn oer ofnadwy yno yn _____ mân y bore!

Ymarfer – Arddodiaid

Dyw hi ddim yn bosib gorffen brawddeg ag **arddodiad heb ei redeg** yn y Gymraeg. Edrychwch ar y frawddeg o'r darn:

Mae'n lle y dylai pawb ymweld **â fe/fo**.

Gorffennwch y brawddegau isod:

Mae'n lle y dylai pawb ddarllen _____ .

Mae'n lle y dylai pawb chwilio _____ .

Mae'n berson y dylai pawb ymddiried _____ .

Mae'n berson y dylai pawb wrando _____ .

Mae'n berson y dylai pawb ddiolch _____ .

Mae'n berson y gall pawb ddibynnu _____ .

Mae'n berson y gall pawb siarad _____ .

Mewn/Yn

Cyfieithwch yr isod gan ddefnyddio **mewn** neu **yn**:

in truth _____

in the language of the natives _____

in love _____

in the early hours of the morning _____

to live in hope _____

in some pamphlets _____

basically _____

in the life of a famous person _____

in novels _____

in Manon Steffan Ros' novels _____

Siaradwch



- Soniwch am daith sy'n werth ei gwneud.
- Soniwch am lyfr sy'n werth ei ddarllen.
- Soniwch am ffilm sy'n werth ei gweld.
- Soniwch am eitemau i'r tŷ sy'n werth eu prynu.

Gwranddo - Trafodaeth



Yma, mae nifer o bobl yn siarad am y pwnc 'Deiet y Blaned' a bwyta'n iach. Daw'r darn o raglen BBC Radio Cymru, *O'r Bae*.

Cyflwynydd: Vaughan Roderick

Siaradwr 1: Elin Llŷr

Siaradwr 2: Ann Beynon

Siaradwr 3: Alun Hughes

1. Yn ôl Elin Llŷr, bydd rhaid i ffermwyr y dyfodol...

- a. gynhyrchu dim ond bwyd organig.
- b. addasu eu ffordd o fyw.
- c. marchnata eu bwyd yn well.
- ch. cynhyrchu cig o ansawdd gwell.

2. Ein problem fwya yn y wlad yma, yn ôl Ann Beynon, ydy...

- a. ein bod ni'n dilyn America.
- b. faint mae pobl yn ei fwyta.
- c. sut mae pobl yn coginio bwyd.
- ch. ein bod ni'n bwyta pethau fel pasta ac uwd.

3. Newidiodd Alun ei ffordd o fyw oherwydd...

- a. salwch.
- b. ei fod e'n bwyta llai o gig.
- c. gordewdra.
- ch. ei fod e'n rhoi 'sbeis' ar ei fwyd.

4. Yn ôl Alun ac Ann, mae tuedd gan Americanwyr...

- a. i wneud llai o ymarfer corff.
- b. i fwyta llawer o salads.
- c. i fwyta bwyd 'cyflym'.
- ch. i fwyta gormod o fwyd.

5. Mae Elin yn poeni am y deiet newydd oherwydd ei bod hi...

- a. eisiau bwyta mwy o wyau nag maen nhw'n ei awgrymu.
- b. yn meddwl bod wyau'n ofnadwy.
- c. ddim eisiau newid ei ffordd o fyw.
- ch. ddim yn cytuno â'r awgrymiadau sy ynddo.

6. Yn ôl Vaughan Roderick, y broblem yn yr ysgolion ydy eu bod nhw...

- a. ddim yn dysgu plant i goginio'n iach.
- b. ddim yn rhoi bwyd iach i'r plant.
- c. ddim yn 'prosesu' bwyd.
- ch. ddim yn dysgu plant i fwyta'n gymedrol.

Ymadroddion

Mae'r siaradwyr yn defnyddio nifer o ymadroddion defnyddiol. Llenwch y bylchau ag un o'r ymadroddion yma bob tro:

gan gynnwys	o ran	ar werth	dod i arfer	rhywbeth o'i le
dw i'n amau	pob dim	araf bach	am wn i	yn hytrach na

1. Mae cynnydd yn nifer y cyffuriau anghyfreithlon sydd _____ ar ein strydoedd.
2. Dydy e ddim wedi gwella'n llwyr, ond mae'n dod yn _____.
3. _____ a fydd y staff yn ymdopi â'r system newydd.
4. Yn y de mae'n gyffredin defnyddio 'gyda fi' _____ 'gen i'.
5. Mae'r cwmni'n cynnig cymorth i fusnesau, _____ rhannu gwybodaeth a gwasanaeth cynghori.
6. Dw i wedi _____ â thagfeydd bob bore ers symud i'r ddinas.
7. Rydyn ni mor lwcus bod y plant yn fodlon bwyta _____.
8. _____, y peth mwyaf tebygol yw y bydd y staff yn mynd ar streic.
9. Roeddwn i'n gwybod bod _____ pan oedden nhw deirawr yn hwyr.
10. _____ gwella trafnidiaeth gyhoeddus, mae angen trydaneiddio'r rheilffordd.

Mae gan Huw Chiswell gân adnabyddus iawn o'r enw "Rhywbeth o'i Le". Mae modd clywed y gân ar wasanaethau ffrydio neu trwy brynu'r albym "Goreuon Huw Chiswell."

Siaradwch - Gormod o ddim nid yw'n dda



Mae Vaughan Roderick yn y darn hwn yn defnyddio'r ymadrodd wrth drafod bwyd. Ond mae e hefyd wedi ei ddefnyddio wrth drafod llyfrau ar *Cymru Fyw*:

"Gormod o ddim nid yw'n dda," medden nhw, ond ydy hynny'n wir am lyfrau? Nid oes modd cael gormodedd yn y maes hwnnw, yn fy marn i. Mae fy mhartner yn gweld pethau'n wahanol. Dros y Sul felly, roedd hi'n bryd am y 'sort out' blynyddol. Tair tomen, felly: cadw, llofft ac Oxfam.

- Ydych chi'n meddwl ei bod hi'n bosib cael gormod o lyfrau?
- Pa mor aml rydych chi'n clirio yn y tŷ?
- Ydych chi'n gallu meddwl am gyd-destunau lle basech chi'n defnyddio'r ymadrodd 'Gormod o ddim nid yw'n dda'?



Siaradwch – Pwnc llosg – Does dim angen siopa ar y stryd fawr erbyn hyn

- Disgrifiwch eich patrwm siopa yn ystod yr wythnos diwetha.
- Disgrifiwch eich patrwm siopa yn ystod y mis diwetha.
- Disgrifiwch sut newidiodd eich patrwm siopa yn ystod argyfwng Covid-19.

Ble/Sut rydych chi'n gwneud y canlynol?

Enw	bancio	cyfarfod pobl yn yr ardal	cael presgripsiwn

- Beth sy yn eich stryd fawr agosa?
- Beth oedd yn arfer bod yn eich stryd fawr agosa, ond sy wedi diflannu erbyn hyn?
- Beth hoffech chi ei weld yn eich stryd fawr agosa?
- Sut mae Covid-19 wedi newid arferion siopa?

Mewn grŵp, trafodwch y datganiad 'Does dim angen siopa ar y stryd fawr erbyn hyn'.

Gwybodaeth o iaith



Ailysgrifennwch y frawddeg, gan ddefnyddio'r sbardun mewn prif lythrennau. Dylai'r frawddeg newydd fod mor agos â phosibl i'r frawddeg wreiddiol o ran ystyr. Mae'n bosibl y bydd angen treiglo'r gair sbardun yn yr ateb.

Enghraifft: Beth wyt ti'n bwriadu'i wneud dros yr wythnosau nesa? **GWEILL**
Beth **sy ar y gweill** dros yr wythnosau nesa?

1. 'Roedd yr ymarfer yn dda neithiwr,' meddai'r arweinydd.

DWEDODD

_____ yr ymarfer yn dda neithiwr.

2. Alla i ddim fforddio prynu'r llyfr arall.

DRUD

Mae'r llyfr arall _____.

3. Doeddwn i ddim yn hoffi bod yn destun sbort.

CHWERTHIN

Doeddwn i ddim yn hoffi _____.

4. Ti sy ar fai.

AR

_____ mae'r bai.

5. Mae John yn chwarae'n well nag unrhyw un arall yn y tîm ar hyn o bryd.

GORAU

_____ yn y tîm ar hyn o bryd.

6. Ar ôl llawer o ymarfer, roedd Alys wedi dechrau teimlo'n fwy hyderus wrth yrru ei char newydd.

MAGU

Ar ôl llawer o ymarfer, roedd Alys wedi dechrau _____ wrth yrru ei char newydd.

7. Mae hi'n mwynhau'n fawr iawn yn y brifysgol.

BODD

_____ yn y brifysgol.

8. Doeddwn i ddim wedi clywed y stori o'r blaen.

CYNTAF

_____ i mi glywed y stori.

Ymarfer

Chwerthin am ben – dilynwch y patrwm:

Mae pawb yn chwerthin am fy mhen i.

Does neb yn chwerthin am dy ben di.

Mae pawb yn chwerthin am ben Siôn.

.....

Mae pawb yn chwerthin am ben Siân.

.....

Mae pawb yn chwerthin am ben y plant.

.....

Mae pawb yn chwerthin am ein pennau ni.

.....

Mae pawb yn chwerthin am dy ben di.

.....

Dyna'r tro cyntaf i mi/fi... – dilynwch y patrwm:

Fuest ti yn Ffrainc o'r blaen?

Naddo, dyna'r tro cyntaf i fi fod yno.

Fuodd e yn Sbaen o'r blaen?

.....

Fuodd hi yn yr Eidal o'r blaen?

.....

Fuon nhw yn Awstria o'r blaen?

.....

Fuoch chi yn Sweden o'r blaen?

.....

Fuest ti yn Iwerddon o'r blaen?

.....

Fuoch chi'n sgio cyn hyn?

Naddo, dyna'r tro cyntaf i mi sgio erioed.

Fuoch chi'n nofio cyn hyn?

.....

Fuoch chi'n sglefrio cyn hyn?

.....

Fuoch chi'n dysgu iaith cyn hyn?

.....

Fuoch chi'n pobi cyn hyn?

.....

Siaradwch – Magu hyder



Oes angen i chi fagu hyder yn un neu ragor o'r isod? Trafodwch sut gallech chi wneud hynny.

siarad Cymraeg

siarad cyhoeddus

defnyddio cyfrifiadur

Cymraeg ffurfiol – Y trydydd person presennol



Weithiau, byddwch chi'n gweld ffurfiau cryno sy'n ffurfiol ar gyfer y trydydd person presennol. Beth rydych chi'n feddwl yw'r berfau isod?

Pwy a wŷr?	gŷr – _____
Gwyn y gwêl y frân ei chyw.	gwêl – _____
Saif y castell ar y bryn.	saif – _____
Amser a ddengys.	dengys – _____
Gall pawb ymuno â ni.	gall – _____
Âr Prif Weinidog ar daith o gwmpas y wlad.	â – _____
Daw cyfle arall eto.	daw – _____
Dywed pedwar o bob pump o oedolion eu bod yn iach.	dywed – _____

Cefndir – Mudiadau Cymraeg – Merched y Wawr



Mudiad Cymraeg yw Merched y Wawr, sy'n rhoi cyfle i fenywod gymdeithasu a mwynhau trwy gyfrwng y Gymraeg. Maen nhw'n cynnal cyfarfodydd a llawer o weithgareddau amrywiol, ac yn cyhoeddi cylchgrawn *Y Wawr* bedair gwaith y flwyddyn.



Erbyn hyn, mae dros 250 o ganghennau Merched y Wawr yng Nghymru, ac ers 1994 mae Clybiau Gwawr wedi'u sefydlu ar gyfer merched iau.

Syniad Zonia Bowen – Saesnes o Swydd Efrog a oedd wedi dysgu Cymraeg – oedd sefydlu Merched y Wawr. Roedd hi'n byw ym mhentref y Parc ger y Bala, ac yn aelod o gangen leol Sefydliad y Merched. Ond, fel rhai o aelodau eraill y gangen, roedd hi'n anhapus oherwydd bod Sefydliad y Merched yn gweithio trwy gyfrwng y Saesneg yn unig. Felly, yn 1967, sefydlwyd cangen gyntaf Merched y Wawr yn Y Parc. Erbyn hyn, mae dros 250 o ganghennau Merched y Wawr yng Nghymru, ac ers 1994 mae Clybiau Gwawr wedi'u sefydlu ar gyfer merched iau.



Cangen y Parc yn dathlu hanner canmlwyddiant Merched y Wawr yn 2017

Yn ogystal â rhoi cyfle i fenywod gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg, mae Merched y Wawr hefyd yn gwneud gwaith dyngarol ac yn tynnu sylw at achosion sy'n ymwneud â lles menywod. Enghraifft o hyn oedd ymgyrch **Bra i bawb o ferched y byd** a gynhaliwyd ar y cyd ag Oxfam Cymru rai blynyddoedd yn ôl. Bu'r ddau gorff yn cydweithio ar gynllun arloesol i ailgylchu pob bra a oedd bellach yn anaddas, a'u hanfon at ferched mewn gwledydd sy'n datblygu, lle mae galw mawr amdanynt. I dynnu sylw at yr ymgyrch, crëwyd cadwyn o 700 o fras o amgylch pafiliwn yr Eisteddfod Genedlaethol! Yn fwy diweddar, cynhaliodd y mudiad brosiect uwchgyrchu ac aildefnyddio.



Arddangosfa o nwyddau wedi'u huwchgyrchu ar stondin Merched y Wawr Eisteddfod yr Urdd, 2019

Gwyllo a gwrando 1



Byddwch chi'n gwyllo fideo o'r flwyddyn 2018, sy'n sôn am arddangosfa llyfrau lloffion Merched y Wawr yn y Llyfrgell Genedlaethol, a dathliadau 200fed rhifyn *Y Wawr*.

Mae un o'r siaradwyr yn cyfeirio at *Casgliad y Werin*, sef gwefan sy'n cael ei rhedeg gan y Llyfrgell Genedlaethol er mwyn adrodd stori Cymru trwy gyfrwng lluniau a ffilmiau. Gallwch chi weld miloedd o luniau a fideos ar y wefan hon, gan gynnwys Llyfrau Lloffion Merched y Wawr. Am ragor o wybodaeth, ewch i www.casgliadywerin.cymru.

Wrth wyllo'r fideo am y tro cyntaf, rhowch gylch o gwmpas y geiriau isod:

llyfr lloffion **dychymyg** **braw** **trysori** **cyfryngau digidol**

1. Gwir neu gau...

Trafodwch y gosodiadau isod gyda'ch partner, a phenderfynwch a ydyn nhw'n wir neu beidio.

i. Roedd pedwar deg o ganghennau wedi cystadlu yng nghystadleuaeth y Llyfr Lloffion.

Gwir **Gau**

ii. Dwy wraig oedd yn beirniadu'r gystadleuaeth.

Gwir **Gau**

iii. Cangen Bryncroes a enillodd y gystadleuaeth.

Gwir **Gau**

iv. Mae'n rhaid i chi fod yn aelod o Merched y Wawr i ddarllen *Y Wawr*.

Gwir **Gau**

2. Edrychwch ar y sgwariau isod. Cysylltwch yr enwau â'r disgrifiadau a'r dyfyniadau cywir.

Mari Grug	Cyn-olygydd Y Wawr	"... mi gawson ni'r syniad o gael cystadleuaeth llyfr lloffion sydd rŵan yn crynhoi holl ddathliadau'r canghennau i gyd dros y flwyddyn."
Sandra Morris Jones	Cyflwynydd Heno	"Ie, croeso'n ôl i chi i Westy'r Conrah, lle mae 'na griw o Ferched y Wawr wrthi'n dathlu heddi'..."
Siân Lewis	Llywydd Cenedlaethol Merched y Wawr	"O, yn hollbwysig yn y cyfnod yma nawr lle mae lot o bobl yn troi at y we a'r cyfryngau digidol..."
Helgard Krause	Golygydd rhifyn y dathlu	"Wel o'dd e'n dipyn o faint ac yn fraw a dweud y gwir achos o'dd cymaint o amrywiaeth..."
Meryl Davies	Prif Weithredwr Cyngor Llyfrau Cymru	"Mae hwn yn ein tynnu ni at ein gilydd fel mudiad..."
Catrin Stevens	Is-olygydd cynorthwyol Y Wawr	"Ac mae'n werth ei ddarllen, os ca' i ddweud, fel pob un o'r ddau gant rhifyn..."

3. Mae Mari Grug yn dweud ei fod yn ddathliad "go arbennig".

Rydyn ni'n defnyddio **go** i olygu **i raddau, eithaf** neu **gweddol** (fel *quite* neu *rather* yn Saesneg), neu **iawn** (*very*) – a dyna'r ystyr yma. Mae treigladd meddal yn dilyn **go**. Ydych chi wedi clywed enghreifftiau eraill o ansoddeiriau Cymraeg sy'n cael eu defnyddio gyda **go**? Nodwch nhw yn y blwch isod.

Siaradwch



- Ydych chi'n cadw llyfr lloffion, neu oeddech chi'n cadw llyfr lloffion pan oeddech chi'n iau? Siaradwch amdano.
- Fyddwch chi'n argraffu ffotograffau a'u rhoi nhw mewn albwm?
- Ydych chi'n aelod o glwb cymdeithasol fel Merched y Wawr?
- Pa glybiau yr hoffech chi eu cael yn eich ardal chi?

Cefndir – Mudiadau Cymraeg – Mudiad Meithrin



Ewch o gwmpas y dosbarth i gasglu gwybodaeth er mwyn ateb y cwestiynau isod.

1. Beth oedd enw gwreiddiol Mudiad Meithrin?

2. Pryd newidiwyd enw'r Mudiad, a pham?

3. Pryd sefydlwyd y Mudiad?

4. Roedd dosbarthiadau meithrin gwirfoddol yn cael eu cynnal cyn sefydlu'r Mudiad. Ble cafodd y dosbarthiadau cyntaf eu cynnal yn 1943?

5. Erbyn 1981, sut roedd darpariaeth addysg feithrin Gymraeg wedi datblygu?

6. Yn ôl ystadegau Cyfrifiad 1981, pa effaith a gafodd Mudiad Meithrin ar nifer y siaradwyr Cymraeg tair i bedair oed?

7. Beth oedd nifer y siaradwyr Cymraeg tair i bedair oed yng Nghyfrifiad 2011?

8. Tua faint o staff cyflogedig sydd gan y Mudiad?

9. Tua faint o staff sy'n gweithio yng Nghylchoedd Meithrin y Mudiad?

10. Ble mae Canolfannau Integredig Mudiad Meithrin?

11. Beth sydd yn y Canolfannau Integredig?

12. Pwy sy'n cynrychioli Mudiad Meithrin ers 2009, a phwy oedd yn cynrychioli'r Mudiad cyn hynny?



Gwyllo a gwrando 2



Byddwch chi'n gwrando ar glip sain o blant bach yn siarad am Dewin a Doti. Peidiwch â phoeni os nad ydych yn deall llawer! Gwnewch nodiadau yn y blwch isod, a chymharwch eich gwybodaeth â'ch partner. Beth rydych chi'n ei wybod nawr am Dewin a Doti?

Gwybodaeth am Dewin a Doti:

Siaradwch



- Fuoich chi mewn ysgol feithrin neu gylch meithrin cyn dechrau'r ysgol? Ydych chi'n cofio unrhyw beth am y dyddiau hynny?
- Pa mor bwysig yw addysg feithrin, yn eich barn chi? Neu ydy hi'n well i blant bach dreulio amser gyda'u teuluoedd?
- Ydych chi'n credu y dylai plant bach fod yn dysgu trwy chwarae neu'n dysgu mewn ffordd fwy traddodiadol?
- Tasai gennych chi arian i'w wario ar hybu'r Gymraeg, fyddech chi'n ei wario ar addysg feithrin Gymraeg, neu ar Gymraeg i Oedolion? Esboniwch eich rhesymau.

Uned 8

Nod yr uned hon yw...

- Cyflwyno agweddau ar arholiad Defnyddio'r Gymraeg Uwch
- Dysgu am y Cymry ym Mhatagonia

Geirfa

cri	<i>cry</i>
cwcw (cwcwôd)	<i>cuckoo(s)</i>
ecosystem(au)	<i>ecosystem(s)</i>
ffenomen(au)	<i>phenomenon (phenomena)</i>
gorymdaith (gorymdeithiau)	<i>parade(s), march(es)</i>
tunnell (tunelli)	<i>tonne(s)</i>
yr wyddor	<i>the alphabet</i>

anesmwytho	<i>to become uncomfortable</i>
brathu	<i>to bite</i>
canlyn	<i>to follow; to court</i>
cellwair	<i>to joke</i>
craftu (ar)	<i>to scrutinise</i>
cusanu	<i>to kiss</i>
dyfeisio	<i>to invent</i>
goroesi	<i>to survive</i>
marchogaeth	<i>to ride (ceffyl)</i>
ochneidio	<i>to moan, to groan</i>
targedu	<i>to target</i>
tirlenwi	<i>to landfill</i>
sychlanhau	<i>to dry clean</i>
ymbellhau (oddi wrth)	<i>to distance oneself (from)</i>
ymlywbro	<i>crwydro</i>

amgylcheddwr (-wyr)	<i>environmentalist(s)</i>
cadach(au)	<i>rag(s)</i>
cipolwg (cipolygon)	<i>glimpse(s), snapshot(s)</i>
creadigrwydd	<i>creativity</i>
cyfoeswr (-wyr)	<i>contemporary (-ies)</i>
chwant(au)	<i>desire(s)</i>
difodiant	<i>extinction</i>
direidi	<i>mischief</i>
dylunydd (dylunwyr)	<i>designer(s)</i>
gwas (gweision)	<i>servant(s)</i>
gwneuthuriad	<i>make, composition</i>
heliwr (helwyr)	<i>hunter(s)</i>
llifyn(nau)	<i>dye(s)</i>
medrusrwydd	<i>capability</i>
offeiriad (offeiriad)	<i>priest(s)</i>
parhad	<i>continuation</i>
steilydd(ion)	<i>stylist(s)</i>
trwch	<i>thickness</i>

amddifad	<i>orphaned</i>
angladdol	<i>funereal</i>
anhysbys	<i>unknown</i>
cyfrinachol	<i>confidential</i>
diarffordd	<i>remote</i>
dysgedig	<i>learned</i>
gloyw	<i>bright</i>
gwastraffus	<i>wasteful</i>
medrus	<i>capable</i>
moesegol	<i>ethical</i>

bwa a saeth	<i>bow and arrow</i>
Cenhedloedd Unedig	<i>United Nations</i>
dan y lach	<i>being criticised</i>
diddordeb ysol	<i>a keen interest</i>
go brin	<i>hardly; scarcely</i>
main y cefn	<i>spine (llyfr)</i>

Geiriau pwysig i mi...

.....

.....

.....

Darllen a siaradwch - Ffasiwn



Diwedd Ffasiwn Cyflym?

Yng nghanol hwyl Wythnos Ffasiwn Llundain 2019, sioe wahanol iawn a hawliodd y penawdau, wrth i ddau gant o ymgyrchwyr Gwrthryfel Difodiant gynnal gorymdaith angladdol drwy strydoedd y ddinas. Eu nod oedd tynnu sylw at effaith y diwydiant ffasiwn ar yr amgylchedd a beirniadu system wastraffus sy'n annog pobl i brynu gormod o ddillad. Ond a yw hynny'n deg? Wedi'r cyfan, mae'r diwydiant ffasiwn yn talu £32 biliwn o drethi bob blwyddyn, mewn cyfnod digon anodd i economi Prydain.

Gan amlaf, 'ffasiwn cyflym' sydd dan lach yr amgylcheddwyr. Dillad rhad yw'r rhain a gynhyrchir ar raddfa eang, i adlewyrchu ffasiynau diweddaraf y dylunwyr mawr. Mae 'cyflym' hefyd yn cyfeirio at hyd oes y dillad: cânt eu gwisgo tua saith gwaith, cyn mynd i siop elusen neu'n amlach na pheidio, i'r bin sbwriel. Yn ôl DEFRA (Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig), anfonwyd tua 895,000 o dunelli o ddillad i safleoedd tirlenwi yn 2016. Yn aml, mae dillad rhad yn cynnwys gronynnau o blastig a llifynnau artiffisial sy'n llygru'r amgylchedd. Pam felly targedu dylunwyr *haute couture* yn Wythnos Ffasiwn Llundain? Wel, er bod ansawdd a gwneuthuriad eu dillad yn well, mae cynhyrchu, golchi a sychlanhau dillad o bob math yn rhoi straen enfawr ar ein hecosystem. Ac wrth gwrs, dylunwyr *haute couture* sy'n creu'r ffasiynau ac yn bwydo chwant prynwyr am ffasiwn cyflym. Yn ôl y Cenhedloedd Unedig, mae'r diwydiant ffasiwn yn defnyddio mwy o ynni na'r diwydiant awyrennau a'r diwydiant llongau gyda'i gilydd.

Ffenomen gymharol newydd yw ffasiwn cyflym yn ôl y steilydd ffasiwn, Helen Angharad Humphreys. "Tua ugain mlynedd yn ôl, byddai siopau'n rhyddhau dau gasgliad o ddillad y flwyddyn. Roedden ni'n prynu dillad yn llai aml, ac yn prynu pethau oedd yn para'n hirach. Ond nawr, mae rhai siopau mawr yn rhyddhau deuddeg casgliad neu fwy, a phobl yn disgwyl cael ffasiynau'r *catwalk* yn syth. 'Dyn ni'n byw mewn byd lle mae delwedd yn hollbwysig, lle mae pobl yn rhannu lluniau o'u hunain ar y cyfryngau cymdeithasol yn ddi-baid, ac maen nhw eisiau cael eu gweld yn gwisgo'r pethau 'iawn'."

Yn ogystal ag effeithio ar yr amgylchedd, esbonia Helen fod ffasiwn cyflym hefyd yn rhoi pwysau ofnadwy ar weithwyr mewn ffatrioedd dillad. "Yn y gorffennol, byddai dillad prif siopau'r stryd fawr yn cael eu gwneud ym Mhrydain dan amodau da, gan weithwyr oedd wedi datblygu sgiliau arbennig. Roedd llawer o ffatrioedd dillad yng Nghymru, fel Dewhurst yn Llanbed. Mae hynny i gyd wedi'i golli nawr. Ond, ar ôl trychineb Rana Plaza yn Bangladesh yn 2013 [pan ddymchwelodd ffatri ddillad enfawr gan ladd dros 1,000 ac anafu 2,500 o weithwyr] dechreuodd pobl feddwl o ddifri am eu dillad: ble cawson nhw eu gwneud? Pwy wnaeth nhw? Wedyn, cafodd mudiad Fashion Revolution ei sefydlu, sy'n craffu ar gwmnïau dillad mawr. Erbyn hyn, mae cwmnïau fel Adidas wedi trawsnewid eu dull o weithio ac yn awyddus i fod yn un o enghreifftiau da Fashion Revolution."

Yn ôl Helen Humphreys, mae'n rhaid i'r diwydiant ffasiwn newid er mwyn goroesi. "Er bod llawer o bobl ifanc yn mwynhau prynu dillad rhad, mae llawer hefyd yn ymwybodol iawn o broblemau'r amgylchedd ac yn chwilio am brofiadau diddorol wrth siopa. Ar wefannau poblogaidd fel Ebay a Depop, gallwch chi werthu hen ddillad a phrynu dillad ail-law yn rhwydd, ac mae 'na rai yn rhagweld y bydd y ffordd yma o siopa'n fwy poblogaidd na ffasiwn cyflym cyn hir. Mae hi hefyd yn fwy derbynol i chi gael eich gweld yn gwisgo'r un dillad ar y cyfryngau cymdeithasol, ac mae addasu hen ddillad yn arwydd o greadigrwydd a steil unigryw." Beth felly fyddai cyngor Helen i bobl sydd ar incwm isel sy'n pryderu am effeithiau ffasiwn cyflym?

"Dw i'n sylweddoli ei bod hi'n anodd," medd hi. "Dw i'n gwrthod mynd i rai siopau rhad am resymau moesegol, ond dyw'r dewis yna ddim ar gael i bawb ac mae rhai mathau o ddillad, fel gwisg ysgol, yn anodd eu cael mewn siop elusen neu ar Ebay. Ar Ebay fe ddewch chi o hyd i ddillad da gan gwmnïau sy'n parchu eu gweithwyr a'r amgylchedd. Hefyd, os ewch chi i siop elusen y dyddiau hyn, mae cymaint o stoc ganddyn nhw fel eu bod nhw'n gallu arddangos dillad mewn ffordd ddiddorol a chreadigol, sy'n ei gwneud hi'n haws i chi ddod o hyd i rywbeth sydd at eich dant chi."

Amser a ddengys, ond efallai fod oes ffasiwn cyflym yn dirwyn i ben.

Siaradwch



- Beth yw'r pum prif bwynt yn yr erthygl?
- Ble cafodd y dillad dych/dach chi'n eu gwisgo heddiw eu gwneud?
- Pa mor aml fyddwch chi'n prynu dillad?
- Ydych chi'n siopa mewn siopau ail-law?
- Fyddwch chi'n newid eich arferion siopa yn y dyfodol?

Rydych chi'n gweld yr ymadrodd **amser a ddengys** yn y darn – “Amser a ddengys, ond efallai fod oes ffasiwn cyflym yn dirwyn i ben”. Gyda'ch partner, meddyliwch am bethau eraill sydd o bosib yn dod i ben a'u rhoi yn y brawddegau isod:

Amser a ddengys, ond efallai fod oes _____
yn dirwyn i ben.

Amser a ddengys, ond efallai fod oes _____
yn dirwyn i ben.

Amser a ddengys, ond efallai fod oes _____
yn dirwyn i ben.

Gwybodaeth o iaith



Dewiswch yr ateb mwyaf tebygol i'w roi yn y bwloch.

1. Ar ôl prynu tŷ newydd, roedden nhw mewn tipyn o _____.

- a. ddyled
- b. ddylid
- c. amheuaeth
- ch. ddyletswydd



2. Aethon ni i weld fy mam-gu yr wythnos _____.

- a. diweddar
- b. diwethaf
- c. olaf
- ch. cyn



3. Wnewch chi dalu'r bil _____ â phosibl, os gwelwch chi'n dda?

- a. mor gynted
- b. cyn gynted
- c. mor gynt
- ch. cyn gynt

4. _____ y pwll glo olaf yn y cwm yn yr wythdegau gan y Bwrdd Glo.

- a. Caewyd
- b. Caeir
- c. Caeodd
- ch. Cauodd

5. Roedd y gwcw'n aderyn _____ ledled Cymru, ar un adeg.

- a. cyffredinol
- b. cyffylog
- c. cyfforddus
- ch. cyffredin

6. Wnaeth e ddim llawer o baratoi at yr arholiad, felly roedd e'n poeni _____ .

- a. arno
- b. ynddo
- c. hebddo
- ch. amdano

7. Aethon nhw i weld y ffilm _____ gilydd.

- a. gyda'n
- b. gyda'i
- c. gyda'u
- ch. gan eu

8. Y dyddiau hyn, mae plant yn _____ gormod o amser yn chwarae gemau cyfrifiadurol.

- a. hela
- b. gwario
- c. treulio
- ch. trin

Ymarfer Ansoddeiriau

Mae **cyn gynted â phosib** yn ymadrodd defnyddiol iawn. Mae'n bosib defnyddio **cyn** yn lle **mor** o flaen rhai ansoddeiriau. Ailysgrifennwch yr isod gan ddefnyddio **mor**.

cyn lleied	_____
cyn hired	_____
cyn belled	_____
cyn rhated	_____
cyn ddruted	_____
cyn drymed	_____
cyn hyned	_____
cynddrwg	_____

Erbyn pryd dych chi eisiau gwybod? Cyn gynted â phosib.

Erbyn pryd dach chi isio gwybod? Cyn gynted â phosib.

Pa mor bell dych chi eisiau/dach chi isio mynd? _____

Dych chi eisiau/Dach chi isio cael eira trwm? _____

Dych/Dach chi'n hoffi coffi cryf? _____

Dych/Dach chi'n hoffi siopau rhad? _____

Gilydd

Cyfieithwch:

1. *We are facing the problems of the debt together.*

2. *They saw each other in a concert last week.*

3. *You must speak to each other as soon as possible.*

4. *They used to travel to work together.*

5. *It is common for couples to meet one another in social events.*

6. *We always worry about one another.*

Siaradwch



- Sut byddwch chi'n **treulio** eich nos Sadwrn fel arfer? Beth wnaethoch chi nos Sadwrn diwetha?
- Faint fyddwch chi'n ei **wario** ar eich ffôn symudol bob mis? Ar beth dych/dach chi'n **gwario** fwy – bwyd neu ddillad?

Gwranddo – Gwybodaeth ffeithiol



Yma, mae Maredudd ap Huw o'r Llyfrgell Genedlaethol yn siarad am gadw dyddiaduron. Daw'r darn o raglen BBC Radio Cymru, *Al Hughes*. Atebwch y cwestiynau ar sail y wybodaeth yn y darn.

1. Pam doedd neb wedi darllen dyddiaduron Samuel Pepys ers amser hir?

2. Beth oedd yn gyffredin rhwng dyddiaduron y gwleidyddion Alan Clark a Tony Benn?

3. Pam roedd y 'dosbarth breintiedig' (pobl gyfoethog) yn ysgrifennu mewn ffordd arbennig, erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg?

4. Pam nad oes llawer o ddyddiaduron Francis Kilvert ar ôl?

Rydych chi'n clywed Maredudd ap Huw yn dweud **deubeth**, sef dau beth. Ydych chi'n gallu meddwl am eiriau eraill sy'n dechrau gyda **deu-**?

Siaradwch - Cadw dyddiadur



- Ydych chi'n cadw dyddiadur personol? Ydych chi wedi cadw dyddiadur personol erioed? Fasech chi'n hapus i bobl eraill ddarllen eich dyddiaduron?
- Ydych chi'n hoffi darllen cofiannau neu hunangofiannau? Beth oedd y cofiant neu'r hunangofiant diwetha i chi ei ddarllen?
- Ydych chi'n cadw dyddiadur apwyntiadau – yn electronig neu ar bapur?

Siaradwch - Disgrifiwch y gwyliau mwyaf cofiadwy a gawsoch chi yn ystod eich plentyndod



Siaradwch â'ch partner. Cofiwch sôn am:

- beth oedd patrwm eich gwyliau pan oeddech chi'n blentyn;
- y rheswm dros fynd i un lle arbennig;
- un digwyddiad arbennig o'r gwyliau hynny;
- manteision ac anfanteision mynd i'r lle hwnnw;
- sut basech chi neu'ch teulu'n ymateb i wyliau tebyg erbyn hyn.



Gwybodaeth o iaith

- A:** Dw i'n edrych ymlaen _____ ein gwyliau ni ym Mhatagonia.
- B:** A finnau, ond mae llawer o waith _____ wneud cyn dechrau. Rhaid i ni argraffu'r tocynnau awyren, ac edrych dros ein _____ (yswariant). Does gen i ddim syniad _____ fath o ddillad fydd eu hangen. Am faint o _____ (awr) byddwn ni yn yr awyren, tybed?
- A:** Tua deuddeg. Mae angen ebostio Pedro a Mari ar yr ochr draw i ddweud _____ nhw am faint o'r gloch byddwn ni'n glanio.
- B:** Oes. O... wyt ti wedi prynu tabledi salwch car i'r plant?
- A:** Nac ydw. Anghofiais i, rhwng un peth a'r _____. Wnei di fynd i'r dre i'w cael nhw cyn _____'r siopau gau?
- B:** _____. (✓)
- A:** Tra byddi di yn y dre, _____ (mynd) i brynu swper o'r siop sglodion. Bydd hynny'n _____ (hawdd) na choginio.
- B:** Iawn. Fasai'n _____ gen ti sglodion na bwyd Indiaidd? Basai'r plant wrth _____ bodd yn cael cyrri.
- A:** Does dim gwahaniaeth gen i.
- B:** Bwyd Indiaidd _____ (am)!
- A:** Gwych. Bydd rhaid i ni adael mewn _____ bryd bore yfory, beth bynnag wnawn ni. Mae meysydd awyr yn gallu bod yn _____ (lle) prysur iawn. Wyt ti'n cofion pan aethon ni i Sbaen _____ (3) blynedd yn ôl?
- B:** Ydw. Pryd _____ (cyrraedd) ni'r maes awyr yn y diwedd? Hanner awr cyn amser hedfan neu rywbeth?
- A:** Dau ddeg pum munud a bod yn fanwl gywir. Cael a _____ oedd hi!
- B:** Profiad ofnadwy...
- A:** Dw i'n mynd i wneud yn siŵr _____ y ddau gloc larwm yn gweithio, cyn mynd i gysgu heno!

Ymarfer

i'w

Edrychwch ar y frawddeg **Mae llawer o waith i'w wneud cyn dechrau**. Llenwch y bylchau yn y brawddegau isod, gan gofio defnyddio **i'w**.

1. Mae ychydig o fara ar ôl _____ .
2. Mae llawer o lyfrau ar ôl _____ .

3. Mae nifer o achosion ar ôl _____ .
4. Mae dillad brwnt/budr ar ôl _____ .
5. Mae bwcedi ar ôl _____ gyda dŵr glaw.
6. Mae cadair ar ôl _____ yn y gweithdy.
7. Mae canghennau ar ôl ar y llawr _____ ar ôl y storm.
8. Mae un drws ar ôl _____ a bydd y tŷ yn barod.

Mewn da bryd

Rydyn ni'n aml yn gweld y gair **pryd** mewn ymadroddion sy'n cyfeirio at amser. Ydych chi'n gallu meddwl am rai eraill?

Help llaw



Amdani!

Yn y darn, rydych chi'n gweld y frawddeg **Bwyd Indiaidd amdani!** Mae'n bosib cyfieithu'r frawddeg hon fel '*Indians it is then!*' Dyma rai enghreifftiau eraill:

Does dim bwyd yn y tŷ.

Siopa amdani 'te!

Mae syched arna i.

Paned amdani 'te!

Ar ei ben ei hun, mae **Amdani** yn golygu '*Give it a go*'. Dyna pam dewiswyd **Amdani** fel teitl ar gyfer cyfres o lyfrau i ddysgwyr.

Siaradwch – cael a chael



Meddyliwch am y sefyllfaoedd isod. Oes stori **cael a chael** gyda chi?

cyrraedd maes awyr

pasio arholiad

ar y maes chwarae

gorffen darn o waith

Cymraeg ffurfiol – Y person cyntaf presennol



Os byddwch chi'n sefyll arholiad Defnyddio'r Gymraeg Uwch, byddwch chi'n ysgrifennu llythyr ffurfiol a gallech chi ddefnyddio person cyntaf y ferf yn yr amser presennol, e.e. Dw i'n clywed > **Clywaf**. Gyda'ch partner, rhowch gynnig ar droi'r berfau anffurfiol hyn yn rhai ffurfiol. Byddwch yn ofalus gyda'r un olaf.

Dw i'n ysgrifennu

Dw i'n bwriadu

Dw i'n hyderu

Dw i'n teimlo

Dw i'n edrych ymlaen

Dw i'n gweld

Dw i'n gwybod

Dyma ddwy enghraifft o Gymraeg ffurfiol:


Ysgrifennaf atoch i roi'r newyddion diweddaraf i chi am y Grant Ysgolion Bach.

(Llywodraeth Cymru)

Teimlaf ar adegau fod yr awdur wedi taflu gormod o themâu i'r nofel.

(cylchgrawn *Y Stamp*)

Cefndir – Y Wladfa



Heddiw, mae 20,000 o bobl o dras Gymreig yn byw yn y Wladfa ym Mhatagonia, a thua 5,000 o bobl yn siarad Cymraeg. Ond sut cafodd y Wladfa ei sefydlu?

Mewn grwpiau, cysylltwch y chwe cherdyn gwybodaeth am y Wladfa â'r chwe cherdyn lluniau. Yna, ysgrifennwch grynodeb o'r cardiau – dim ond y pwyntiau pwysicaf – yn y blychau isod.

1.

2.

3.

4.

5.

6.

Gwyllo a gwrando 1 – Gŵyl y Glaniad



Byddwch chi'n gwyllo fideo am Wyl y Glaniad, sef gŵyl i ddathlu glaniad y Cymry cyntaf ym Mhatagonia.

1. Gwrandewch yn ofalus ar Sandra De Pol. Beth yw arwyddocâd y rhifau hyn?

- 28 _____
- 1865 _____

2. Beth yw cysylltiad Nest Jenkins â'r Wladfa?

3. Mae Eseia yn sôn am rai o'r digwyddiadau sy'n cael eu cynnal yn y Wladfa i ddathlu Gŵyl y Glaniad. Nodwch ddau ohonyn nhw yn y blwch isod.

Siaradwch



- Mae pobl yn dathlu Gŵyl y Glaniad i gofio am y Cymry yn cyrraedd y Wladfa. Ydy cofio a nodi digwyddiadau hanesyddol yn bwysig i chi?

Gwyllo a gwrando 2 – Elvira Moseley o Batagonia



Byddwch chi'n gwyllo fideo o Elvira Moseley yn esbonio sut daeth hi i fyw i Gymru o Batagonia.

1. Beth mae hi'n ei ddweud yn lle 'Cymru'?

2. Pryd daeth Elvira i Gymru?

3. Beth oedd yn bwysig am y flwyddyn 1965?

4. Pwy oedd yn gallu cael grant i astudio yng Ngholeg Harlech?

5. Am faint o amser roedd Elvira i fod i aros yng Nghymru?

Siaradwch



- Hoffech chi dreulio cyfnod yn gweithio neu'n astudio mewn gwlad dramor?
- Oes gennych chi deulu neu ffrindiau mewn gwlad dramor? Sut byddwch chi'n cadw cysylltiad â nhw?

Gwyllo a gwrando 3 – Ann-Marie a Fabio Lewis



Treuliodd Ann-Marie a Fabio flwyddyn ym Mhatagonia yn gweithio fel Swyddogion Datblygu'r Gymraeg. Mae Fabio yn dod o Batagonia yn wreiddiol.

1. Pam roedd 2015 yn flwyddyn bwysig i'r Wladfa, yn ôl Fabio?

2. Pa fath o addysg a gafodd y plant ym Mhatagonia?

3. Nodwch y ddau beth sy'n wahanol yn yr Ariannin, yn ôl Ann-Marie:

4. Yn ôl Ann-Marie, roedd Ifan yn siarad Sbaeneg "o fewn dim". Gyda'ch partner, lluniwch frawddeg yn cynnwys **o fewn dim**.

Siaradwch



- Roedd y teulu Lewis yn byw a bod y tu allan pan oeddent ym Mhatagonia. Yn ôl Geiriadur Prifysgol Cymru, ystyr **byw a bod** yw *to be habitually present, to be continually in (a place)*. Ydych chi'n **byw a bod** yn rhywle? Ble hoffech chi dreulio'r rhan fwyaf o'ch amser, pe bai gennych chi ddewis?
- Hoffech chi fynd i Batagonia?

Uned 9

Nod yr uned hon yw...

- Cyflwyno agweddau ar arholiad Defnyddio'r Gymraeg Uwch
- Cyflwyno'r Hen Ogledd a'r Hengerdd

Geirfa

atomfa (-feydd) *nuclear power station(s)*

Bonesig *Lady (teitl)*

braint (breintiau) *privilege(s)*

bywydeg *biology*

dynoliaeth *humanity*

gwefr(au) *thrill(s)*

meddygaeth *medicine (y pwnc)*

peirianeg *engineering*

protest(iadau) *protest(s)*

sail (seiliau) *foundation(s)*

seiren(au) *siren(s)*

templ(au) *temple(s)*

tydfa *attraction*

ysfa *urge*

adfywio *to revive, to regenerate*

amgyffred *to comprehend*

bodloni *to satisfy*

bychanu *to belittle*

caledu *to harden; to solidify*

closio (at) *to get closer (to)*

diflasu (ar) *to become miserable, to become bored (with)*

dileu *to delete*

gwanhau *to weaken*

hiraethu (am) *to long (for)*

melynu *to become yellow*

mewnforio *to import*

nosi *to get dark*

pigo *to pick*

rhyfeddu (at) *to wonder (at)*

suo *to murmur*

adfywiad *regeneration, renewal*

arwyddair (arwyddeiriau) *motto(s)*

benthyciad(au) *loan(s)*

cyfleustra *convenience*

Cymreictod *Welshness*

cytgord *harmony*

darlithydd (darlithwyr) *lecturer(s)*

delfryd(au) *ideal(s)*

dŵch *blackness*

encil(ion) *retreat(s)*

gwrthwynebiad(au) *opposition(s)*

gwyfyn(od) *moth(s)*

gwyrddni *greenness*

hyd(oedd) *length(s)*

isymwybod *subconscious*

llosgydd(ion) *incinerator(s)*

llu(oedd) *force(s), host(s)*

pwerdy (pwerdai) *powerhouse(s); power station(s)*

rhuthr *rush*

undod *unity*

brenhinol *royal*

byddar *deaf*

celwyddog *untruthful*

coediog *leafy*

creiddiol *core*

cyfriniol *mystical*

cysylltiedig (â) *connected (to)*

dilynol *following*

benbaladr	<i>all over</i>
(Cymru benbaladr)	
bro mebyd	<i>home ground</i>
gwaetha'r modd	<i>worse luck</i>
ôl troed (olion traed)	<i>footprint(s)</i>
o'r pwys mwyaf	<i>of the greatest importance</i>
yn llythrennol	<i>literally</i>
yn sgil	<i>in the wake of</i>

effeithlon	<i>efficient</i>
erchyll	<i>ofnadwy</i>
gwallgof	<i>mad</i>
nerthol	<i>powerful</i>
llachar	<i>bright</i>
llesol	<i>beneficial</i>
sinistr	<i>sinister</i>

Geiriau pwysig i mi...

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Siaradwch – Pwnc Llosg – Mae'n dda bod cymaint o bobl ifanc yn cael cyfle i fynd i'r brifysgol




Gyda'ch partner, gweithiwch allan pa air sy'n cael ei ddiffinio yma:

Mae pobl fel arfer yn mynd yma am dair blynedd ar ôl gwneud arholiadau Safon Uwch ('lefel A').	
Mae pobl fel arfer yn mynd yma i wneud lefel A neu gwrs fel gofal plant, peirianeg neu i ddysgu crefft.	
Swydd gyda hyfforddiant.	
Person sy'n dysgu myfyrwyr mewn prifysgol.	
Mae llawer iawn o fyfyrwyr angen un o'r rhain i allu talu eu ffioedd a'u costau byw.	
Mae myfyrwyr yn aml yn byw yn un o'r rhain.	
Cwrs i'ch helpu chi i weithio mewn maes fel gofal iechyd neu adeiladu.	
Mae myfyrwyr yn derbyn un mewn seremoni ar ddiwedd eu cwrs.	



Prifysgolion Cymru



Gyda'ch partner, penderfynwch pa ffaith sy'n gywir am y prifysgolion hyn.

Mae'r brifysgol yma'n cael ei hadnabod fel y Coleg ger y Lli. _____

Mae gan y brifysgol hon gampws yn Dubai. _____

Hon yw'r brifysgol leia yng Nghymru. _____

Mae gan y brifysgol theatr o'r enw Taliesin. _____

Dechreuodd y brifysgol hon fel Ysgol Gelf. _____

Mae'r brifysgol yma'n cael ei hadnabod fel y Coleg ar y Bryn. _____

Siarter Frenhinol y brifysgol hon yw'r hynaf yng Nghymru. _____

"Gwirionedd, Undod a Chytgord" yw arwyddair y brifysgol hon. _____

Nodwch isod dri pheth da am addysg brifysgol a thair anfantais:

Dylai pobl ifanc fynd i'r brifysgol achos...	Dylai pobl ifanc feddwl ddwywaith am fynd i'r brifysgol achos...

Mewn grŵp, trafodwch 'Mae'n dda bod cymaint o bobl ifanc yn cael cyfle i fynd i'r brifysgol'.

Gwybodaeth o iaith - Aralleirio



Gyda'ch partner, ailysgrifennwch y frawddeg gan ddefnyddio'r sbardun mewn prif lythrennau. Dylai'r frawddeg newydd fod mor agos â phosib at y frawddeg wreiddiol o ran ystyr. Mae'n bosib y bydd angen treiglo'r gair sbardun yn yr ateb.

1. Roeddwn i'n deall Marged yn iawn ac roedd Marged yn fy neall innau. **GILYDD**

Roedd Marged a minnau _____.

2. Ddylet ti ddim gwisgo esgidiau wrth fynd i mewn i'r deml. **BOD**

Dwyt ti _____ wrth fynd i mewn i'r deml.

3. Mae'r gwaith ffordd yn effeithio ar bobl Trewylan yn fwy na neb. **PENNAF**

Ar bobl Trewylan _____

4. I orffen y noson, canodd y gynulleidfa'r anthem genedlaethol. **DOD**

_____ gyda'r gynulleidfa'n canu'r anthem genedlaethol.

5. Nid dyma'r car cyflymaf na'r mwyaf moethus, ond mae'n ddigon da i fi. **TRO**

Nid dyma'r car cyflymaf na'r mwyaf moethus, ond _____

6. Paid ag edrych i ffwrdd oddi wrtha i pan dw i'n siarad â ti! **CEFN**

_____ pan dw i'n siarad â ti!

7. Mae pob math o losin ar gael yn Siop Morus. **LLUN**

Mae losin _____ ar gael yn Siop Morus.

8. Byddech chi wedi gallu mynd ar y trê'n i Lundain. **BOD**

Gallech chi _____.

Ymarfer

Cofiwch y patrymau

Dylwn i fynd/Mi ddylwn i fynd ond Dylwn/Mi ddylwn i **fod** wedi mynd

Ddylwn i ddim mynd ond Ddylwn i ddim **bod** wedi mynd

Meddyliwch am ymatebion i'r isod. Dilynwch y patrwm:

Ydw i wedi parcio'n rhy bell i ffwrdd?

Gallet ti/Mi fedret ti fod wedi
parcio'n agosach.

Ydw i wedi talu digon?

Ro'n i'n oer.

Ro'n i'n dwym/gynnes.

Do'n i ddim yn gallu/medru clywed y rhaglen.

Des/Mi ddes i yma mewn tacsï heddiw.

Arhosais i/Mi arhoses i mewn gwesty neithiwr.

Roedd y gwyliau'n ddrud iawn.

Ddylet ti ddim bod wedi aros
mewn gwesty pum seren.

Ces i fy stopio gan yr heddlu.

Mae pen tost gyda fi y bore 'ma./

Mae gen i gur pen bore 'ma.

Dw i'n llawn.

Ro'n i'n grac iawn gyda hi./Ro'n i'n flin iawn efo hi.

Do'n i ddim yn hapus gyda/efo gwaith y cwmni.

Dw i wedi cael dirwy.

Help llaw



Rydyn ni'n defnyddio **bod** pan fydd ffurfiau cryno'r amodol yn unig. Edrychwch ar yr enghreifftiau isod:

Hoffwn i fod wedi mynd.

Baswn i wedi hoffi mynd.

Gallwn/Medrwn i fod wedi mynd.

Baswn i wedi gallu/medru mynd.

Siaradwch - i fod i



- Beth dych/dach chi i fod i'w wneud yfory?
- Beth doeddech chi ddim i fod i'w wneud pan oeddech chi'n blentyn?
- Beth dych/dach chi i fod i'w wneud os byddwch chi'n cael damwain car?
- Beth dych/dach chi i fod i'w wneud os byddwch chi'n dringo mynydd?
- Beth dych/dach chi i fod i'w wneud os byddwch chi eisiau rhedeg marathon?

Gwranddo – Gwybodaeth bersonol



Yma, mae'r meddyg Gwen Jones-Edwards yn siarad am ei chefnidir a'i haddysg yng Nghaerdydd ar raglen Radio Cymru *Beti a'i Phobl*. Atebwch y cwestiynau ar sail y wybodaeth yn y darn.

1. Beth roedd rhaid i Gwen ei wneud i gyrraedd Ysgol Howells?

2. Pam roedd Gwen yn teimlo allan o le yn Ysgol Howells?

3. Beth wnaeth Gwen oherwydd ei bod hi'n teimlo allan o le?

4. Sut dechreuodd Gwen ar y llwybr i fynd i'r maes meddygol?

5. Pam na chafodd Gwen fynd i goleg o'i dewis hi?

Mae Gwen yn defnyddio'r gair **braidd**. Gwnewch yr ymarfer isod, gan ddefnyddio **braidd** yn eich ateb bob tro.

Pam nad wyt ti'n mynd i Gaeredin?

Mae hi braidd yn bell.

Pam nad wyt ti'n siopa yn Harrods?

Pam nad wyt ti'n dysgu Rwsieg?

Pam nad wyt ti'n mynd allan heno?

Pam nad wyt ti'n darllen *War and Peace*?

Pam nad wyt ti'n eistedd ar y llawr?

Pam nad wyt ti'n hoffi chwarae golff?

Darllen a siaradwch



Darllenwch yr erthygl isod gan Manon Wynn Davies ac atebwch y cwestiynau.

Tynfa

Ar ddiwrnod gêm yng Nghaerdydd, mae'n debyg fod rhyw 300,000 o bobl yn heidio yno er mwyn cael eu gwasgu i gorneli tafarndai neu gael eu boddi yn nhyrfa'r stadiwm. Bydd rhai wedi teithio siwrne o dros bedair awr er mwyn cael y fraint o giwio am hanner awr wrth bob bar. Bydd pob tafarn yn troi'n gôr, a'r aelodau'n meddwi ar eu Cymreictod ac yn bodloni'r ysfa honno i fod yng nghanol yr hwyl. Yn bodloni'r dynfa tuag at drydan a goleuadau'r brifddinas. A phwy fyddai'n gweld bai ar y gwyfynod sydd wedi eu denu yno ac sydd eisiau blasu'r awyrgylch a'r cwrw? Mae sawl un yn cael eu tynnu i Gaerdydd; i gyfnewid gwynt y môr neu wyrddni'r caeau am ruthr, gwefr, a lampau'r brifddinas, yn ddall i strydoedd budron ac yn fyddar i suo seirenau. Mae hi'n hawdd dychmygu delfrydau'r ddinas fawr wen heb law sylweddoli bod yn rhaid caledu i fywyd Caerdydd.

Dydi'r dynfa at fywyd dinas yn ddim byd newydd, wrth gwrs; mae dadl y pridd a'r concriid yn hen gyfarwydd inni yng Nghymru, ond er hynny mae'r dynfa hon yn rhywbeth creiddiol ynom ni, bron. Yr awydd hwnnw i glosio at y man lle mae pobl yn ymgasglu ac yn ffurfio cymunedau, a'r mwyaf o bobl sydd mewn un lle, y mwyaf o gyfleusterau, cyfleoedd, buddsoddiad, adloniant, amrywiaeth a safon sydd ar gynnig. Os hedfanwch chi a hithau'n nosi a'r awyr yn glir, gallwch weld map drwy ffenest yr awyren sy'n tystio i'r dynfa naturiol honno mewn pobl i glosio at ei gilydd. Mae trefi a phentrefi yn ymddangos yn bocedi o olau yng nghanol y dŵch, yn brawf fod cymunedau wedi eu ffurfio dros ganrifoedd ac wedi hen sefydlu bellach.

Mae yno ryw ysfa i adael cartref yn nifer ohonom ni, ond mae yno dynfa hefyd o hyd i ddychwelyd adref, dod yn ôl at y tir cyfarwydd, y lle hwnnw sy'n perthyn i ni. Boed hynny o deithio'r byd neu o symud i fyw i ganol mwg a llwch tref neu ddinas, yn aml iawn mae yna rywle sy'n ein galw ni'n ôl. Ac weithiau mae angen hynny arnom ni; mae angen inni ddychwelyd yn llythrennol at ein gwreiddiau, at y dŵr a'r pridd, er mwyn inni allu anadlu eto. Âr mor a'r mynyddoedd yn rhan o hunaniaeth ac isymwybod nifer o bobl a gafodd eu geni a'u magu mewn ardaloedd mwy gwledig, mae dychwelyd at yr hen olygfeydd cyfarwydd yn gallu bod yn llesol, a'n cynefin yn gallu bod yn encil ac yn bwerdy i'r corff a'r meddwl. Mae troedio hen lwybrau'n troi'n ddefod: oedi i dynnu llun ar y ffôn, ei rannu ar Instagram, a rhyfeddu bob tro o'r newydd ar harddwch yr ardal mae rhywun wedi troi ei gefn arni.

Mae llawer o bobl wrth gwrs yn credu bod yn rhaid mynd i ffwrdd er mwyn profi'r teimlad cyfriniol hwnnw o ddychwelyd adref. Meddyliwch am yr ymadroddion 'does unman yn debyg...', 'teg edrych tuag adref'. Sawl un ohonom sy'n profi'r hiraeth rhyfedd sy'n pigo pan fydd rhywun funudau i ffwrdd o gyrraedd pen y daith wrth fynd adre? Pa synnwyr sy mewn teimlo hiraeth am rywle wrth i chi gyrraedd y lle hwnnw rydych chi'n hiraethu amdano?

Mae hi'n hawdd dweud bod rhywun am symud i'r ddinas 'am gyfnod'; anos ydi mesur hyd 'cyfnod'. Ar ôl bodloni'r ysfa a phrofi cyffur cyfleustra siopau mawrion a bariau soffistigedig, pryd mae'r dynfa'n ôl at y lonydd, y môr a'r mynyddoedd cyfarwydd yn mynd yn drech? Ynteu ai delfryd ydy bywyd y wlad hefyd; rhyw fan gwyn man draw? Er yn aml iawn fod teulu, gwaith, cyfeillion a llu o gyfleoedd yn perthyn i fywyd y ddinas, pryd mae'r blinder yn mynd yn ormod a'r goleuadau llachar yn pylu? Pryd mae'r tir yn ein tynnu ni'n ôl?

Siaradwch



1. Yn eich grŵp, penderfynwch beth yw'r prif bum pwynt yn yr erthygl.

2. 'Tynfa' yw teitl y darn. Ydych chi'n gallu meddwl am deitl arall?

3. Ydych chi'n gallu uniaethu â theimladau Manon Wynn Davies?

Ydych chi erioed wedi profi hiraeth?

Os ydych chi'n mwynhau gwyllo chwaraeon, ydych chi'n hoffi bod yng nghanol y dyrfa yn y stadiwm, yn mwynhau'r awyrgylch mewn tafarn, neu'n gwyllo gartre?

4. "Mae yna rywle sy'n ein galw ni'n ôl". Trowch y frawddeg hon yn frawddeg bersonol amdanoch chi, e.e. "Mae cymoedd y de-ddwyrain yn fy ngalw i'n ôl". Rhannwch eich brawddeg gyda phawb yn y dosbarth.

5. Cyfieithwch:

i. *the lights of the capital city* _____

ii. *to taste the atmosphere* _____

iii. *the greenery of the fields* _____

iv. *familiar views* _____

v. *bright lights* _____



Gwybodaeth o iaith - Dewis y ffurf gywir

Dewiswch yr ateb mwyaf tebygol a allai fynd yn y bwlch.

1. Dw i'n hoff iawn o gael wy _____ ffrio i frecwast.

a. wedi'u

b. wedi'w

c. wedi'i

ch. wedi'th

2. Eisteddwch yn yr hen gadair _____ wrth y tân.

a. braich

b. breichiau

c. fraich

ch. freichiau

3. _____ y cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

a. Croesawyd

b. Croesodd

c. Croesawodd

ch. Diolchodd

4. _____ i yn Sbaen ar fy ngwyliau y llynedd.

a. Es

b. Gwnes

c. Roeddwn

ch. Bues

5. Mae traddodiad y Plygain yn fyw ac yn _____ mewn rhannau o Gymru.

- a. iach
- b. fywiog
- c. wir
- ch. brysur

6. Roedd yr hyfforddwr yn hyderus _____ byddai ei dîm yn ennill y gêm.

- a. bod
- b. y
- c. a
- ch. mai

7. Peidiwch â gadael i'r sŵn eich atal chi _____ gwneud eich gwaith.

- a. o
- b. wrth
- c. oddi wrth
- ch. rhag

8. Bryn Meirion yw'r un a _____ orau yn y gystadleuaeth.

- a. ganodd
- b. chanodd
- c. nghanodd
- ch. canodd

Deialog

Darllenwch y ddeialog yma gyda'ch partner, gan gymryd tro i wneud y ddwy ran.

Fersiwn y de

- A:** Beth sy 'na i de heno? Oes *bolognese* ar ôl?
- B:** Nac oes, mae e i gyd **wedi'i fwyta**.
- A:** Beth arall sy 'na?
- B:** Mae digon o wyau. Beth am wy **wedi'i ffrio**? Wy **wedi'i ferwi**? Neu omlet?
- A:** Dim diolch. Ces i frechdan wy i ginio.
- B:** Mae tatws newydd Jane drws nesa yma. **Wedi'u codi** o'r ddaear ddoe, meddai hi. Beth am datws **wedi'u berwi** a digon o fenyn?

- A:** Hyfryd. Ond beth sydd i fynd gyda nhw? Oes ham?
- B:** Does dim ham. Mae e wedi mynd i'r bin bwyd. Roedd e yma ers wythnosau.
- A:** Allwn ni ddim bwyta dim ond tatws. Bydd rhaid i fi fynd i brynu rhywbeth.
- B:** Beth am bysgodyn **wedi'i ffrio**, sglodion **wedi'u gorchuddio** â halen a finegr a sos coch, a'r cyfan **wedi'i lapio** mewn papur?
- A:** Bendigedig. Af i i'r siop sglodion nawr.

Fersiwn y gogledd

- A:** Be sy 'na i de heno? Oes 'na *bolognese* ar ôl?
- B:** Nac oes, mae o i gyd **wedi'i fwyta**.
- A:** Be arall sy 'na?
- B:** Mae 'na ddigon o wyau. Be am wy **wedi'i ffrio**? Wy **wedi'i ferwi**? Neu omllet?
- A:** Dim diolch. Mi ges i frechdan wy i ginio.
- B:** Mae tatws newydd Jane drws nesa yma. **Wedi'u codi** o'r ddaear ddoe, meddai hi. Be am datws **wedi'u berwi** a digon o fenyn?
- A:** Hyfryd. Ond be sy 'na i fynd efo nhw? Oes 'na ham?
- B:** Does 'na ddim ham. Mae o wedi mynd i'r bin bwyd. Roedd o yma ers wythnosau.
- A:** Fedrwn ni ddim bwyta dim ond tatws. Mi fydd rhaid i mi fynd i brynu rhywbeth.
- B:** Be am bysgodyn **wedi'i ffrio**, sglodion **wedi'u gorchuddio** â halen a finegr a sôs coch, a'r cyfan **wedi'i lapio** mewn papur?
- A:** Bendigedig. A i i'r siop sglodion rwan.

Help llaw - wedi'i / wedi'u



Wedi'i

Mae **wedi'i** yn **gywasgiad** o **wedi ei**, ac mae'n golygu *which has been*. Er enghraifft, wy wedi'i ferwi (*boiled egg = an egg which has been boiled*).

Cofiwch fod **enedl enw**'n bwysig wrth ddefnyddio **wedi'i**. Mae'n rhaid i chi ddilyn rheolau treiglo arferol **ei**.

Os ydy gair yn **wrywaidd**, bydd **treigladd meddal** ar ôl **wedi'i**: bwyd wedi'i **rewi**.

Os ydy gair yn **fenywaidd**, does dim treigladd meddal ar ôl **wedi'i**: merch wedi'i mabwysiadu. Ond mae **treigladd laes**, a **h** o flaen llafariad.

Er enghraifft: cân wedi'i **chyfansoddi** gan Almaenwr; ysgol wedi'i **hadeiladu** yn Oes Fictoria.



Wedi'u

Mae **wedi'u** yn **gywasgiad** o **wedi eu**, ac mae'n golygu *which have been*. Er enghraifft, ffyrdd wedi'u trwsio, problemau wedi'u datrys.

Does **dim treigladd** ar ôl **wedi'u**, ond mae **h** o flaen llafariad: tai wedi'u **hadeiladu** o frics, gerddi wedi'u **hadfer**.

Weithiau, bydd pobl yn drysus rhwng **i'w** (*to their*) ac **wedi'u** ac yn dweud **wedi'w**, ond mae hynny'n anghywir.

Beth ydy'r lluniau hyn? Dwedwch beth ydyn nhw yn y blychau gwag.





Gwrando – Bwletin newyddion wedi'i/wedi'u

Geirfa: rhywogaeth

Gwrandewch ar y bwletin newyddion, a llenwch y bylchau yn y sgript isod.

Agorwyd canolfan newydd heddiw yng Ngwynedd gan y Gweinidog Amaeth. Bydd Canolfan Tir Glas yn gwerthu cynnyrch lleol, gan gynnwys cig o fferm y ganolfan, a chrefftau _____ â llaw. Bydd holl nwyddau'r siop _____ yng Nghymru.

Mae archfarchnad Waterby's yn rhybuddio pobl i beidio â bwyta salad gwyrdd _____ a gafodd ei werthu yn ei siopau ddoe. Cafodd y cynnyrch ei dynnu oddi ar silffoedd Waterby's ac mae swyddogion safonau bwyd yn ymchwilio i'r mater.

I gloi, mae niferoedd y barcod coch yng Nghymru wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda mwy o barau nag erioed yng Nghanolbarth Cymru. Mae'r barcod coch yn **rhywogaeth** _____ ac mae swyddogion bywyd gwyllt arbennig yn cadw golwg ar nythod y barcod.

Cymraeg ffurfiol - Rhagenwau



Edrychwch ar yr isod:

i'm	o'm	a'm	gyda'm
i'th	o'th	a'th	gyda'th
i'w	o'i	a'i	gyda'i
i'n	o'n	a'n	gyda'n
i'ch	o'ch	a'ch	gyda'ch
i'w	o'u	a'u	gyda'u

Does dim byd o gwbl yn bod ar **i fy, i dy, o fy, o dy, a fy, a dy, gyda fy, gyda dy** ond rydyn ni'n gweld y ffurfiau uchod mewn Cymraeg ffurfiol, e.e. "Gwlad! Gwlad! Pleidiol wyf i'm gwlad".

Does **dim treigladd o gwbl** ar ôl **i'm, o'm, a'm, gyda'm**.

Mae **treigladd meddal** ar ôl **i'th, o'th, a'th, gyda'th**.

Cyfieithwch yr isod, gan ddefnyddio Cymraeg ffurfiol. Defnyddiwch y ffurf **ti** bob tro.

1. *Your house and your garden.*

2. *He came to my house.*

3. *He is printing from my computer.*

4. *They are on their way to your office.*

5. *There will be changes as a result of your report.*

6. *Thank you for your support and your help.*

Cefndir – Cyflwyniad i'r Hen Ogledd a'r Hengerdd



Gwyllo a gwrando 1 – Yr Hen Ogledd

1. Yn y blwch isod, nodwch o leiaf bedair ffaith am yr Hen Ogledd.

2. 'Ganrifoedd yn ôl, roedd yna iaith arall i'w chlywed fan yma...ganrifoedd yn ôl, hen, hen fath o Gymraeg oedd iaith de'r Alban a gogledd Lloegr...roedd hynny ganrifoedd yn ôl wrth gwrs'. Rydych yn gyfarwydd â **threiglo adferfau amser** a dyna sy'n digwydd yn y brawddegau isod. Beth yw'r atebion?

- Gwelais i Dafydd yn y llyfrgell _____ yn ôl. (3 mis)
- Byddwn ni'n mynd ar ein gwyliau _____ i fory. (2 wythnos)
- Rwyt ti wedi colli'r wers _____ yn olynol! (4 gwaith)

3. Cysylltwch y geiriau â'r diffiniadau cywir.

Gair	Diffiniad
teyrnasu	llawer o bobl yn dod i un lle
tyrru	bod neu ddod yn agos (at)
ymylu (ar)	rheoli a bod ag awdurdod (dros wlad fel arfer)
Brythoneg	tref neu ddinas y mae'n anodd ymosod arni / castell
caer	grŵp o bobl
llwyth	mamiaith yr ieithoedd Celtaidd

4. Pa ieithoedd Celtaidd y gallwch chi eu henwi?


5. Pa ddinas arall yn y byd sy'n dod i'r meddwl pan fyddwch chi'n meddwl am enw gwreiddiol Caeredin? _____

6. Beth yw'r ffurfiau Cymraeg ar yr enwau lleoedd hyn?

Melrose: _____

Lanark: _____

Ecclefechan: _____



Gwyllo a gwrando 2 - Aneirin a'r Gododdin



Geirfa:

traddodiadau

trosglwyddo

pencadlys

llenyddiaeth

trysorau

brwydr

trychinebus

cyfeiriadau

1. Pa ansoddeiriau sy'n cael eu defnyddio i ddisgrifio oes y Gododdin?

2. Ble mae llawysgrif Llyfr Aneirin erbyn hyn?

3. Llenwch y bylchau:

Mae 'Y Gododdin' yn enw ar _____, yn enw ar _____ o bobl ac yn enw ar _____ lle roedd y bobl yn byw.

4. Beth yw arwyddocâd y rhifau hyn?

1200 _____

1260 _____

5. Ble digwyddodd y frwydr y mae'r fideo'n sôn amdani? Chwiliwch am y lle ar y map.

6. 'Cerdd sy'n _____ milwyr gafodd eu lladd mewn brwydr yw'r Gododdin.' Fel arfer, mewn geiriau sy'n fwy nag unsill, mae'r pwyslais ar y goben, hynny yw, y sillaf olaf ond un, ond mae'r gair yn y bwch yn un o'r eithriadau. Un enghraifft yw'r gair am yr iaith a ddysgoch chi! Allwch chi feddwl am ragor o enghreifftiau?

i. Berfau yn gorffen â **-(h)au**: _____

ii. Berfau lle mae un sill yn dilyn **ym-** yn y sillaf gyntaf: _____

iii. Geiriau benthyc o'r Saesneg: _____

7. Llenwch y bylchau wrth wyllo:

'Yn Nheyrnas y Gododdin yr oedd pennaeth o'r enw _____, ac yr oedd yn enwog am ei _____ ac am ei wleddoedd lle yr oedd y _____ yn llifo'.

8. Allwch chi ddyfalu sut byddai'r dynion yn talu am eu diod?



Siaradwch



- Edrychwch eto ar y map. Ydych chi wedi ymweld â rhai o'r ardaloedd hyn yn Ne'r Alban neu Ogledd Lloegr?
- Mae 'Y Gododdin' yn dangos cymdeithas a oedd yn canmol rhyfelwyr dewr. Ydy hynny'n dal i fod yn rhywbeth i'w ddathlu heddiw?
- Mae'r ansoddair 'arwrol' yn cael ei ddefnyddio'n aml wrth drafod barddoniaeth Yr Hen Ogledd. Ydych chi wedi darllen llenyddiaeth neu wylïo ffilm am oesoedd arwrol? Beth sy'n wahanol am ein harwyr ni heddiw?
- Criw bach o arwyr yn wynebu gelyn llawer mwy yw hanes brwydr Catraeth a llwyth y Gododdin. Pam mae hynny'n apelio? Allwch chi feddwl am enghreifftiau eraill o hynny?

Ymarfer - Geirfa

Gyda'ch partner, llenwch y bylchau:

1. 'Nid da lle gellir gwell' oedd _____ fy ysgol.
2. Trefnon ni _____ banc er mwyn talu am yr estyniad.
3. Cynhaliodd _____ prifysgol streic undydd ddoe.
4. Doedd dim _____ i'r cais, felly dechreuwyd ar y gwaith adeiladu yn syth.
5. Mae gwledydd Prydain yn _____ llawer o geir o wledydd tramor.
6. Roedd popeth yn ymddangos yn _____ ar ôl bod yn nhywyllwch y sinema.
7. _____ yw enw'r ffin rhwng Cymru a Lloegr.
8. Mrs Jones fydd y pennaeth _____, am ddau dymor yn y lle cyntaf.
9. _____ yw prifddinas Iwerddon.
10. Bydd cau'r ysgol yn sicr o gael _____ ar y pentref.

Uned 10

Nod yr uned hon yw...

- Cyflwyno agweddau ar arholiad Defnyddio'r Gymraeg Uwch
- Cyflwyno arferion y Nadolig a'r Calan yng Nghymru

Geirfa

ael(iau)	<i>eyebrow(s)</i>
bodolaeth	<i>existence</i>
byddin(oedd)	<i>army (armies)</i>
derwen (derw)	<i>oak(s)</i>
diod feddwol	<i>alcoholic drink</i>
dyfais (dyfeisiau)	<i>device(s); gadget(s)</i>
elfen(nau)	<i>element(s)</i>
ffurfafen(nau)	<i>firmament(s)</i>
masnach(au)	<i>trade(s)</i>
newyddiaduraeth	<i>journalism</i>
padell(au)	<i>pan(s)</i>

ailgydio (yn)	<i>to resume</i>
atal (rhag)	<i>to prevent (from)</i>
brefu	<i>to bleat</i>
busnesu	<i>to pry</i>
cael gafael (ar)	<i>to keep hold (of)</i>
cipio	<i>to snatch</i>
crychu	<i>to wrinkle</i>
cyhuddo	<i>to accuse</i>
disgleirio	<i>to shine</i>
galluogi	<i>to enable</i>
gwasgaru	<i>to spread, to scatter</i>
gwirio	<i>to check</i>
gwywo	<i>to wither</i>
hwyluso	<i>to facilitate</i>
ildio	<i>to yield, to give up</i>
malu	<i>to grind</i>
tanio	<i>to light; to ignite</i>

allbwn (allbynnau)	<i>output(s)</i>
anobaith	<i>despair</i>
arweiniad	<i>leadership</i>
berfenw(au)	<i>verb-noun(s), infinitive(s)</i>
blewyn (blew)	<i>hair(s)</i>
Cefnfor Iwerydd	<i>Atlantic Ocean</i>
cwmpawd(au)	<i>compass(es)</i>
cyflaith	<i>toffee</i>
chwaraeydd (-wyr)	<i>player</i>
dryw(od)	<i>wren(s)</i>
ewin(edd)	<i>nail(s)</i>
ffugenw(au)	<i>nickname(s)</i>
garleg	<i>garlic</i>
hiwmor	<i>humour</i>
macrell (mecryll)	<i>mackerel(s)</i>
môr-leidr (môr-ladron)	<i>pirate(s)</i>
mudandod	<i>dumbness</i>
mwgyn	<i>cigarette</i>
neilon	<i>nylon</i>
pedal(au)	<i>pedal(s)</i>
prinder	<i>scarcity, lack</i>
sipsi (sipsiwn)	<i>gipsy (gypsies)</i>
tawelwch	<i>silence</i>
tywyllwch	<i>darkness</i>

barddonol	<i>poetic</i>
cawslyd	<i>cheesey</i>
echrydus	<i>appalling</i>
ffiaidd	<i>disgusting</i>
hawddgar	<i>amiable</i>
llwyr	<i>complete</i>
mân	<i>bach</i>
rhamantaidd	<i>romantic</i>

araf deg	<i>slowly and surely</i>
canu gwlad	<i>country and western</i>
dan sylw	<i>under discussion</i>
er gwell	<i>for the better</i>
fel arall	<i>otherwise</i>
gwirioneddol hoff (o)	<i>hoff iawn, iawn (o)</i>
rhywfodd	<i>somehow</i>

Geiriau pwysig i mi...

.....

.....

.....

Siaradwch - Siarad o brofiad - Disgrifiwch berson sy wedi gwneud cyfraniad mawr yn eich ardal chi.



Sut mae pobl yn helpu?

Yn eich grŵp, meddyliwch sut mae pobl yn cyfrannu at yr ardal. Beth mae pobl yn ei wneud i helpu neu i wella'r ardal? Nodwch y gweithgareddau hyn yn y blwch:

Cyfraniad cynghorwyr

Mae cynghorwyr lleol yn gallu gwneud gwaith pwysig yn yr ardal. Beth sy'n bwysig i chi? Beth rydych chi eisiau i'ch cynghorydd lleol ei wneud? Trafodwch bob un o'r isod a dewiswch y tri pheth pwysicaf. Oes rhywbeth ar goll o'r rhestr isod?

- Anghytuno â chynghorwyr mewn pleidiau eraill
- Cefnogi/Gwrthwynebu ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar yr ardal
- Codi llais dros yr ardal yng nghyfarfodydd y cyngor
- Cynnal 'syrjeris' i bobl leol
- Helpu mewn digwyddiadau yn y gymuned
- Dosbarthu papur newyddion gyda gwybodaeth i bob tŷ yn gyson
- Gweithio i wella'r cyfleusterau yn yr ardal
- Rhoi arian i grwpiau lleol
- Ymateb pan fydd pobl leol yn gofyn am gymorth

Pwy sy wedi gwneud cyfraniad mawr yn eich ardal chi?

Soniwch am:

- pwy ydy'r person a beth ydy natur y cyfraniad;
- sut dych chi'n nabod y person yma;
- un enghraifft o gyfraniad y person yn yr ardal;
- sut mae'r ardal yn cydnabod cyfraniad y person yma;
- Tasech chi'n ysgrifennu llyfr am y person yma, beth fasa'r teitl? Pam?



Gwybodaeth o iaith - Aralleirio

Gyda'ch partner, llenwch y bylchau yn y darn isod.

_____ Bartholomew Roberts ei eni ym mhentref Casnewydd-bach yn sir Benfro tua'r flwyddyn 1682. Mae'n bosibl _____ John Roberts oedd ei enw'n wreiddiol, ond iddo gymryd yr enw Bartholomew pan _____ (dod) e'n fôr-leidr. Mae e'n cael ei adnabod _____ y Cymry fel Barti Ddu.

Aeth Barti i'r môr ar long fasnach pan oedd yn fachgen ifanc. Ym 1719, cafodd ei long ei chipio gan fôr-ladron dan arweiniad Cymro arall _____ enw Hywel Davies. Ymunodd Barti _____'r môr-ladron, ac erbyn _____ Davies gael ei ladd chwe wythnos yn ddiweddarach, roedd Roberts wedi ennill digon o barch ac wedi dangos digon o awdurdod i gael ei ddewis yn gapten ar y llong.

Dros y pedair _____ (blwyddyn) nesaf, datblygodd Barti Ddu i fod yn un o'r môr-ladron _____ llwyddiannus erioed. Ymosododd ar longau'r holl ffordd ar hyd arfordir America, cyn hwylio'n ôl i'r Caribî. Roedd masnach ym môr y Caribî bron â dod i _____ oherwydd gweithgareddau Bartholomew Roberts. Doedd bywyd môr-leidr byth yn hir oherwydd bod y gwaith mor _____ (peryglus), ond buodd e fyw yn hirach _____'r un capten arall. Roedd rhai capteiniaid yn cael eu lladd mewn brwydrau, rhai gan eu criwiau eu hunain, a rhai'n marw ar ôl

yfed gormod. O leiaf doedd Roberts ddim _____ perygl o ddiodeff o broblem alcohol, oherwydd doedd e'n yfed _____ ddim o'r ddiodeff feddwl.

Parhaodd Roberts a'i griw i ddwyn ar ochr draw'r lwerydd, ger arfordir Affrica. Ond ym mis Chwefror 1773, cyfarfu â llong ryfel Brydeinig, sef *HMS Swallow*. Yn anffodus, roedd y _____ fwyaf o griw Roberts naill ai wedi meddwi _____ 'n sâl ar ôl dathlu cipio llong arall y noson gynt. Bu farw Bartholomew Roberts wrth i'r ergyd gyntaf daro'i long.

_____ (taflu) ei gorff dros ochr y llong gan y criw, yn _____ na gadael i'r Llynges Frenhinol gael gafael arno fe. Heb _____ arweinydd, ildiodd y criw'n fuan. Ar ôl sefyll eu prawf, cafodd 54 o fôr-ladron eu crogi, derbyniodd 37 _____ nhw gosbau llai a chafwyd 74 yn ddieuog.

Ymarfer

To become

Mae dwy ffordd o ddweud *to become* – **mynd yn** neu **dod yn**. Yn y darn uchod, rydych chi'n gweld:

pan ddaeth e'n fôr-leidr

Fel arfer, rydyn ni'n defnyddio **dod yn** pan fydd rhywbeth **da** yn digwydd, a **mynd yn** pan fydd yr ystyr yn fwy **negyddol**:

Mae hi'n **dod yn** athrawes fach dda.

Mae hi'n **mynd yn** dywyll erbyn pedwar o'r gloch yn y gaeaf.

Llenwch y bylchau:

1. Mae e'n _____ bêl-droediwr bach da.
2. Mae e'n _____ anodd ei drin.
3. Dw i'n gwybod fy mod i'n _____ hen achos dw i angen fy sbectol bob munud.
4. Rwyd ti'n _____ wallgof!
5. Bydd hi'n _____ bartner yn y cwmni y flwyddyn nesaf.
6. Bydd e'n _____ enwog ar ôl ennill sioe dalent ar y teledu.
7. Mae'r bwloch rhwng y tlawd a'r cyfoethog yn _____ fwy.
8. Ydych chi eisiau helpu pobl yn eich cymuned? Beth am _____ gynghorydd lleol?

Mewn

Yn y darn, rydych chi'n gweld **mewn perygl**. Rydyn ni'n defnyddio **mewn** gyda geiriau haniaethol (*abstract*). Cyfieithwch:

in love _____

in hope _____

in fear _____

in faith _____

in truth _____

in despair _____

in silence _____

in darkness _____

Siaradwch – yn hytrach na

Trafodwch y datganiadau isod. Ydych chi'n cytuno?

- Dylen ni hedfan o Faes Awyr Caerdydd yn hytrach na theithio i feysydd awyr yn Lloegr.
- Dylai pawb allu cerdded i mewn i feddygfa yn hytrach na threfnu apwyntiad ymlaen llaw.
- Dylai myfyrwyr gael grantiau yn hytrach na benthyciadau.
- Dylen ni roi arian i elusen yn hytrach nag anfon cardiau Nadolig.

Gwranddo – Trafodaeth

Yma, mae Emyr Davies yn holi Branwen a Gareth am eu barn ar dechnoleg. Atebwch y cwestiynau ar sail y wybodaeth yn y darn. Cyn gwranddo, nodwch o leiaf chwe gair y basech chi'n disgwyl eu clywed mewn trafodaeth ar dechnoleg.

1. Mae Branwen yn defnyddio'r tabled...

- a. i edrych ar Twitter.
- b. i brynu pethau.
- c. i ffonio ffrindiau.
- ch. i dynnu lluniau.

2. Mae gwefannau cymdeithasol yn galluogi Branwen...

- a. i hyrwyddo ei gwaith.
- b. i gysylltu â hen ffrindiau.
- c. i brynu pethau.
- ch. i weld newyddion y byd.

3. Ym marn Gareth, mae gormod o bobl yn defnyddio Twitter i hyrwyddo...

- a. lluniau.
- b. busnesau.
- c. cyngherddau.
- ch. eu hunain.

4. Yn ôl Gareth, mae perygl bod newyddiadurwyr...


- a. yn bwlio pobl eraill ar y gwefannau cymdeithasol.
- b. yn cuddio tu ôl i ffugenw.
- c. yn anghofio am fanteision y dechnoleg.
- ch. ddim yn gwirio'r storïau sy'n ymddangos ar Twitter.

5. Yn ôl Branwen, mae'r bobl sy'n bwlio ar y we neu'r 'trolls'...

- a. yn dweud celwyddau am bobl eraill.
- b. wedi achosi problemau mawr iddi hi ei hun.
- c. yn debygol o gael eu dal a'u cosbi.
- ch. yn mynd i gynyddu.

6. Yn ôl Gareth, un o beryglon technoleg yw...

- a. bod rhywun yn cadw golwg ar beth sy'n cael ei ddweud.
- b. bod pobl yn peidio â siarad â'i gilydd.
- c. bod gwybodaeth bersonol yn cael ei rhoi ar lwyfan cyhoeddus.
- ch. bod pobl yn dibynnu gormod ar ddyfeisiau fel y ffôn.



Siaradwch



- Ydych chi'n cytuno bod technoleg wedi gwneud bywyd yn haws?
- Ydych chi'n poeni bod y 'brawd mawr' yn eich gwylio chi?
- Cafodd y sgwrs ei recordio yn 2017. Ydych chi'n meddwl y basai eu sgwrs yn wahanol erbyn hyn? Os felly, sut?
- Beth fydd y datblygiadau nesa ym maes technoleg?

Siaradwch – Pwnc llosg – “Mae pobl yn rhy brysur i goginio”



Llenwch y bylchau yn y darn isod. Does dim ateb cywir nac anghywir – mae'n dibynnu ar eich barn.

Dylai bwyta fod yn brofiad _____. Ond mae ein harferion bwyta wedi newid dros y blynyddoedd. Rydyn ni'n bwyta allan yn llawer amlach erbyn hyn. Ac mae nifer ohonon ni'n dibynnu ar fwydydd parod. Ond dyma ychydig o gynghorion i chi:

- Mae'n bwysig _____ ar gyfer yr wythnos gyfan a sicrhau bod popeth gyda chi yn eich cypyrddau.
- Mae pobl yn mwynhau _____ yn eu deiet – mae'n ddiflas bwyta'r un pethau bob amser.

- Defnyddiwch lawer o _____ yn eich bwyd.
- Gwnewch ddefnydd llawn o'ch _____.

Siaradwch ag o leiaf chwe aelod o'r dosbarth am eu harferion coginio nhw:

Enw	Ble dysgoch chi goginio?	Dych/Dach chi'n bwyta llawer o fwydydd parod?	Dych/Dach chi'n prynu llyfrau coginio?	Dych/Dach chi'n dilyn ryseitiau ar y we, neu bobl sy'n coginio mewn fideos ar y we?



Edrychwch ar y mecryll a'r salad cynnes yn cael eu paratoi. Ym mha drefn mae'r cynhwysion yn cael eu hychwanegu i wneud y salad cynnes? Nodwch un peth am bob un o'r cynhwysion:

ffa gwyrdd	_____	_____
garlleg	_____	_____
letys	_____	_____
olew olewydd	_____	_____
tsili	_____	_____

Yn olaf, yn eich grŵp, trafodwch "Mae pobl yn rhy brysur i goginio".



Gwybodaeth o iaith – Dewis y ffurf gywir

Gyda'ch partner, ailysgrifennwch y frawddeg gan ddefnyddio'r sbardun mewn prif lythrennau. Dylai'r frawddeg newydd fod mor agos â phosib at y frawddeg wreiddiol o ran ystyr. Mae'n bosib y bydd angen treiglo'r gair sbardun yn yr ateb.

- 1.** Ces i gacen hyfryd gyda fy nhe yn nhŷ bwyta'r Ardd ddoe. **ROEDD**
 _____ gyda fy nhe yn nhŷ
 bwyta'r Ardd ddoe yn hyfryd.
- 2.** Beth roedd hi'n ei feddwl o'r ffilm? **BARN**
 _____ am y ffilm?
- 3.** Arhosodd aelodau'r côr allan ymhell wedi hanner nos yn dathlu **MÂN**
 eu buddugoliaeth yn yr eisteddfod.
 Roedd aelodau'r côr allan _____
 yn dathlu eu buddugoliaeth yn yr eisteddfod.
- 4.** Cafodd Dafydd ei gyhuddo o wneud rhywbeth drwg iawn. **TROSEDD**
 Cafodd Dafydd ei gyhuddo o _____.
- 5.** Doedd dim digon o lyfrau, felly roedd rhaid i ni rannu. **PRINDER**
 _____, felly roedd rhaid i ni rannu.
- 6.** Mae modd ffrio wy i ti, neu ei ferwi. **WEDI**
 Gelli di gael _____.
- 7.** Mae'r Jonesiaid yn Sbaen am chwarter yr amser bob blwyddyn. **MIS**
 Mae'r Jonesiaid yn treulio _____
 bob blwyddyn.
- 8.** Gallwch chi ddibynnu ar Siôn – mae'n gwneud y dewis iawn **PERSON**
 bob tro.
 Mae Siôn yn _____ –
 mae'n gwneud y dewis iawn bob tro.



Help llaw

Yn rhif **1**, rhaid i chi ddweud **y gacen**. Mae **cacen** yn treiglo ar ôl **y** achos ei fod e'n enw benywaidd unigol. Dyma rai rheolau i'ch helpu chi i wybod a yw gair yn wrywaidd neu'n fenywaidd:

Geiriau gwrywaidd		
Categori	Enghreifftiau	Eithriadau
dyddiau'r wythnos	dydd Llun, dydd Mawrth	
y misoedd	mis Mawrth, mis Gorffennaf	
y tymhorau	y gwanwyn, y gaeaf	
y prif wyliau	y Pasg, y Nadolig	
pwyntiau'r cwmpawd	y gogledd, y dwyrain	
defnyddiau	cotwm, lledr, neilon	
elfennau naturiol	eira, glaw, nwy, glo, tywydd	
hylifau	coffi, cwrw, petrol	
berfenwau	canu, ymarfer	
pan fydd rhan o'r corff yn beth unigol	trwyn, pen, wyneb, tafod	ceg, calon
rhan o'r corff pan fydd mwy na dau ohonyn nhw	blewyn, ewin, dant, bys	
yr ôl-ddodiaid yma	-ad, -adur, -al, -aint, -awd, -awdwr, -cyn, -deb, -der, -did, -dod, -dra, -dwr, -edd, -fel, -i, -iant, -id, -ineb, -mon, -od, -ol, -rwydd, -wr, -ych, -yd, -ydd, -yn	gwlad
Mae enwau sy'n cynnwys y neu w yn tueddu i fod yn wrywaidd.	bryn, llyn, mynydd, dŵr, drws, sŵn	
Mae benthyciadau'n tueddu i fod yn wrywaidd.	bws, trê'n, rygbi, golff, ffôn	gêm

Geiriau benywaidd		
Categori	Enghreifftiau	Eithriadau
nosweithiau'r wythnos	nos Lun, nos Fawrth	
afonydd	Taf, Dyfrdwy, Nîl	
coed	derwen, ywen	
gwledydd	Cymru, Ffrainc	
pentrefi, trefi a dinasoedd	Aberystwyth, Bangor, Caerdydd	
enwau mynyddoedd	Yr Wyddfa, Everest	
mathau o ffyrdd	lôn, ffordd, heol, traffordd	llwybr
llythrennau'r wyddor	e.e. dwy R	
llawer o enwau torfol	pobl, torf/tyrfa, byddin, haid	
llawer o ddillad	esgid, maneg, siwmpwr, het, sgarff, sgert, hosan, blows	cap, trowsus, crys
Pan fydd rhan o'r corff yn un o bâr	braich, coes, llaw, troed	
Yr ôl-ddodiaid yma	-ach, -aeth, -as, -eb, -eg, -ell, -en, -es, -fa, -in, -oedd, -red, -wraig	gwasanaeth, gwahaniaeth, hiraeth, lluniaeth, bachgen, morfa
Mae enwau sy'n cynnwys e neu o yn tueddu i fod yn fenywaidd.	gwên, tref, llen, llong, ton	pamffled

Mae **dwyrain o dair** o enwau Cymraeg yn rhai gwrywaidd!

Dewiswch ansoddair o'r blwch isod i'w roi ar ôl yr enwau hyn:

bwthyn _____ cynnydd _____

Ffrainc _____ llythyr _____

penderfyniad _____ plentyn _____

polisi _____ swyddfa _____

Taf _____

bodddhaol byddar cynaliadwy cyfrinachol canlynol gwledig
diarffordd prysur troellog



Cymraeg ffurfiol - Geirfa

Byddwch chi weithiau'n dod ar draws ychydig o eiriau sy'n ffurfiol iawn. Dyma rai enghreifftiau. Ydych chi'n gallu dyfalu beth ydyn nhw?

chwi	_____
ef	_____
hwy	_____
paham	_____
megis	_____
parthed	_____
drachefn	_____
oblegid	_____
myned	_____
dyfod	_____
ymhle	_____
ebe	_____

Y pwynt arall i'w gofio am eirfa yw yr ysgrifennir geiriau yn eu **ffurf lawn** mewn Cymraeg ffurfiol, e.e.

stafell > ystafell molchi > ymolchi

Dyma ddwy enghraifft o Gymraeg ffurfiol:

"Paham mae dicter, o Myfanwy?" (geiriau Joseph Parry)

Parthed: Prisiau prydau bwyd. (Cyngor Rhondda Cynon Taf)

Beth yw'r isod mewn Cymraeg llafar?

1. "Rhaid cychwyn," ebe ef drachefn.

2. I chwi mae'r llythyr hwn.

3. Gwelais hwy yn myned.

4. Bydd yn dyfod yn y car oblegid y glaw.

5. Ymhle y maent hwy'n cadw eu hesgidiau?

Cefndir – Arferion y Nadolig a'r Calan yng Nghymru



Mae gan Gymru lawer o hen draddodiadau diddorol sy'n gysylltiedig â'r Nadolig a'r Calan, ac mae llawer ohonyn nhw'n dal yn fyw heddiw.

Byddwch chi a'ch partner yn cael dau gerdyn yr un, sy'n cynnwys gwybodaeth lawn am rai o'r traddodiadau hyn. Gwrandewch ar eich partner yn darllen ei gardiau, a llenwch y bylchau isod.

Noson Gyflaith

Arfer traddodiadol _____ i ddathlu'r Nadolig neu'r Flwyddyn Newydd oedd cynnal Noson Gyflaith. Roedd teuluoedd yn _____ ffrindiau i'w cartrefi am swper mawr (gŵydd a phwddin Nadolig fel arfer). Wedyn, roedden nhw'n _____, yn adrodd storïau ac yna'n gwneud cyflaith.

I ddechrau, roedd yn rhaid _____, sef triog du, triog melyn, siwgr gwyn a menyn. Wedyn, roedden nhw'n iro llechen neu _____, ac yn arllwys y gymysgedd arni hi. Weithiau, roedden nhw'n glanhau carreg yr aelwyd ac yn ei defnyddio hi at y diben hwnnw. _____ tynnu'r cyflaith tra oedd yn dal yn gynnes. Roedd pawb yn cael tro, ac yn ceisio tynnu'r cyflaith nes ei fod fel rhaffau melyn. _____! Roedd pawb yn cael tipyn o hwyl wrth weld ymdrechion trychinebus y rhai dibrofiad!

Canu Calennig

Mae'r arfer o gael anrhegion ar Ddydd Calan yn _____. Yng Nghymru, yr enw ar y _____ yma yw casglu calennig, neu ganu calennig.

Hyd heddiw, yn gynnar ar Ddydd Calan fe welwch chi _____ yn mynd o dŷ i dŷ i ddymuno iechyd a llwyddiant i bawb ar gyfer _____. Byddan nhw'n canu _____ arbennig i'r bobl sy'n eu croesawu, ac yna'n cael arian neu losin cyn mynd ymlaen i'r tŷ nesaf. Yn y gorffennol roedd plant yn cario _____ wedi'u haddurno ag ŷd a dail bytholwyrdd, yn symbol o iechyd a llwyddiant.

Dyma un o'r penillion Calan mwyaf _____:

Blwyddyn Newydd Dda i chi,
Ac i bawb sydd yn y tŷ,
Dyma yw'n dymuniad chi,
Blwyddyn Newydd Dda i chi.

Yr Hen Galan

Traddodiad diddorol sy wedi parhau yng Nghwm Gwaun yw dathlu'r Hen Galan, sef dathlu'r flwyddyn newydd _____. Dyna pryd arferai pobl ddathlu'r Calan dan y calendr Iwlaidd. Yn 1752, cafodd y calendr Iwlaidd ei ddisodli gan y calendr Gregoraidd, ond roedd pobl Cwm Gwaun yn amharod iawn i _____ y newid hwn.

Yn yr un ffordd â'r Canu Calennig ar Ionawr y cyntaf, bydd plant Cwm Gwaun yn mynd _____ yn canu i ddymuno iechyd a llwyddiant i bawb, ac yn cael arian neu losin yn wobr. Bydd oedolion yn dathlu gyda'i gilydd yn nhafarn enwog y Dyffryn Arms, sydd yn yr un teulu ers 1840. _____, roedd yr Hen Galan yn fwy o dathliad na'r Nadolig, felly roedd twrci neu ŵydd i ginio yn gyffredin.

Hela'r Dryw

Roedd hela'r dryw yn ddefod boblogaidd drwy'r gwledydd _____. Yn fras, roedd criw o ddynion yn dal dryw ac yn ei gadw mewn blwch neu gawell, a oedd yn aml wedi'i addurno _____. Roedden nhw wedyn yn _____ o dŷ i dŷ gyda'r dryw, i ofyn am fwyd, diod neu arian. Roedd aelodau o'r grŵp yn dal pastwn, picell neu arfau eraill wedi'u haddurno â rhubanau neu glychau, yn debyg i orymdaith y Fari Lwyd. Roedd yr arfer yn tarddu o ddefodau cyn-Gristnogol i ddathlu duw'r goleuni (sef yr haul) drwy aberthu _____ (sef y dryw bach). Mae'n dilyn diwrnod byrraf y flwyddyn (Alban Arthan), ac yn dathliad fod yr haul yn codi'n gynt o hynny ymlaen. _____, y dryw – yr aderyn lleiaf – yw brenin yr adar mewn llawer o _____

eraill. Mewn rhai ieithoedd, mae'r gair 'brenin' yr un peth â'r gair 'dryw.'
 _____ yr arferiad hwn o Gymru tua 1890, yn bennaf
 oherwydd ymgyrchwyr a oedd yn _____ creulondeb tuag at
 anifeiliaid.

Gwyllo a gwrando 1 - Y Plygain



Byddwch chi'n gwyllo Felicity Roberts yn siarad am gôr CYD, sy'n canu mewn llawer o wasanaethau Plygain. Bydd hi hefyd yn esbonio beth yw'r Plygain, a pham mae e'n draddodiad mor arbennig ac unigryw.

1. Mae Felicity'n dweud mai Maldwyn yw **cadarnle**'r Plygain.

Yn ôl *Geiriadur Gomer*, ystyr cadarnle yw 'man diogel lle y gall rhywbeth dyfu a datblygu' (*stronghold* yn Saesneg). Gyda'ch partner, lluniwch frawddeg yn cynnwys **cadarnle** a'i nodi isod.

Gyda'ch partner, ysgrifennwch esboniad Cymraeg o ystyr y geiriau isod, sydd hefyd yn dod o'r gair **cadarn**.

cadarnhad _____

cadarnhaol _____

cadernid _____

2. Yn y blwch isod, nodwch o leiaf bum ffaith arall rydych wedi'u dysgu am y Plygain.

3. Defnyddir yr ymadrodd **wrth gefn** yn y fideo, sef *in reserve* yn Saesneg. Allwch chi feddwl am unrhyw eiriau neu ymadroddion eraill sy'n cynnwys **cefn**? Nodwch nhw yn y blwch isod.

Siaradwch



Mae côr CYD yn rhoi cyfle i ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg gymdeithasu gyda'i gilydd. Ydych chi'n gwneud unrhyw weithgaredd cymdeithasol i ymarfer eich Cymraeg? Os nad ydych chi, pa fath o weithgareddau yr hoffech chi eu gwneud yn eich ardal chi?

Gwyllo a gwrando 2 - Y Fari Lwyd



Byddwch chi'n gwyllo rhan o'r rhaglen *Straeon Tafarn*, lle mae Dewi 'Pws' Morris yn dysgu am draddodiad y Fari Lwyd yn ardal Llangynwyd.

1. Pa fath o greadur yw'r Fari Lwyd?

2. Pryd mae pobl Llangynwyd yn mynd o gwmpas gyda'r Fari?

3. Ym mha ffordd y byddai'r Fari Lwyd yn moderneiddio yn y dyfodol, yn ôl y dyn yn yr hen fideo du a gwyn?

4. Beth yw pwnco?

5. Yn ôl Allan James, beth oedd ystyr wreiddiol defod y Fari Lwyd?

6. Pam daeth yr arfer i ben am gyfnod yn 1914-15?

Siaradwch



- Gyda'ch partner, trafodwch y llun ar ddechrau'r adran hon. Allwch chi esbonio popeth sy ynddo fe?
- Oes gennych chi a'ch teulu neu'ch ffrindiau arferion arbennig yn ymwneud â'r Nadolig a'r Calan, neu unrhyw wyliau eraill?



Gwaith cartref

Gwaith cartref – Uned 1



1. Gwybodaeth o iaith – yn llygad dy le

Os wyt ti'n hollol gywir, byddwn ni'n dweud dy fod ti **yn llygad dy le**. Addaswch yr ymadrodd hwn i ddweud bod gwahanol bobl yn hollol gywir:

Dw i **Rydyn ni**

Rwyt ti yn llygad dy le. **Rydych chi**

Mae e/o **Maen nhw**

Mae hi

2. Cymraeg ffurfiol

Nodwch yma unrhyw enghreifftiau o Gymraeg ffurfiol rydych chi wedi'u gweld yn ddiweddar:

3. Darllen

Darllenwch y llythyrau isod, ac atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn eich geiriau eich hun.

Llythyr 1

Pennaeth y Brifysgol

Swyddfa'r Pennaeth

Prifysgol y Llan

1 Ebrill 2020

Annwyl Syr,

Ysgrifennaf i fynegi fy mhryder ynglŷn â'r bygythiad i neuadd Ann Griffiths. Mae straeon ar led ers tro am ddyfodol y neuadd, ac ar ran Cymdeithas Gymraeg y myfyrwyr, hoffwn ddatgan ein bod yn gwrthwynebu cau'r neuadd yn chwyrn.

Dim ond lleiafrif o blith y myfyrwyr sy'n dod o'r tu hwnt i glawdd Offa, ond mae'n ymddangos i ni fod y brifysgol yn rhoi mwy o bwyslais ar gadw'r garfan honno'n hapus na dim byd arall. Y garfan sy'n byw yn neuadd Ann Griffiths yw'r olaf i gael gwybod beth sy'n digwydd, a'r neuadd ei hun yw'r olaf i gael sylw. Pe bai'r brifysgol wedi gwneud gwaith cynnal a chadw arni dros y blynyddoedd, fyddai dim angen gwneud cymaint o waith arni erbyn heddiw.

Mae trigolion y neuadd yn pryderu'n fawr beth fydd yn digwydd y flwyddyn nesaf, pan fyddwn yn dychwelyd ar ôl gwyliau'r haf. Mae rhai wedi cael ar ddeall fod angen iddyn nhw chwilio am lety preifat yn y dref, ond mae eraill heb glywed dim. Rhaid i ni gael gwybod cyn i bawb fynd adre dros wyliau'r haf neu bydd hi'n draed moch ym mis Hydref. Mae'n hollbwysig bod y myfyrwyr sy'n siarad Cymraeg yn cael llety yn yr un neuadd, a neuadd Ann Griffiths yw cartref y myfyrwyr hynny ers degawdau bellach. Trwy chwalu'r gymdeithas honno, bydd y myfyrwyr Cymraeg yn cael eu rhannu a'u gwahanu ac yn llai tebygol o gael hyd i gyfeillion (a phartneriaid) trwy gyfrwng eu hiaith. Os yw'r Gymraeg yn bwysig o gwbl i'r brifysgol, mae angen gwarchod enw'r neuadd a'i chadw fel lle y mae disgwyl i'w drigolion siarad Cymraeg. Mae storïau yn y wasg eich bod yn bwriadu newid yr enw i Neuadd y Tywysog Wiliam; mae'n rhaid i chi sylweddoli y byddai hyn yn cynddeiriogi pawb ymhellach.

Os oes rhaid cau'r neuadd er mwyn gweithio arni, a wnewch ein sicrhau mai rhywbeth dros dro fydd hynny, ac y bydd enw a thraddodiad Ann Griffiths yn cael eu cynnal er lles y brifysgol a'r iaith? Mae'r myfyrwyr yn benderfynol o gynyddu'r protestio hyd nes i awdurdodau'r brifysgol ddod at eu coed. Edrychaf ymlaen at dderbyn eich ymateb i'r llythyr hwn.

Yn gywir,

Elen Morus

Cymdeithas Gymraeg

Neuadd Ann Griffiths

Llythyr 2

Elen Morus

Cymdeithas Gymraeg y Myfyrwyr

Neuadd Ann Griffiths

2 Ebrill 2020

Annwyl Ms Morus,

Diolch am eich llythyr am ddyfodol neuadd Ann Griffiths. Hoffwn fanteisio ar y cyfle i dawelu rhai o'ch pryderon ac i gywiro rhai camsyniadau. Rhaid cyfaddef bod y protestiadau diweddar wedi peri syndod i'r brifysgol ac i minnau, yn enwedig gan na ddaeth llawer o sylwadau negyddol i'r fei drwy'r holiadur a anfonwyd at y myfyrwyr y llynedd. Roedd y mwyafrif i'w gweld yn fodlon â'r hyn roedd y brifysgol yn ei wneud.

Fel yr awgrymir yn eich llythyr, mae gwir angen gwneud gwaith ar yr adeilad gan nad yw bellach yn addas i letya myfyrwyr. Os ydyn ni'n mynd i ddenu mwy o fyfyrwyr o Loegr neu o dramor, rhaid i ni wella ansawdd yr ystafelloedd. Hoffwn eich sicrhau na fydd myfyrwyr yn gorfod chwilio am dai preifat yn y dref y flwyddyn nesaf, gan fod cynllun gennym i addasu dwy neuadd lai, a dylai'r rhain fod yn barod erbyn mis Medi. Rydych yn llygad eich lle: bydd rhaid rhoi gwybod i'r myfyrwyr presennol mewn da bryd, a byddwn yn gwneud hynny dros yr wythnosau hynny cyn bod y tymor yn dod i ben.

Testun gofid oedd y protestio a fu yn swyddfeydd canolog y brifysgol yr wythnos diwethaf. Wrth gwrs, rydym yn parchu hawl myfyrwyr i brotestio'n heddychlon, i ddwyn pwysau trwy ddeiseb ac ati, ond roedd peintio sloganau ar y waliau dros nos yn annerbyniol. Mae'r heddlu'n ymchwilio ac mae ganddynt dystiolaeth fideo o'r hyn a ddigwyddodd. Os bydd tystiolaeth yn dod i'r amlwg eich bod yn rhan o brotest anghyfreithlon, fyddwch chi ddim cael ymuno â chwrs ôl-radd addysg yma. Ni all y brifysgol oddef protestiadau treisgar, a byddwn yn cydweithio â'r heddlu i sicrhau bod troseddwr yn cael eu herlyn.

Gallaf gywiro un camagraff. Fydd yr enw 'Neuadd Ann Griffiths' ddim yn cael ei newid, fel yr awgrymwyd mewn stori wirion yn y papur lleol yn ddiweddar – byddai hynny'n loes calon i mi'n bersonol. Da chi, peidiwch â chredu pob dim sy'n cael ei ddweud na'i ysgrifennu yn y wasg ac edrychwn ymlaen at gyd-drafod dyfodol y neuadd er lles y brifysgol a'r myfyrwyr.

Yr eiddoch yn gywir,

John Morgan

Pennaeth Prifysgol y Llan

i. O ble mae'r rhan fwyaf o fyfyrwyr y Brifysgol yn dod, yn ôl Elen Morus?

.....

.....

ii. Sut gallai cau'r neuadd newid y ffordd mae'r myfyrwyr Cymraeg yn cymdeithasu, yn ôl Elen Morus?

.....

.....

iii. Pam roedd John Morgan wedi synnu at y protestio?

.....

.....

iv. Beth fydd yn digwydd i fyfyrwyr y neuadd y flwyddyn nesa mewn gwirionedd?

.....

.....

v. Sut gallai protestio effeithio ar yrfa Elen Morus?

.....

.....

vi. Nodwch dri pheth y mae'r ddau lythyrwr yn cytuno y dylid eu gwneud:

.....

.....

.....

.....

4. Ysgrifennu

Mae bwriad i adeiladu archfarchnad newydd yn eich tref leol, ond mae llawer o bobl yn anhapus am hyn. Ysgrifennwch erthygl ar gyfer eich papur lleol gan gyfeirio at:

- gefndir y cais;
- y dadleuon o blaid ac yn erbyn yr archfarchnad;
- beth fydd yn digwydd nesa.

Dylech chi ysgrifennu rhwng 190 a 210 o eiriau.

Gwaith cartref – Uned 2



1. Gwybodaeth o iaith – Yr Amhersonol

Ailysgrifennwch y brawddegau hyn gan ddefnyddio **-wyd**.

i. Agorodd y Prif Weinidog orsaf newydd Aberwylan.

.....

ii. Derbyniodd y cyngor dros ddau gant o gwynion.

.....

iii. Arestiodd yr heddlu bump o bobl.

.....

iv. Enwodd yr hyfforddwr y garfan yn hwyr neithiwr.

.....

2. Darllen

Darllenwch y darn ac atebwch y cwestiynau.

Safai Ffion yn nrws y Selar ar Stryd y Farchnad. Roedd y dafarn wedi newid ei henw dair gwaith ers i Ffion ddechrau yn y coleg. Bar pŵl ydoedd ar y dechrau, ac yna fe'i trawsnewidiwyd yn far coctels ac, yn fwyaf diweddar, yn dafarn gyffredin ac ynddi ddigon o le yn ei phrif ystafell i gynnal gigs. Dôl sŵn band ifanc o'r llwyfan yng nghefn yr adeilad, gitâr trwm yn rhwygo riff aflonydd o gofiadwy drwy'r adeilad.

Wedi i Ffion feddwl am y peth, roedd y lle wedi newid ei enw bron yr un faint o weithiau ag yr oedd hi wedi newid ei chriw ffrindiau. Ymuno'n betrus oedd ei harfer, a rhyw lynu wrth un neu ddwy gyfeillgar cyn araf lithro o'u sylw a thafllu rhaff at haid arall o ferched nad oedd hi ond yn eu lled-adnabod. Roedd y criw diweddaraf rywle wrth y bar neu o flaen y llwyfan neu wedi symud ymlaen i'r Llew, efallai. Doedd Ffion ddim yn siŵr. Safai'r smociwrs ar y pafin y tu ôl iddi'n clebran ac yn chwerthin ar ryw feddwyn ansicr ei gam a oedd wedi straffaglu allan o'r Court Royale ar ochr arall y sgwâr. Roedd Ffion wedi cynnau digonedd o sigarêts dros y blynyddoedd, ac wedi rhoi'r gorau iddi bob tro rhag dihysbyddu ei chyfrif banc. Ciledrychdodd yn genfigennus ar y giwed fyglyd. Roedd gan smociwr wastad gwmni parod. Ond doedd fiw iddi wneud, a hithau'n gwybod ers tro fod yr arian a'i cadwai yn y coleg yn brin.

Daeth y gân i ben gyda sŵn cymeradwyo ac ambell sgrech. Roedd Ffion ar fin dychwelyd i'r bar am botelaid arall pan deimlodd ei ffôn yn dirgrynu yn ei phoced. Gwelodd enw ei thad. Gwgodd ar y sgrin fechan. Roedd hi wedi anghofio ei ffonio'r prynhawn hwnnw fel yr addawsai ac, ar ben hynny, roedd hi wedi dechrau meddwi. Nos Wener oedd hi wedi'r cyfan, ac roedd yfed hyd lewyg weithiau'n haws na gorwedd ar ei phen ei hun mewn tŷ gwag. Rhoddodd ei photel wag ar lawr mewn cornel a chamodd i'r stryd. Sugnodd yr oerfel i'w hysgyfaint a cheisio dyfalu faint o effaith roedd tair potel ac un fodca wedi ei chael ar ei llais. Crynodd y ffôn yn ei llaw.

'Helô.'

'Sut wyt ti, Ffion? Sori i styrbio mor hwyr. Allan wyt ti?'

'Ar ffor' adre. Chithe?'

'Tsampion. Wedi troi'r gwres 'mlaen heno. Ma hi 'di oeri beth gythrel 'ma.'

'Ddrwg genna i anghofio pawns 'ma. Sgwennu o'n i.'

'Go dda. Rheitiach iti na gwamalu 'fo hen glown fel fi.'

'Sut 'dech chi efo'r tywydd?'

'Da iawn, wst ti. Ma'r tabledi'n gneud 'u gwaith. Fuodd Elan a'i mam yma pawns'ma. Pawb yn gofyn amdanat ti, ac Elan yn deud 'i bod hi'n setlo yn 'rysgol. Meddwl 'set ti isio gwbod 'i bod hi am neud teisan i'r steddfod, ond am anfon darn atat ti. Os na fyddi di adre cyn hynny?'

Oedodd Ffion. Roedd Elan yn byw yn y pentref ac yn ferch i fam ddjarhebol o gymwynasgar. Oni bai amdanynt, gwyddai Ffion ei bod yn annhebygol y gwelai ei thad yr un enaid byw o'r naill wythnos i'r llall. Roedd Elan yn ystyried Ffion yn un o'i ffrindiau. Ond roedd Elan yn un ar ddeg oed, ac yn ffrind i bawb. Hi hefyd oedd yr unig ferch arall yn y pentref, ac fe eilunaddolai Ffion am mai hi oedd yr unig un a adawsai ar antur gyffrous i goleg ger y lli. Gwridodd Ffion wrth ddychmygu'r ferch fach yn ei gweld hi'n cerdded adref ar ei phen ei hun bob nos i dŷ oer.

'Sa well 'mi aros yma tan 'mod i 'di gorffen y traethawd.'

'lawn 'ti, wrth gwrs. Hynny sy ora.'

Teimlodd Ffion hen gnoi yn ei stumog. Bu'n agos i gloffni ei thad fynd yn rheswm iddi beidio â mynd i'r coleg yn y lle cyntaf, a throeon wedyn yn rheswm i adael. Ond daeth i sylweddoli hefyd dros amser y gwnâi les i'w thad fyw'n annibynnol, a synhwyrodd, er gwaethaf ei hunigrwydd yn y coleg, fod rhyw ran ystyfnig ohoni a fwynhâi ei rhyddid ymhell o fynyddoedd llwm ei magwraeth.

1. Pa fath o le ydy'r Selar?

- a. bar pŵl
- b. bar coctels
- c. tafarn gyda cherddoriaeth fyw
- ch. llwyfan i fandiau ymarfer

2. Doedd Ffion ddim yn ysmegu oherwydd...

- a. doedd hi ddim yn hoffi cwmni'r smygwyr.
- b. doedd e ddim yn beth iach i'w wneud.
- c. roedd hi'n rhy oer.
- ch. roedd e'n rhy ddrud.

3. Sut ffrindiau oedd gan Ffion yn Aberystwyth?

- a. Roedd hi'n ffrindiau â'r ysmygwyr eraill.
- b. Roedd hi mewn grŵp mawr o'r un ffrindiau ers y dechrau.
- c. Roedd ganddi un ffrind agos.
- ch. Roedd hi'n newid ffrindiau'n aml.

4. Aeth Ffion allan o'r bar oherwydd...

- a. ei bod hi ddim yn gallu fforddio mwy o gwrw.
- b. bod y grŵp wedi gorffen y cyngerdd.
- c. ei bod hi wedi cael galwad ffôn.
- ch. ei bod hi wedi meddwi ac angen awyr iach.

5. Roedd Ffion yn falch fod Elan a'i mam yn byw'n agos, oherwydd...

- a. ei bod hi'n ffrind da.
- b. eu bod nhw'n gallu cadw llygad ar ei thad.
- c. eu bod nhw'n gwneud cacennau.
- ch. doedd neb arall yn byw'n agos.

6. Pam roedd gan Ffion gywilydd wrth feddwl am Elan?

- a. Fasai hi ddim yn hoffi iddi wybod ei bod hi wedi meddwi.
- b. Doedd hi ddim eisiau cael cacen ganddi.
- c. Roedd Ffion yn teimlo'n euog fod Elan yn treulio amser gyda'i thad.
- ch. Basai Elan yn siomedig tasai hi'n gwybod bod Ffion yn unig.

7. Pam roedd Ffion wedi meddwl na ddylai hi fynd i'r coleg ar y dechrau?

- a. oherwydd iechyd ei thad.
- b. gan nad oedd llawer o gymdogion gan ei thad.
- c. gan ei bod hi'n mwynhau rhyddid bod yn fyfyrwraig.
- ch. oherwydd bod angen rhywun i edrych ar ôl y fferm.

Gwaith cartref - Uned 3



1. Gwybodaeth o iaith – codi llais

Ffordd arall o ddweud bod pobl yn gweiddi ydy dweud eu bod nhw'n **codi eu llais**. Addaswch yr ymadrodd hwn i ddweud na ddylai gwahanol bobl weiddi:

Ddylwn i ddim

Ddylen nhw ddim

Ddylet ti ddim

Ddylech chi ddim

Ddylai e/o ddim

Ddylai hi ddim

Ddylen ni ddim

2. Cymraeg ffurfiol

Cysylltwch y ddau hanner i greu un frawddeg yn defnyddio **a** neu **y**.

Dyma'r llyfr.

Ysgrifennodd Kate Roberts y llyfr.

.....

Dyma'r llyfr.

Ysgrifennais i yn y llyfr ddoe.

.....

Welaist ti'r bobl?

Daeth plant y bobl i'r cyngerdd.

.....

Dw i'n adnabod rhywun.

Bydd hi'n ennill y Gadair ryw ddiwrnod.

.....

Wyt ti'n adnabod y bachgen?

Siarada i â fe y prynhawn yma.

.....

Wyt ti'n adnabod y bachgen?

Gwela i'r bachgen y prynhawn yma.

.....

Wyt ti'n adnabod y bachgen? Bydda i'n gweld y bachgen y prynhawn yma.

3. Darllen

Darllenwch y llythyrau isod, ac atebwch y cwestiynau sy'n dilyn yn eich geiriau eich hun.

Llythyr 1

Perchnogion

Gwesty'r Prom Hotel

Glanheli

1 Mehefin 2020

Annwyl Syr/Madam,

Ofnaf fy mod yn ysgrifennu atoch i fynegi fy siom wedi i mi a fy nheulu fod yn aros yn eich gwesty ar ein gwyliau yn ystod hanner tymor y plant. Roedden ni wedi cael ar ddeall y byddai anrhegion arbennig wedi eu gosod yn ein hystafelloedd i'n croesawu. Cawsom siom o weld nad oedd golwg o ddim i'n croesawu yno. Roedd y plant wedi bod yn llawn cyffro yn dyfalu pa anrhegion a fyddai'n ein disgwyl. Fe welsom fod diodydd a chnau i'w cael yn yr oergell, ond roedd prisiau pob dim yn ddrud iawn.

Roedden ni hefyd wedi disgwyl y byddai gwres cysurus yn ein hystafelloedd, ond yn wir roedden ni i gyd wedi gorfod cadw ein cotiau amdanom wrth ddadbacio ein cesys. Roedd y cyfarwyddiadau ar sut i weithio'r system wresogi yn gymhleth iawn, ac yn uniaith Saesneg. Roedden ni'n meddwl eich bod yn gweithredu polisi dwyieithog yn y gwesty.

Fodd bynnag, un o'r pethau yr oedden ni'n falch ohono oedd bod yr aelod o staff a ddaeth i'n helpu gyda'r system wresogi yn glên iawn ac yn siarad Cymraeg. Yn y bwyty hefyd roedden ni'n gwerthfawrogi bod yna staff yn siarad Cymraeg, ond yn siomedig unwaith eto o weld bod y fwydlen yn uniaith Saesneg, a phob peth ar y fwydlen i blant yn cael ei gynnig gyda sglodion.

Yr hyn oedd wedi ein denu i'ch gwesty chi, pan oedden ni'n chwilio ar y we, oedd yr honiad eich bod yn darparu ar gyfer teuluoedd â phlant. Mae'n wir fod ystafell chwarae bwrpasol gennych, ond yn anffodus, teganau addas ar gyfer plant ifanc iawn yn unig sydd gennych chi ynddi. Mae ein plant ni yn ddeg a naw oed, ac a dweud y gwir prin bod dim byd addas ar eu cyfer. Gallech fod wedi darparu cyfrifiadur neu ddau o leiaf. Roedd yna gwpwrdd â setiau o gemau diddorol yr olwg yno, ond yn anffodus iawn roedd hwnnw dan glo a doedd neb yn siŵr ble roedd y gorriad iddo.

Yn ddiau, mae eich bwriad yn dda, ac wrth gwrs yr ydych am gynnal enw da eich gwesty. Byddem yn barod i roi ail gyfle i chi drwy ddod i aros am benwythnos hir petaech yn barod i ni gael aros yn rhad ac am ddim, a chyda'r pethau a'n siomodd wedi eu cywiro. Gallem ninnau wedyn roi'r gair ar led am eich gwesty fel lle ardderchog i fynd i aros ynddo.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir,

Anita Jones

Cwmni Cyhoeddusrwydd y Llatai

Llythyr 2

Ms Anita Jones

Cwmni Cyhoeddusrwydd y Llatai

Glanheli

4 Mehefin 2020

Annwyl Ms Jones,

Wedi derbyn eich llythyr dyddiedig 1 Mehefin 2020, ysgrifennaf atoch i fynegi fy siom o ddeall nad oeddech yn hapus nac yn fodlon â'r cyfleusterau a ddarperir gennym yng Ngwesty'r Prom Hotel Glanheli. Mae'n rhaid i mi ymddiheuro ynglŷn â'r anrhegion a ddylai fod wedi eu gosod allan yn eich ystafelloedd cyn i chi gyrraedd. Mae gennym nifer o aelodau newydd o staff sydd yn amlwg heb ddeall y drefn sydd gennym i groesawu teuluoedd â phlant pan fyddant yn cyrraedd. Nid oeddent 'chwaith yn gwybod ymhle i gael gafael ar allwedd cwpwrdd teganau'r plant hŷn.

O ran eich cwestiwn ynglŷn â thymheredd yr ystafell, roeddem yn meddwl ein bod wedi gosod y cyfan i fod yn gysurus i chi gyda'r system awyru ysgafn ymlaen a hithau wedi bod yn dywydd mor boeth yn ddiweddar. Mae'r rhan fwyaf o'n cwsmeriaid yn gwerthfawrogi hyn yn fawr pan fyddan nhw'n cyrraedd.

I ateb eich cwyn am y cyfleusterau sydd gennym ar gyfer teuluoedd â phlant, mae'n rhaid i mi dynnu eich sylw at yr holl ddarpariaeth sydd gennym yng Ngwesty'r Prom Hotel, heblaw'r ystafell chwarae ar gyfer y plant ieuengaf. Mae cynllun ar y gweill i adeiladu pwll nofio ymhen rhai misoedd, a bydd hwn yn lle cyffrous i blant hŷn ei fwynhau, dan oruchwyliaeth eu rhieni. Y tu allan yn yr ardd, mae pob math o offer cyffrous i'r plant fwynhau chwarae arno am oriau bwy gilydd os mynnant. Mae'r ystafelloedd cysgu'n rhai pwrpasol ar gyfer teuluoedd, gyda dwy ystafell ar gyfer plant yn arwain yn uniongyrchol o ystafell eu rhieni. Mae'r fwydlen arbennig ar gyfer plant wedi ei seilio ar ymchwil gadarn i hoff fwydydd plant, ond fe wnaf yn siŵr y bydd mwy o amrywiaeth yn cael ei gynnig o hyn ymlaen.

Yr oeddwn yn falch eich bod yn gwerthfawrogi'r ffaith fod ein staff yn gallu cynnig gwasanaeth Cymraeg i chi. Fe wnaethpwyd ymdrech fwriadol i sicrhau unigolion a oedd yn medru'r Gymraeg i fod yn nhîm Gwesty'r Prom. Sylwch fod enw ein gwesty'n ddwyieithog, gyda'r Gymraeg yn dod yn gyntaf. Y cam nesaf gennym fydd Cymreigio'r deunydd ysgrifenedig i gydymffurfio â'r polisi dwyieithog rydyn ni'n ceisio ei roi ar waith. Rydyn ni'n gweithredu o fewn cyllideb dynn iawn ac felly heb fod mewn sefyllfa i dalu am bob peth ar unwaith.

Dan yr amgylchiadau felly, mae'n wir ddrwg gennyf, ni allwn gynnig i chi ddod yma i aros am benwythnos hir yn rhad ac am ddim. Fodd bynnag, awgrymaf eich bod yn dod yma eto ymhen y flwyddyn ac fe welwch y diffygion wedi eu cywiro. Bydd gennym ein bwydlenni a'n cyfarwyddiadau i gyd yn ddwyieithog erbyn hynny ac fe fydd cyfle i'n cwsmeriaid ofyn am i'w hystafelloedd fod wedi eu cynhesu yn ôl eu dymuniad. Bydd modd nodi hynny ar ffurflen bwrpasol ymlaen llaw.

Yn y cyfamser, trefnwyd i ychydig o anrhegion gael eu hanfon i'r plant eu mwynhau ac i wneud iawn am y siom a gawsant pan nad oeddent wedi eu gosod yn yr ystafelloedd i'w croesawu ar eu gwyliau y tro hwn.

Gyda diolch i chi am eich cwsmeriaeth a'ch amynedd.

Yn gywir,

Rheinallt Morgan

Perchennog

Gwesty'r Prom Hotel, Glanheli

Atebwch y cwestiynau isod, gan ddefnyddio eich geiriau eich hun. Does dim rhaid ateb mewn brawddeg lawn. Rhowch ddigon o wybodaeth i ateb y cwestiwn, a pheidiwch â rhoi gwybodaeth ddiangen.

i. Pam roedd Anita Jones wedi dewis y gwesty hwn yn y lle cyntaf?

.....

ii. Pa gyfleusterau yr oedd Gwesty'r Prom Hotel yn eu cynnig nad oedd Anita Jones wedi gallu eu defnyddio?

.....

iii. Beth yn benodol yr hoffai Anita Jones fod wedi ei weld yn y gwesty ar gyfer plant?

.....

iv. Ym mha ffordd roedd Anita Jones yn dymuno i berchennog Gwesty'r Prom Hotel wneud iawn am eu siomi fel teulu?

.....

.....

v. Sut roedd Rheinallt Morgan yn egluro rhai o'r diffygion a siomodd y teulu yn ystod eu hymweliad?

.....

.....

vi. Nodwch 3 pheth a fyddai'n gwneud ymweliad y teulu yn fwy boddhaol ymhen blwyddyn, yn ôl Rheinallt Morgan.

i.

ii.

iii.

4. Ysgrifennu

Aethoch chi i aros mewn gwesty arbennig yn ddiweddar. Ysgrifennwch adolygiad o'r profiad, gan gyfeirio at:

- eich rheswm dros ddewis y gwesty hwn;
- y lleoliad a'r cyfleusterau;
- un peth doniol neu anffodus a ddigwyddodd yn ystod eich arhosiad.

Dylech chi ysgrifennu rhwng 190 a 210 o eiriau.



Gwaith cartref – Uned 4

1. Gwybodaeth o iaith

Ysgrifennwch yn llawn:

- 19g y bedwaredd ganrif ar bymtheg
 18g
 20g
 17g
 21g

2. Geirfa

Llenwch y bylchau:

- i.** y person pwysicaf mewn ffilm y
- ii.** yng nghwmni neb ar fy
- iii.** Mae ffrindiau'n gwmni i'w
- iv.** bod y tu allan yng nghefn gwlad yn yr awyr
- v.** rhoi bwyd i fabi
- vi.** wedi gorffen
- vii.** yn hapus iawn, iawn
- viii.** trefniadau ofnadwy

3. Cymraeg ffurfiol

Ysgrifennwch y brawddegau isod yn fwy ffurfiol:

- i.** Dw i'n ysgrifennu atoch chi ar ran y Pwyllgor Rhieni.

- ii.** Dw i'n bwriadu mynd â'r mater ymhellach.

- iii.** Dw i'n gwybod eich bod chi'n brysur ond mae hwn yn fater difrifol.

- iv.** Dw i'n ofni bod chi'n anghywir ar yr achlysur yma.

- v.** Dw i'n edrych 'mlaen at glywed oddi wrthoch chi fory.

4. Darllen

Darllenwch y darn isod ac atebwch y cwestiynau'n seiliedig arno. Daw'r darn allan o *Fabula* gan Llŷr Gwyn Lewis, a gyhoeddwyd yn 2016 gan Y Lolfa.

Mae'r stori hon yn sôn am fachgen o'r enw Tomàs, yn ninas Barcelona.

Dechreuodd y bachgen ymweld â'r Carrer de Montcada yn amlach dros yr wythnosau canlynol. Roedd wedi dechrau darllen patrwm y ciws, a phryd y byddent ar eu hwyaf. Roedd y ffaith fod y ciw'n ymestyn i lawr y stryd gul yn golygu nad oedd fawr o le i bobl fynd heibio. Deuai nifer o gerddwyr i lawr y stryd o'r cyfeiriad arall, nifer ohonynt yn dod allan o'r palas y ciwiau'r lleill i fynd i mewn iddo, gan greu rhyw fath o wrthgerrynt yng nghulfor y Carrer. Yno, gan weu rhwng y bagiau, yr â'r bachgen Tomàs ati i wneud ei waith.

Ac yntau wrth ei waith ymysg pocedi'r ymwelwyr, meddyliodd y bachgen beth yn union tybed a ddenai'r torfeydd yma bob dydd. Parabla'i'r ymwelwyr uwch ei ben gan mwyaf yn Saesneg neu Ffrangeg neu yn Almaeneg.

Gallai ddarllen rhywfaint, ond nid rhyw lawer: ac mae gallu darllen geiriau yn wastraff llwyr os nad oes neb wedi dweud wrthym beth yw ystyr y geiriau hynny. Roedd Tomàs wedi deall y gair 'Museu' ond doedd ganddo ddim syniad beth oedd 'Picasso' yn ei olygu.

Un dydd, aeth ei gywreindeb yn drech nag o, ac ar ôl helpa foreol ddigon proffidiol fe ddiflannodd. Daeth yn ei ôl ryw deirawr yn ddiweddarach, pan fyddai torfeydd y bore, a oedd eisoes wedi'i weld ac a allai ei adnabod eto, wedi mynd yn eu blaenau am y Sagrada Família neu am siopau drudfawr Eixample. Safodd, fel pe na bai erioed wedi bod yma o'r blaen, yng nghefn y ciw, ac aros. Pan gyrhaeddodd y ddesg roedd y ddynes wrth y til yn edrych yn od arno. Roedd hi'n siŵr ei bod hi wedi'i weld o'r blaen ond roedd ganddo esgidiau am ei draed ac arian yn ei law. Gofynnodd iddo ymhle'r oedd ei rieni ac atebodd yntau'n eirwir nad oedden nhw'n gallu dod heddiw ond eu bod nhw'n gwybod ei fod yma. Yn anffodus, eglurodd y wraig, doedd dim modd caniatáu i rai dan bedair ar ddeg ddod i mewn heb oedolyn yn gwmni. Pe gallai ddod yn ôl gyda'i rieni rywbyrd, fodd bynnag, fyddai dim rhaid iddo dalu gan fod mynediad i rai dan ddeunaw am ddim.

Doedd hynny ddim yn bosib, atebodd y bachgen, a synhwyrâ'r wraig nad oedd diben holi ymhellach. Fel roedd hi'n digwydd, roedd y wraig newydd weld adroddiad ar y teledu y bore hwnnw am ffrwydrad a oedd wedi bod mewn dinas bell ac a oedd wedi lladd dwy ferch fach. Fel roedd hi'n digwydd, roedd yr adroddiad wedi ei chyffwrdd ac wedi dod â'i hemosiynau fymryn yn nes i'r wyneb, gan wneud iddi feddwl am ei phlant ei hun. Ac fel roedd hi'n digwydd, roedd hi'n fwy parod nag arfer i blygu'r rheolau i fachgen bach fel Tomàs ac felly dywedodd y câi fynd i mewn heddiw, ond y byddai'n rhaid iddo ddod â rhywun gydag o pe ddi eto. Gofynnodd hithau iddo wedyn a hoffai gael *audioguía*. Faint oedd hynny, gofynnodd y bachgen Tomàs, a'r wraig yn ateb ei fod yn costio €5.

Erbyn hyn roedd Tomàs wedi dechrau meddwl y byddai'n rheitiach gwario'r arian yn ei boced ar fwyd heno. Doedd arno ddim angen clywed unrhyw beth, dim ond gweld pam roedd yr holl bobl bob dydd yn ciwio cyhyd. Cafodd bamffled bychan a map am ddim, ond nid edrychodd ar hwnnw. Dilynodd ei drwyn a dilyn y golau, gan ddringo hen risiau carreg a godai o gowt agored ger y fynedfa. Aeth drwy'r drws gwydr, ac anelu am 'stafell a'r rhif 1 ger ei mynedfa. Gallai ddilyn rhifau.

Treuliodd ryw awr yn cerdded o amgylch y 'stafelloedd. Erbyn deall, darluniau a pheintiadau oedd yma, rhyw wyth neu ddeg ohonynt yn hongian ymhob 'stafell, a phobl yn sefyll yn union o'u blaenau ac yn syllu arnynt. Pam na fydden nhw i gyd yn sefyll ymhellach yn ôl, meddyliai Tomàs, er mwyn i bawb gael gweld ar yr un pryd, Duw a wŷyr. Roedd pobl yn plygu i mewn yn agos, agos at y cyfnas, fel pe baen nhw'n chwilio am rywbeth neu'n ceisio gweld rhywbeth nad oedd yno. Roedd eraill wedyn yn darllen y paneli nesaf at y lluniau yn fanwl iawn, a phrin yn taro cip ar y peintiadau eu hunain.

1. Gan ei fod e'n mynd i'r stryd hon yn aml, roedd y bachgen yn gallu...

- a. mynd i flaen y ciw'n hawdd.
- b. cerdded heibio heb fod pobl yn sylwi arno.
- c. dangos y ffordd i mewn i'r amgueddfa i ymwelwyr.
- ch. dysgu sut roedd y llinellau o bobl yn ffurfio.

2. Gwaith Tomàs oedd...

- a. helpu'r bobl yn y ciwiau.
- b. gwau rhwng y bagiau.
- c. dwyn arian twristiaid.
- ch. cyfieithu o'r Saesneg, y Ffrangeg neu'r Almaeneg.

3. Diflannodd y bachgen am gyfnod ar ddechrau'r prynhawn...

- a. oherwydd bod angen siesta arno.
- b. er mwyn mynd i mewn i'r amgueddfa.
- c. i wneud yn siŵr na fyddai'r un bobl yn y stryd.
- ch. i fynd ar helpa arall.

4. Y rheswm pam aeth Tomàs i mewn i'r 'museu' oedd ei fod...

- a. eisiau gwybod pam bod cymaint o bobl eraill yno.
- b. yn chwilio am 'gwsmeriaid'.
- c. eisiau gweld y lluniau yn yr amgueddfa.
- ch. wedi ymuno â'r ciw ar ddamwain.

Gwaith cartref - Uned 5



1. Gwybodaeth o iaith

Ysgrifennwch y ffurf gywir yn y bwlch.

i. cynhaliwyd cynhaliodd cynhelir cynhelid

..... y cyngor gyfarfod yn y neuadd ddoe.

..... cyfarfod gan y cyngor yn y neuadd bob wythnos pan oeddwn i'n blentyn.

..... cyfarfod gan y cyngor yn y neuadd ddoe.

..... cyfarfod gan y cyngor yn y neuadd yfory.

ii. cosbid cosbodd cosbir cosbwyd

..... plentyn sy'n gadael safle'r ysgol heb ganiatâd yr athro o hyn ymlaen.

..... yr athro y plentyn am adael safle'r ysgol heb ganiatâd.

..... y plant am adael safle'r ysgol heb ganiatâd ddoe.

..... y plant drwy'r amser am adael safle'r ysgol pan oedden nhw yn yr ysgol gynradd.

iii. croesawodd croesewir croesawyd croesewid

..... ffoaduriaid i Gymru pan fyddan nhw'n ffoi rhag rhyfel.

..... faciwi's i Gymru yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

..... arweinydd y cyngor y ffoaduriaid i'r ardal.

..... y ffoaduriaid i'r ardal y llynedd.

2. Darllen – Llythyrau ffurfiol

Darllenwch y llythyrau isod, ac atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.

Llythyr 1

Ieuan Richards

Prif Weithredwr

Awdurdod Iechyd Bro Aberheli

20 Ionawr 2021

Annwyl Mr Richards,

Ysgrifennaf atoch i dynnu sylw at y driniaeth a gafodd fy mam, Mrs Beryl Huws, yn Ysbyty Cyffredinol Aberheli yn ddiweddar. Mae Mam yn 90 oed a hyd yn gymharol ddiweddar, mae hi wedi mwynhau bywyd llawn heb orfod dibynnu ar y Gwasanaeth Iechyd Gwladol o gwbl. Gweithiodd am dros ddeng mlynedd ar hugain fel nyrs ardal yn nhref Glanwylan a'r cylch ac mae hi'n adnabyddus iawn yn ei chymuned fel menyw sydd wedi gofalu am drigolion y fro o bob oedran, o'r crud i'r bedd.

Newidiodd hyn oll tua deufis yn ôl, pan gwmpodd hi yn yr ardd gefn a thorri nifer o asennau. Ar y pryd, roedd ar ei phen ei hun ac yn gorwedd yn ddiymadferth, mewn poen am dros dair awr nes i'm gwraig, Gaynor, alw ar ei ffordd i'r siopau lleol. Aeth hi â Mam yn syth i Adran Achosion Brys Ysbyty Glanwylan. Ar ôl aros am dros bedair awr cyn i rywun ddod i gynnig unrhyw driniaeth, penderfynwyd y byddai'n gorfod cael ei throsglwyddo i Ysbyty Cyffredinol Aberheli (dros ugain milltir i ffwrdd) achos nad oedd digon o staff arbenigol yng Nglanwylan i roi'r driniaeth briodol iddi.

Pan gyrhaeddodd Ysbyty Aberheli, roedd yn rhaid iddi aros am awr arall cyn iddynt ddod o hyd i wely iddi ac erbyn hyn, roedd hi mewn tipyn o boen ac yn dechrau drysu. Cymraeg yw iaith gyntaf Mam ac nid oedd yn hawdd iddi ei mynegi ei hun i'r staff a oedd yno ar y pryd gan nad oedd neb yn medru cyfathrebu â hi yn ei hiaith ei hun. Treuliodd gyfnod o fis yn Aberheli, lle cododd firws ar ben popeth arall. Mae'n anodd credu bod gennyh 'weithdrefnau addas' i gadw'r lle'n lân, fel y mae eich gwefan yn ei honni. Pan oedd Mam yn ddigon iach i ddod adre, nid oedd ambiwlans ar gael, felly bu'n rhaid i mi adael y gwaith yn gynnar a mynd draw i'w nôl hi.

Mae profiad Mam o'r Gwasanaeth Iechyd y bu hi mor ffyddlon iddo dros gymaint o flynyddoedd wedi bod yn warthus; ni ddylai unrhyw un orfod aros a chael ei drin yn y fath fodd. Mae mawr angen chwistrelliad o arian i wella'r sefyllfa yn yr ysbyty hwn, hyd y gwelaf i. Byddai'n ddigon gwael i rywun yr un oed â mi, ond i wraig 90 oed sy'n byw ar ei phen ei hun, mae'n anfaddeuol. Edrychaf ymlaen at dderbyn eich ymateb i'r pwyntiau hyn.

Yn gywir,

Sid Huws

Llythyr 2

Gerddi'r Orsedd
Glanwylan

30 Ionawr 2021

Annwyl Mr Huws,

Diolch am gysylltu ag Awdurdod Iechyd Bro Aberheli (AIBA). Roedd yn ddrwg iawn gennyf ddarllen am brofiad eich mam, Mrs Beryl Huws, yn Ysbytai Glanwylan ac Aberheli. Mae gennyf innau riant o'r un oed, a gwn yn iawn sut deimlad yw pryderu am rywun oedrannus.

Gallaf eich sicrhau nad yw'r gwasanaeth a dderbyniodd yn cydymffurfio â'r safonau disgwyliedig yn ôl Siarter y Claf AIBA. Ar ôl gwneud ymholiadau pellach ynglŷn â'r hyn a ddigwyddodd pan aethpwyd â Mrs Huws i adran achosion brys Ysbyty Glanwylan, mae'n debyg fod lefel y staffio'n is na'r disgwyl oherwydd graddfeydd absenoldeb uwch na'r arfer.

O ganlyniad i hynny, penderfynwyd mynd â Mrs Huws i Ysbyty Aberheli i gael triniaeth. Mae'n dipyn o syndod i mi glywed nad oedd staff Cymraeg eu hiaith ar gael. Mae canran uchel o'r staff nyrsio a gweinyddu'n medru'r Gymraeg yn barod, ac mae'r Awdurdod wedi buddsoddi'n helaeth mewn cyrsiau i wella sgiliau iaith y gweithlu, er mwyn ateb y galw.

Cynhelir safonau hylendid uchel iawn yn holl ysbytai AIBA, a byddwn i'n dadlau bod y datganiad a welsoch ar ein gwefan yn dal dŵr o ran yr ysbyty hwn. Er hynny, mae'n anorfod, o bryd i'w gilydd, y bydd rhai o'n cleifion hŷn yn codi firws neu haint pan fyddant yn aros yma am gyfnod cymharol hir.

I droi at eich pwynt olaf, sef prinder ambiwlansys i fynd â Mrs Huws adref, fe gofiwch ar y pryd ein bod newydd gael cyfnod o oerfel ofnadwy a galwadau lu ar y Gwasanaeth Iechyd. Nid oedd y Swyddfa Dywydd wedi rhoi rhybudd am yr oerfel annisgwyl, felly nid oedd modd rhagweld y pwysau ofnadwy oedd arnom. Oherwydd hynny, bu'n rhaid sicrhau bod y gwasanaeth ambiwlans yn rhoi blaenoriaeth i gludo achosion brys. Cafwyd dros gant o'r rheini ar y diwrnod hwnnw.

I gloi, mae'r baich sydd ar y Gwasanaeth Iechyd yn drwm ac yn amrywio o ddydd i ddydd, a chytunaf gant y cant â chi mai cyllid ychwanegol yw'r ateb tymor hir yn Aberheli fel ym mhobman arall. Oherwydd cyfuniad o nifer o amgylchiadau anffodus y tro hwn, ni dderbyniodd Mrs Huws wasanaeth o'r safon y dylai fod wedi'i dderbyn. Hoffwn ymddiheuro ar ran AIBA i Mrs Huws ac i chithau am y diffygion hyn. Yr ydym wedi adolygu ein systemau derbyn cleifion i geisio osgoi profiadau tebyg yn y dyfodol.

Yn gywir,

Ieuan Richards

Awdurdod Iechyd Bro Aberheli

Atebwch y cwestiynau isod gan ddefnyddio eich geiriau eich hun. Does dim rhaid ateb mewn brawddeg lawn. Rhowch ddigon o wybodaeth i ateb y cwestiwn, a pheidiwch â rhoi gwybodaeth ddiangen.

i. Sut roedd iechyd cyffredinol Beryl Huws cyn y ddamwain?

.....

ii. Pam roedd hi'n anodd i Beryl Huws gyfathrebu â'r staff yn Ysbyty Aberheli?

.....

iii. Beth sy'n gyffredin rhwng Sid Huws ac Ieuan Richards o safbwynt teulu?

.....

iv. Pam roedd rhaid symud Beryl Huws i Ysbyty Aberheli?

.....

v. Sut mae Awdurdod Iechyd Bro Aberheli'n ceisio cynyddu'r gwasanaeth Cymraeg, yn ôl Ieuan Richards?

.....

vi. Sut roedd y tywydd wedi achosi problem i Mrs Huws?

.....

vii. Beth sydd ei angen ar y Gwasanaeth Iechyd, yn ôl y ddau lythyrwr?

.....

viii. Ym mha ffordd mae barn y ddau lythyrwr am Ysbyty Aberheli'n wahanol?

.....

3. Ysgrifennu

Aethoch chi i weld cyngerdd Cymraeg yn ddiweddar, ond cododd nifer o broblemau. Ysgrifennwch adolygiad ohono, gan nodi:

- beth oedd i fod i ddigwydd;
- sut llwyddon nhw i gynnal y cyngerdd heb y prif artist;
- beth oedd ymateb y gynulleidfa.

Dylech chi ysgrifennu rhwng 190 a 210 o eiriau.

Gair gan y tiwtor:

.....

.....

Gwaith cartref – Uned 6



1. Gwybodaeth o iaith

Dilynwch y patrwm:

	Ar bwy mae'r bai?	John	Ar John mae'r bai.
i.	Ar bwy mae'r bai?	Siân	_____
ii.	Ar bwy mae'r bai?	hi	_____
iii.	Ar bwy mae'r bai?	fe/fo	_____
iv.	Ar bwy mae'r bai?	y plant	_____
v.	Ar bwy mae'r bai?	nhw	_____
vi.	Ar bwy mae'r bai?	ti	_____

2. Darllen – Ffuglen

Darllenwch y darn isod ac atebwch y cwestiynau'n seiliedig arno. Daw'r darn allan o *Fel Edefyn Gwe* gan Siân Rees, a gyhoeddwyd gan Wasg Carreg Gwalch.

'Wyt ti isio'r lôn 'ma i gyd, wyt, y BMW diawl?' Chwifiais fy mraich i'r dde i bwysleisio i yrrwr y cerbyd mai yn nesa at y clawdd roedd ei le o ar y ffordd. Canodd ei gorn yn ddigywilydd arna i, ond o leia ro'n i wedi deffro o'm synfyfyrion. Rhyfedd fel mae rhywun yn medru gyrru am filltiroedd ar hyd ffordd gyfarwydd heb ganolbwyntio o gwbl. Bu fy meddwl ymhell ers i mi adael yr A470 yn Llanidloes a cheisio naddu dwsin o filltiroedd oddi ar fy nhaith drwy rychu hebio cronfa Clywedog ac ailymuno â'r briffordd yn Llanbrynmair.

Ymhen awr neu ddwy byddai Pamela-Wynne a finna'n ailflasu'r gorffennol ac yn wyneb marwolaeth ein cynathro, byddai atgofion o bob math yn codi i'r wyneb fel hen froc. Y noson honno yn y parti ar y traeth dros ddeugain mlynedd yn ôl, pan oedd Rhian yn crynu fel cath fach yn fy mreichiau wrth y tân, roedd pawb arall yn methu dallt pam mai ata i y trodd hi. Wedi'r cwbl, fuon ni erioed yn fawr o ffrindiau. Ond ro'n i'n dallt yn iawn – roeddau ni'n rhannu cyfrinach fawr ein profiad annymunol gydag Elwyn Griffiths pan oeddau ni yn safon tri. Thorrais i mo 'ngair na rhannu'r wybodaeth â neb, ac i bob pwrpas, aethai'r hanes yn angof i mi gyda threigl y blynyddoedd. Ond o feddwl am y peth, ella fod cysylltiad rhwng hynny a'r ffaith i Rhian fod yn hir iawn cyn priodi – roedd dros ei deugain yn mentro. Fodd bynnag, nid hynny a barodd y sioc fwyaf i ni'r genod, ond ei dewis o wŷr.

Daeth golau coch y tanc petrol ymlaen ger Dinas Mawddwy i ddod â fi'n ôl i'r presennol. Stop bach yn Nolgellau amdani, am goffi ac i ail-lenwi'r tanc cyn cymal ola'r daith tuag adra.

'Nain? Pam y'ch chi'n gweud "adra" bob amser pan y'ch chi'n sôn am Dre?' gofynnodd Huw neithiwr pan soniais i am fynd i'r gogledd. 'Dych chi'm 'di byw yno ers oes pys!' Rhyfedd bod ambell air a dywediad gogleddol yn ei iaith, meddyliais, er iddo fo a'i chwaer fyw drwy gydol eu hoes yng Nghaerdydd. Dylanwad ei nain, meddyliais yn foddhaus.

'Naddo Huw, ddim ers i dy dad-cu a finna briodi.' Roedd hwnnw'n ddiwrnod bendigedig yn ystod haf poeth 1976, a neb ddim callach y byddem yn rhieni ymhen saith mis. Hufen oedd fy ffrog laes, yr un lliw â fy het feddal cantal llydan a 'nhusw blodau. Anni, fy ffrind gorau o'r coleg, oedd fy morwyn briodas a brawd hŷn Dafydd oedd ei was. Talodd eu tad am siwtiau tri-darn iddyn nhw o Hepworths yn Aberystwyth, ac roedd tei Dafydd â'i gwllwm enfawr yn streipiau brown a'r un hufen yn union â fy ffrog a'r rhosod. Mae'r haul wedi pylu'r lliwiau llawn o'r llun sydd ar fy wal erbyn hyn, ond mae gwenau'r ddau ohonom, yn sefyll ar lawnt eang Brynhyfryd Hall, yn dal i fy nghynhesu. Does gen i ddim cywilydd cyfaddef 'mod i'n dal i gusanu'r gwydr bob nos cyn cysgu. Doedd yr un o'm hen ffrindiau ysgol yn westeion yn ein priodas, dim ond teulu a'r ffrindiau a wnaeth Dafydd a minnau yn y coleg.

Cardiau Dolig oedd yr unig gysylltiad rhyngddon ni ers hynny – cardiau elusen, sgleiniog, drud ar y cyfan, ambell un dwyieithog ond rhai Saesneg hefyd. 'Pob dymuniad da i'r teulu oll dros gyfnod y Nadolig. Cofion gorau, Eirlys, Cemlyn, Berwyn a Meinir, Aled a Siwan a'r wyrion oll. xx.' 'Season's Greetings from the Orkneys! See you sometime, Nan, Karl and Christmas 'woofs' from Butch and Bruno the mutts!' Cerdyn a wnaeth ei hun yn ddieithriad ddeuai oddi wrth Nan. 'Happy Christmas/Nadolig Hapus, Jean, Gaz & family.' Cyfarchion y Tymor! Nic, Pam a'r teulu. Brysia draw! xxx.' Ond ddaeth dim byd oddi wrth Rhian ers blynyddoedd maith.

Trodd fy meddwl yn ôl i'r mis Mai blaenorol. Fy nhro i oedd mynd â Huw a Mari, fy wŷr ac wyres, i'r ysgol Sul. Roedden nhw wedi cysgu acw y noson cynt gan fod Eysyllt a'i gŵr wedi cael cynnig aros mewn gwesty yn Ystumllwynarth ar ôl rhyw ginio busnes crand. Doedd eu cael nhw draw yn ddim byd newydd ac mae'n dda gen i gael cwmni afieithus y plantos i leddfu ffyrnigrwydd fy hiraeth am Dafydd.

Tawodd murmur y gynulleidfa pan gamodd y pregethwr dieithr i'r sêd fawr, a sibrwd gair distaw o weddi ar y grisiau cyn esgyn i'r pulpud. Edrychai'n ddigon tebyg i Captain Birdseye yn yr hysbysebion teledu ers talwm, gyda'i wallt tonnog clauerwyn a'i farf laes, oedd bron hyd at ei frest. Syllodd o'i gwmpas ar y gynulleidfa o'i flaen drwy sbectol weiren arian a gwenodd yn glên ar rywun a eisteddai mewn sedd o flaen corpws enfawr y pen blaenor.

1. Doedd Megan ddim yn hapus efo'r gyrrwr arall oherwydd ei fod e...

- a. yn gyrru ar ganol y ffordd.
- b. yn gyrru'n rhy gyflym.
- c. wedi ei deffro hi trwy ganu ei gorn.
- ch. heb roi arwydd ei fod e am droi i'r dde.

2. Roedd Rhian wedi dod at Megan am gysur oherwydd...

- a. mai Megan oedd ei ffrind gorau.
- b. bod Megan yn gwybod beth oedd wedi digwydd iddi yn y gorffennol.
- c. bod y ddwy'n hoff iawn o gathod.
- ch. bod rhywun wedi marw yn nheulu'r ddwy.

3. Roedd ffrindiau ysgol Rhian yn synnu...

- a. ei bod hi wedi cael ysgariad.
- b. ei bod hi mor hen yn priodi.
- c. ei bod hi wedi ailbriodi.
- ch. pwy roedd hi wedi'i briodi.

4. Mae Megan yn synnu bod ei hwyrion yn dweud 'ers oes pys' oherwydd...

- a. nad ydyn nhw erioed wedi byw yn y gogledd.
- b. ei fod e'n ymadrodd hen-ffasiwn.
- c. bod eu Cymraeg nhw mor wael.
- ch. nad oedd hi wedi clywed neb ond ei nain yn defnyddio'r ymadrodd.

5. Pa gyfrinach roedd Megan yn ei chuddio ar ddiwrnod ei phriodas?

- a. eu bod nhw ar fin gadael yr ardal.
- b. bod tad Dafydd wedi talu holl gostau'r briodas.
- c. ei bod hi'n disgwyl babi.
- ch. ei bod hi mewn cariad efo brawd Dafydd.

6. Ar wahân i aelodau'r teulu, pwy arall oedd yn y briodas?

- a. ffrindiau ysgol
- b. ffrindiau coleg
- c. ffrindiau o'r Alban
- ch. neb

7. Yr awgrym yn y darn ydy bod Dafydd...

- a.** wedi dechrau gweithio fel gweinidog.
- b.** yn ddyn busnes llwyddiannus.
- c.** yn casáu gwarchod yr wyrion.
- ch.** wedi marw.

3. Ysgrifennu

i. Cynhaliwyd protest yn ddiweddar yn erbyn penderfyniad eich cyngor i godi 200 o dai newydd yn yr ardal. Ysgrifennwch erthygl am y brotest i'r papur lleol, gan nodi:

- manylion am y brotest a'r rhesymau drosti;
- y dadleuon o blaid ac yn erbyn y datblygiad;
- sut mae'r cyngor yn debygol o ymateb.

Dylech chi ysgrifennu rhwng 190 a 210 o eiriau.

ii. Mae cwmni teledu'n gwneud rhaglen o'r enw *Seren Leol* am bobl sydd wedi gwneud gwaith dros elusen. Rydych chi wedi penderfynu enwebu rhywun i fod ar y rhaglen. Ysgrifennwch llythyr i'r cwmni teledu, gan nodi:

- sut dych chi'n nabod y person yma;
- pa waith mae'r person wedi ei wneud dros yr elusen;
- y ffordd orau o ddiolch i'r person am y gwaith mae e/hi wedi'i wneud.

Dylech chi ysgrifennu rhwng 190 a 210 o eiriau. Does dim angen i chi ysgrifennu'r cyfeiriad ar frig y llythyr.

Gair gan y tiwtor:

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Gwaith cartref - Uned 7



1. Gwybodaeth o iaith

Aralleiriwch:

i. "Roedd y storm yn arw neithiwr," meddai John. **DWEDODD**

ii. "Mae e'n chwaraewr sy'n llawn potensial," meddai John. **DWEDODD**

iii. "Hi yw'r chwaraewraig orau," meddai John. **DWEDODD**

iv. "Bydd rhaid i'r plant fagu mwy o hyder," meddai John. **DWEDODD**

v. "Basen ni wrth ein boddau," meddai John. **DWEDODD**

2. Darllen - Llythyrau ffurfiol

Darllenwch y llythyrau isod, ac atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.

Llythyr 1

Y Cyngorydd Dafydd Gee

Cyngor Sir Llanaber

Annwyl Gyngorydd,

Ysgrifennaf atoch i ymateb i ymgynghoriad y Cyngor Sir ynglŷn â'u cynlluniau i arbed arian y flwyddyn nesaf. Cyn i mi roi fy marn ar y cynigion penodol, hoffwn ddweud fy mod yn deall eich bod yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd iawn wrth i'r arian sy'n dod o'r Llywodraeth i'r Cyngor Sir gael ei dorri unwaith eto. Yn sicr, faswn i ddim yn hoffi bod yn eich lle chi ac rwy'n ddiolchgar iawn i chi am gynrychioli ein cymuned trwy'r cyfnod anodd hwn.

O droi at y cynlluniau, hoffwn ddechrau gyda'r gwasanaeth ieuencid a'r cynnig y gallai'r Cyngor arbed £500,000 trwy roi'r gorau i gynnig grantiau i glybiau a mudiadau ieuencid y sir. Byddai hyn yn beth ofnadwy i'w wneud yn fy marn i; mae

miloedd o bobl ifanc y sir yn mynychu clybiau a digwyddiadau sy'n dibynnu ar yr arian hwn. Maen nhw'n dysgu sgiliau newydd drwy'r gweithgareddau hyn sy'n rhan hollbwysig o'u datblygiad fel aelodau o'r gymuned. A dweud y gwir, mae llawer o'r grwpiau hyn yn helpu i gynnal gwasanaethau pwysig eraill drwy godi arian neu helpu'n ymarferol mewn digwyddiadau cymunedol neu gyda gwasanaethau i bobl hŷn, er enghraifft. Mae'n bosib, felly, y byddai gweithredu'r cynnig hwn yn costio mwy o arian nag y byddai'n ei arbed oherwydd y byddai rhaid i'r Cyngor wario mwy i gynnal y gwasanaethau pwysig sy'n cael eu cefnogi gan y grwpiau ieuencid.

Y syniad arall rwyf yn ei wrthwynebu'n chwyrn yw'r cynnig mai dim ond y ffordd rhwng Aberwylan a Llanaber fydd yn cael ei graeanu â halen mewn tywydd oer yn y gaeaf. Er mai dyma'r ffordd fwyaf a phrysuraf yn y sir, mae llawer o bobl yn byw mewn trefi a phentrefi eraill ac yn dibynnu ar y ffyrdd i gyrraedd eu gwaith, i fynd i siopa ac ati. Byddai torri ar y gwasanaeth graeanu yn peryglu diogelwch trigolion y sir wrth iddyn nhw gynnal eu bywydau pob dydd trwy'r gaeaf, heb sôn am yr holl blant sy'n cael eu cludo i ysgolion ledled y sir mewn bysus a cheir. Rwy'n ymbil arnoch i beidio â chefnogi'r cynnig anghyfrifol hwn.

Mae'r trydydd cynnig yn y cynlluniau yn un y gallaf ei gefnogi. O dan yr amgylchiadau, byddai'n hollol rhesymol i chi godi'r tâl am barcio ym meysydd parcio'r sir i £1.20 yr awr. Er bod hyn yn gynydd o 50%, dim ond ychydig bunnoedd y mis fydd hyn yn ei gostio i'r rhan fwyaf o drigolion y sir. A dweud y gwir, gallai fod yn beth da petai'r cynnydd yn y pris yn gwneud i bobl ailfeddwl ynglŷn â gyrru i'r trefi drwy'r amser ac efallai y gwelwn ni fwy o bobl yn defnyddio trafndiaeth gyhoeddus neu'n trefnu i rannu ceir.

Rwy'n deall na fydd y cynnydd mewn pris parcio yn ddigon i ateb problemau ariannol y Cyngor heb y cynlluniau eraill. Hoffwn i awgrymu y dylech chi ystyried codi lefelau Treth y Cyngor. Rwy'n meddwl y bydd pobl yn barod i dalu ychydig mwy er mwyn cynnal gwasanaethau pwysig.

Yn gywir,
Emyr Jones

Llythyr 2

Emyr Jones
1 Stryd y Bont
Pontycefn

Annwyl Mr Jones,

Diolch am eich llythyr ynglŷn â'r ymgynghoriad ar gynlluniau'r Cyngor Sir i arbed arian y flwyddyn nesaf.

Rwy'n cytuno gyda chi fod y clybiau a mudiadau ieuenctid yn gwneud gwaith pwysig gyda phobl ifanc ein sir ac yn cyfrannu llawer at ein cymunedau. Fodd bynnag, mae'r arian sydd ar gael i'r Cyngor wedi cael ei dorri bob blwyddyn bellach ers pum mlynedd. Fel y dywedwch chi yn eich llythyr, mae rhaid i ni wneud penderfyniadau anodd iawn erbyn hyn ac mae hynny'n cynnwys torri gwariant mewn meysydd pwysig a gwasanaethau gwerthfawr. Mae llawer o fudiadau a chlybiau yn dibynnu ar wirfoddolwyr i gynnal eu gwaith gyda phobl ifanc ac rwy'n gobeithio y bydd mwy o bobl yn barod i wirfoddoli ac i helpu eu cymuned yn yr amserau anodd hyn.

Ar fater graeanu'r ffyrdd, rwy'n cyd-weld yn union â chi – byddai'n anghyfrifol i ni beryglu bywydau gyrrwyr a phlant drwy beidio â rhoi halen ar y rhan fwyaf o ffyrdd y sir. Byddaf yn sicr o wrthwynebu'r cynnig hwn yn ffyrnig yng nghyfarfodydd y Cyngor. Rwy'n eithaf hyderus y bydd y cynlluniau'n cael eu gwrthod, gan fod cynghorwyr o ardaloedd eraill ledled y sir yn gwrthwynebu'r cynlluniau hefyd.

Rwy'n deall eich dadleuon dros gefnogi'r cynnydd mewn costau parcio hefyd. Yn anffodus, rwy'n gweld problemau gyda'r cynigion fel y maen nhw. Gan fod parcio'n rhatach yn y sir nesaf, byddai codi gormod o dâl yn ein meysydd parcio ni'n annog mwy o bobl i fynd i siopa yno a byddai ein busnesau lleol ni'n dioddef. Hefyd, mae perygl na fyddai'r Cyngor yn cael mwy o arian petai ein meysydd parcio yn hanner gwag bob dydd! Felly, rwyf am gefnogi cynnig i gynyddu pris parcio i 85c yr awr yn hytrach nag i £1.20 yr awr. Rwy'n credu y bydd pobl yn barod i gefnogi'r cynnydd bach hwn.

I droi at eich pwynt olaf, nid cynnydd bach fyddai ei angen yn Nhreth y Cyngor petaen ni'n diogelu'r gwasanaethau ieuenctid, fel rydych chi'n awgrymu. Dw i ddim yn meddwl y byddwn i'n cael fy ailethol yn yr etholiad nesaf petawn i'n cefnogi cynnydd o 10% bob blwyddyn yn Nhreth y Cyngor, felly nid wyf yn fodlon gwneud hynny. Rwy'n hyderus y bydd pobl yn gefnogol i fy nghynlluniau ac yn fodlon derbyn cynnydd bach (llai na 5%) yn y dreth er mwyn cefnogi'r gwasanaethau pwysicaf.

Yn gywir
Y Cynghorydd Dafydd Gee

Atebwch y cwestiynau isod, gan ddefnyddio eich geiriau eich hun. Does dim rhaid ateb mewn brawddeg lawn. Rhowch ddigon o wybodaeth i ateb y cwestiwn, a pheidiwch â rhoi gwybodaeth ddiangen.

i. Pam mae Emyr yn cydymdeimlo â'r Cynghorydd Gee?

ii. Pa rai o gynlluniau'r Cyngor mae Emyr **(a)** o'u plaid, a **(b)** yn eu herbyn?

iii. Pa rai o gynlluniau'r Cyngor mae'r Cynghorydd Gee **(a)** o'u plaid, a **(b)** yn eu herbyn?

iv. Sut gallai torri gwasanaethau ieuencid gostio mwy i'r Cyngor yn y pen draw, yn ôl Emyr?

v. Am beth mae Emyr a'r Cynghorydd yn cytuno'n llwyr?

vi. Sut gallai'r gwasanaethau ieuencid barhau heb y grant, yn ôl y Cynghorydd Gee?

vii. Beth yw barn y ddau am effaith codi pris parcio?

viii. Beth ddylai ddigwydd i dreth y Cyngor...

a. yn ôl Emyr? _____

b. yn ôl y Cynghorydd Gee? _____

3. Ysgrifennu

i. Erthygl neu adolygiad.

Mae tŷ bwyta newydd wedi agor yn eich ardal. Ysgrifennwch adolygiad ohono i' r papur lleol, gan nodi:

- pa fath o le yw hwn, pa fath o fwydlen a gynigir, a pha fath o awyrgylch sydd yno;
- un peth oedd ddim wedi eich plesio am y profiad;
- sut mae'r lle'n cymharu â thai bwyta eraill.

Dylech chi ysgrifennu rhwng 190 a 210 o eiriau.

ii. Llythyr ffurfiol

Ar ôl nifer o ddigwyddiadau yn eich ardal yn ddiweddar, rydych chi'n teimlo bod angen mwy o blismyn ar y stryd. Ysgrifennwch lythyr at y prif gwnstabl, gan nodi:

- pa fath o beth sy wedi digwydd yn ddiweddar;
- sut gallai mwy o blismyn helpu'r sefyllfa;
- barn pobl eraill yn yr ardal am y broblem.

Dylech chi ysgrifennu rhwng 190 a 210 o eiriau. Does dim angen i chi ysgrifennu'r cyfeiriad ar frig y llythyr.



Gwaith cartref - Uned 8

1. Gwybodaeth o iaith

Atebwch y cwestiynau isod:

- | | | | |
|------|-----------------------------------|-----|-------|
| i. | Wnei di fynd i'r dre? | (√) | _____ |
| ii. | Wnewch chi helpu? | (x) | _____ |
| iii. | Am saith o'r gloch mae'r rhaglen? | (√) | _____ |
| iv. | Ddylai'r plant adael yn syth? | (x) | _____ |
| v. | Fyddda i'n pasio? | (√) | _____ |
| vi. | Ddôn nhw'n gynnar? | (x) | _____ |

2. Darllen - Ffuglen

Darllenwch y darn, ac ateb y cwestiynau sy'n dilyn. Mae'r darn yn disgrifio hanes merch o lwyth yr Apache o'r enw 'Haul y Bore'. Daw'r darn allan o *I Ble'r Aeth Haul y Bore?* gan Eirug Wyn a gyhoeddwyd gan Wasg Y Lolfa.

Gwyddai Haul y Bore fod ei hamser wedi dod.

Ers misoedd roedd hi wedi teimlo'r plentyn yn tyfu ac yn tyfu y tu mewn iddi. Roedd hi wedi'i deimlo'n symud, yn cicio ac yn anesmwytho. Rŵan, fodd bynnag, roedd y poenau'n dod yn aml ac yn gyson ac roedd yn amser iddi fynd i'r goedwig ac at yr afon i eni. Casglodd fân bethau ynghyd. Blancedi a chadachau... a'r brigyn.

Gwenodd wrth estyn y brigyn. Roedd o'n chwe modfedd o hyd ac yn hanner modfedd o drwch. Hwn a roesai Chico'n anrheg iddi cyn cychwyn ar ei daith gyntaf gyda'r dynion eraill i hela'r byffalo.

"Pan ddof yn ôl, wedi profi fy hun i Geronimo, fe fydd gen ti Apache bach newydd yn anrheg i mi!" Dyna'i eiriau wrthi.

"Hanner Apache!" cellweiriodd hithau. "Efallai mai Apache yw ei dad ond cofia mai Navaho o waed coch cyfan ydw i!"

"Wel, fy Navaho bach i, cymer hwn!" meddai, gan estyn y brigyn iddi. "Pan fydd y poenau'n aml ac yn ormod, rho fo rhwng dy ddannedd a bratha."

Cusanodd hi.

"Mi fyddaf i hefo ti!"

Wrth i Haul y Bore adael ei phabell, roedd y merched eraill wedi dechrau

ymsgasglu gerllaw. Dechreuodd un uchelweiddi wrth ei gweld yn ymlwybro'n araf, ac atebwyd ei chri gan y lleill.

"Waw wow! Waw wow!"

Gwenodd Haul y Bore arnynt a chodi'i llaw. Dechreuodd gerdded yn araf at y coed a'r afon. Roedd hi'n cael trafferth i'w dal ei hun yn syth. Estynnodd ei llaw i gyffwrdd main ei chefn. Ochneidiodd.

Roedd ei chalon yn rasio gan ofn yr anhysbys. Roedd y merched eraill i gyd wedi rhannu'u profiadau â hi, ond rŵan, roedd o'n digwydd iddi hi. Yn digwydd go iawn. Wedi heddiw, gallai hithau rannu'i phrofiad â merched eraill. Ond am y munudau, efallai yr oriau nesaf, byddai ar ei phen ei hun bach. Ochneidiodd eto. Roedd hi'n unig.

Yn sydyn, roedd arni hiraeth am ei phobl ei hun. Ei thad, Manuelito, ei mam wen, Juanita, ei theulu a'i ffrindiau. Roedden nhw gartref yng Ngheunant de Chelley. Beth ar wyneb daear a wnaeth iddi adael ei phobl a symud at yr Apache? Chwarddodd am iddi ofyn y fath gwestiwn dwl. Onid oedd yr ateb yn syml? Chico!

Roedd y ddau ohonyn nhw'n adnabod ei gilydd er pan oedden nhw'n blant. Roedd yna hen draddodiad rhwng yr Apache a'r Navahos. Gan eu bod yn gefndryd, i ddynodi parhad eu cyfeillgarwch a'u perthynas byddent yn cyfarfod unwaith y flwyddyn i gyfnewid nwyddau a bwyd. Ar un o'r achlysuron hynny y cyfarfu Haul y Bore â Chico.

Ar y pryd roedd o'n bymtheg oed a hithau'n dair ar ddeg ac o'r dydd hwnnw dywedasai Geronimo a Manuelito mai Haul y Bore fyddai gwraig Chico ryw ddiwrnod. Roedd hi'n cofio'n iawn y diwrnod y cafodd ei chyflwyno iddo. Roedd yna ddiwedd yn llygaid gloywon y llanc wrth iddo wenu arni. Roedd hithau wedi dychwelyd ei wên. Roedd Chico wedi gafael yn ei llaw ac i ffwrdd â nhw at lannau'r Rio Grande. Yno, dangosodd Chico iddi'r fath bysgotwr medrus oedd o. Dangosodd iddi ei gamp gyda'r bwa saeth, ei fedruswydd gyda'r gyllell, a'i ddawn i farchogaeth ceffyl.

Cofiai'n dda geisio cuddio'i dagrau wrth i'r Navahos gychwyn ar eu taith adref i Geunant de Chelley. Roedd hi'n cofio troi'n ôl a gwylio Chico a Geronimo yn ymbellhau, yn smotiau o gysgodion duon ar y gorwel. Roedd hi'n cofio codi'i llaw a gweld ei law yntau a'i fwa yn yr awyr yn cydnabod ei ffarwél.

Ddwy flynedd yn ôl y bu hynny. Rŵan, roedd hi'n wraig iddo ers bron i flwyddyn ac wedi gadael ei theulu a'i llwyth i fod gyda Chico. Ble roedd o'r funud hon? Ar gefn ei geffyl yn hela'r byffalo efallai? Roedd hi'n gwybod fod yr helfa hon yn bwysig i Chico.

Plentyn amddifad oedd o, wedi'i fabwysiadu gan Geronimo pan laddwyd ei rieni gan y Mecsicaniaid wyth mlynedd ynghynt. Roedd Geronimo wedi gweld deunydd heliwr a rhyfelwr cadarn ynddo, a dyna pam roedd o wedi'i fabwysiadu. Roedd Chico eisoes wedi'i brofi'i hun yn heliwr medrus o amgylch y gwerysll, ac eleni, roedd o'n cael cyfle i'w brofi ei hun ar yr helfa flynyddol i ddarparu stôr o fwyd i'r Apache at y gaeaf.

1. Roedd Haul y Bore'n gwybod bod ei babi ar fin cyrraedd achos:

- a. roedd hi'n gallu teimlo'r plentyn yn cicio.
- b. roedd y plentyn tu fewn iddi wedi tyfu llawer.
- c. roedd hi'n teimlo'n anghyfforddus iawn.
- ch. roedd hi'n teimlo'r awydd i gasglu pethau.

2. Pam roedd brigyn ganddi?

- a. Yn arwydd o gariad gan ei chariad.
- b. I'w helpu yn ystod yr enedigaeth.
- c. Roedd hi'n mynd â'r brigyn i bob man.
- ch. Roedd ei weld yn ei gwneud yn hapus.

3. Pwy oedd yn helpu Haul y Bore yn ystod yr enedigaeth?

- a. Neb.
- b. Merched y pentref.
- c. Ei theulu.
- ch. Chico.

4. Sut roedd yr Apache a'r Navaho yn cadw cysylltiad â'i gilydd?

- a. Roedden nhw'n cyfarfod i drefnu priodasau.
- b. Roedden nhw'n cyfarfod ac yn rhannu pethau i helpu ei gilydd.
- c. Roedden nhw'n cyfarfod mewn digwyddiadau teuluol.
- ch. Roedden nhw'n cyfarfod yn flynyddol yng ngwersyll y Navahos.

5. Pa un yw'r disgrifiad gorau o Chico?

- a. Person llawn hwyl sy'n gwybod sut i gael bwyd.
- b. Person hapus sy'n hoffi cerdded.
- c. Person tawel sy'n gallu nofio'n dda.
- ch. Person swil sy'n gallu pysgota.

6. Ble roedd Chico'n byw yn ystod ei ardegau cynnar?

- a. Gyda'r Mecsicaniaid.
- b. Gyda'i rieni.
- c. Gyda Geronimo.
- ch. Gyda Haul y Bore.

Gwaith cartref - Uned 9



1. Gwybodaeth o iaith – Cyfieithwch

- i. *armchair* _____
- ii. *pencil case* _____
- iii. *apple tree* _____
- iv. *bookshop* _____
- v. *cherry tart* _____
- vi. *fruit salad* _____
- vii. *photo album* _____

2. Darllen – Darnau ffeithiol

Darllenwch y ddau ddarn isod ac atebwch y cwestiynau'n seiliedig arnynt. Dylech ateb y cwestiynau yn Gymraeg yn eich geiriau eich hun, lle bo hynny'n bosibl.

Darn 1

Annwyl Olygydd,

Gyrrais heibio i Lyn Tryweryn heddiw a rhyfeddu o weld mor isel oedd lefel y dŵr. Gallwn weld nifer o adfeilion yr hen bentref yn glir. Roedd y tir o gwmpas y llyn wedi melynu hefyd yn sgil sychder mawr y gwanwyn ac roedd olion tanau mawr y penwythnos diwetha i'w gweld yn glir ar ochrau'r mynydd.

Wedi cyrraedd adref, gwyliais y newyddion ar y teledu a gweld y lluniau erchyll o'r llifogydd yng Ngogledd yr India wedi glaw di-baid yr wythnosau diwethaf, llifogydd sy wedi gadael miloedd ar filoedd o bobl yn ddigartref. Aeth y bwletin yn syth ymlaen i ddangos effaith y corwynt nerthol sy wedi taro sawl rhan o India'r Gorllewin gan adael miloedd yno hefyd heb do uwch eu pennau.

Pa brawf pellach sy ei angen bod nwyon tŷ gwydr yn newid hinsawdd y ddaear mewn modd eithafol, a bod dyn yn prysur ddinistrio ei blaned ei hun?

Ond roedd gwaeth i ddod. Yr eitem nesa ar y newyddion oedd penderfyniad cynghorwyr Gwynedd i gymeradwyo cais Energy Solutions i adeiladu llosgydd glo ger hen safle atomfa Trawsfynydd. Fedrwn i ddim credu fy nghlustiau. Dwedodd llfarydd ar ran y Cyngor fod y llosgyddion diweddaraf yn effeithlon iawn ac yn achosi bron dim llygredd. Bron dim, sylwch, nid dim o gwbl! Faint o weithiau rydyn ni wedi clywed honiadau celwyddog fel hyn o'r blaen am ffatrioedd perffaith lân a pherffaith ddiogel? Dywedodd y llfarydd hefyd y byddai'r pwerdy'n dod â thua dau gant o swyddi parhaol i'r ardal ond y byddai angen cyflogi miloedd yn y tymor byr ar gyfer y gwaith adeiladu. Gwaith i bwy, tybed? Pobl o'r tu allan fyddai'r rhan fwyaf, mae'n siŵr. Pa effaith a gaiff hyn ar y Gymraeg mewn ardal lle mae'r iaith eisoes yn gwanhau'n gyflym?

Ychwanegodd y llefarydd y byddai glo rhad yn cael ei fewnforio o Asia gan adfywio porthladd Porthmadog. Adfywiad i Borthmadog, efallai, ond dim help o gwbl i adfywio hen gymoedd glo tlawd De Cymru, mae'n amlwg.

Oes rhywun wedi meddwl beth fydd ôl troed carbon y datblygiad hwn? A chofiwch am y tunelli o wastraff niwclear sy eisoes wedi'i gladdu ar y safle. Un camgymeriad bach wrth baratoi'r seiliau ar gyfer y llosgydd newydd, a bydd hi ar ben arnon ni i gyd.

Prif ddiben y llythyr hwn yw gwahodd pawb sy'n poeni am ddyfodol ein cymunedau, ein cenedl a'n planed i ymuno â ni mewn protest yn Nhrawsfynydd ddydd Sadwrn 3 Gorffennaf, gan ymgynnull wrth gofeb Hedd Wyn am 11.00. Hyderaf y dewch chi yn eich miloedd o bob cwr o Gymru i ddangos eich gwrthwynebiad i'r cynllun gwallgof yma. Nid mater lleol yn unig yw hwn; mae'n fater o'r pwys mwyaf i'r ddynoliaeth gyfan.

Yn gywir,
Glesni Prys
Parc y Rhath, Caerdydd

Darn 2

Annwyl Olygydd,

Teimlaf fod rhaid i mi ymateb i lythyr eithafol y Fonesig Glesni Prys a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf. Ydy'r gwres wedi mynd i'w phen hi, dwedwch? Mae hi wedi bod yn wanwyn sych a phoeth, digon gwir, ond does dim byd yn sinistr am hynny: mae tywydd Cymru wedi amrywio'n fawr o un flwyddyn i'r llall erioed. Dw i'n cofio gweld adfeilion hen bentref Capel Celyn pan aeth lefel y dŵr yn Llyn Tryweryn yn isel iawn yn ystod haf poeth 1976, ond faint o hafau gwlyb ac oer rydyn ni wedi'u cael ers hynny? A dydy llifogydd a chorwyntoedd ddim yn bethau dieithr yn India a'r Caribî, gwaetha'r modd. Dydy tywydd eleni ddim yn 'brawf' o fath yn y byd fod yr hinsawdd wedi newid.

A phwy ydy'r Fonesig Prys i wrthod y cyfle i bobl ifainc Gwynedd aros yn eu cymunedau a chael swyddi da ym mro eu mebyd? Y rheswm pam mae'r iaith Gymraeg wedi gwanhau yn ardal Trawsfynydd ydy bod cymaint o bobl ifainc eisoes wedi gorfod symud i ffwrdd i chwilio am waith.

Byddwn wrth fy modd yn gweld swyddi'n cael eu creu yng nghymoedd De Cymru hefyd, wrth gwrs, ond dw i'n amau a fyddai llawer o'r trigolion yn awyddus i weld y pyllau'n glo'n ailagor, gyda'r holl beryglon a llwch a gwastraff sy'n gysylltiedig â'r diwydiant hwnnw. Sut byddai'r Fonesig Prys yn teimlo pe bai sôn am agor pwll glo wrth garreg ei drws yn ei swbwrbia goediog yng Nghaerdydd, tybed?

Felly, ddarllenwyr, os oeddech chi wedi ystyried dod o Gymru benbaladr i'r brotest hon yn Nhrawsfynydd y mis nesa, gaf i ofyn i chi ailfeddwl, os gwelwch yn dda? Mater lleol ydy hwn, nid mater i bobl fawr Caerdydd, nac i'r Deyrnas Unedig nac i'r blaned gyfan. Os bydd pobl leol yn awyddus i fanteisio ar y cyfle

i wella eu safonau byw, gadewch lonydd iddyn nhw wneud y dewis hwnnw eu hunain. Ac os penderfynwch chi aros gartref, yn hytrach na gyrru yn eich miloedd o bob cwr o Gymru a thu hwnt, meddyliwch gymaint yn llai fydd eich ôl troed carbon am eich bod chi wedi gwneud y penderfyniad call i adael eich Volvos yn eich garej trwy'r dydd ar 3 Gorffennaf!

Yn gywir,
Dafydd Jones
Harlech

i. Cymharwch y tywydd diweddar yng Nghymru ac yn India.

ii. Beth sy'n gyffredin ynglŷn ag effaith y tywydd ar bobl Gogledd India a phobl y Caribî?

iii. Beth fydd effaith y llosgydd glo ar yr amgylchedd, yn ôl llefarydd y Cyngor?

iv. Sut bydd y glo'n cael ei gludo i'r ardal, yn ôl y llefarydd?

v. Ym mha ffordd roedd rhai o'r hafau dilynol yn wahanol i haf 1976?

vi. Pam na fyddai llawer o drigolion cymoedd De Cymru yn awyddus i weld pyllau glo'n ailagor, yn ôl Dafydd Jones?

vii. Cymharwch esboniadau Glesni a Dafydd am y tywydd diweddar.

viii. Cymharwch farn Glesni Prys a Dafydd Jones am effaith y llosgydd glo ar yr iaith Gymraeg yn yr ardal.

ix. Pwy ddylai benderfynu a ddylid adeiladu'r llosgydd glo ai peidio

(a) yn ôl Glesni Prys?

(b) yn ôl Dafydd Jones?

x. Ym mha ffordd byddai gwrandao ar gyngor Dafydd Jones i beidio â dod i'r brotest yn cefnogi un o safbwyntiau Glesni Prys?

3. Ysgrifennu Llythyr ffurfiol

Rydych chi wedi derbyn tocyn parcio, ac mae'n rhaid i chi dalu dirwy o £100 i'r Cwmni Parcio. Ysgrifennwch lythyr i'r cwmni, gan nodi:

- y problemau parcio yn y dref;
- pam roeddech chi wedi gorfod parcio yno;
- pam mae hi'n anodd i chi dalu'r ddirwy.

Dylech chi ysgrifennu rhwng 190 a 210 o eiriau.

Gair gan y tiwtor:

Gwaith cartref – Uned 10



1. Gwybodaeth o iaith – Ysgrifennwch unrhyw ansoddair ar ôl yr enwau hyn.

- i. taflen _____
- ii. rhosyn _____
- iii. safiad _____
- iv. teimlad _____
- v. ysbrydoliaeth _____
- vi. cenedl _____
- vii. deiseb _____
- viii. emosiwn _____
- ix. gwariant _____

2. Darllen – Ffuglen

Darllenwch y darn isod ac atebwch y cwestiynau'n seiliedig arno. Dylech ateb y cwestiynau yn Gymraeg yn eich geiriau eich hun, lle bo hynny'n bosibl. Daw'r darn allan o *Mr Blaidd*, gan Llwyd Owen a gyhoeddwyd gan Y Lolfa yn 2012.

Mae Fflur yn mynd i chwilio am ei chwaer (Ffion), ac yn cael lifft gan Peter...

"O ddifrif nawr, *seriously*, ti byth wedi bod ymhellach nag Aberhonddu o'r blaen? Wel, wel, wel..." ysgydwodd Peter Stumpp ei ben mewn anghrediniaeth lwyr wrth yrru'i *pick-up* tun tiwna'n rhy gyflym yn y tywyllwch tua'r de. "Faint ydy dy oed di? Os ca' i ofyn *like*."

"Ugain," atebodd Fflur, heb wybod beth oedd gan hynny i'w wneud ag unrhyw beth.

"Pam?"

"Pam, beth?"

"Pam nad wyt ti 'di gadael cartre cyn nawr?"

Meddylodd Fflur cyn ateb, ac roedd ei rhesymeg yn swnio braidd yn wan, hyd yn oed iddi hi'i hun. "Merch y wlad ydw i a dyw mynd i'r dre neu i ddinas erioed wedi apelio ata i. Gweithio'r tir a gofalu am yr anifeiliaid ar y fferm, dyna lle dw i hapusa. Yn gweld y gwryddni'n ymestyn at y gorwel ym mhob cyfeiriad, yn clywed yr adar yn y coed a'r breffu ar y buarth..." Tawelodd cyn i'w geiriau barddonol sentimental droi'n ganu gwlad cawslyd.

Taniodd Peter fwgyn arall, ei bumed mewn deugain munud, ac agor ei ffenest unwaith eto er mwyn gadael i'r mwg ddianc i'r nos. Nodiodd ei ben, fel tasai'n deall yn iawn, ond sut gallai e, ac yntau'n byw bywyd mor wahanol iddi hi, heb wybod yn iawn beth oedd ystyr gwreiddiau.

Dechreuodd Fflur y daith o'r dafarn yn teimlo fel petai Guto wedi'i gorfodi i fynd gyda Peter yn erbyn ei hewyllys, ond gyda'r milltiroedd yn diflannu o dan olwynion y *pick-up*, roedd hi'n falch erbyn hyn iddo wneud hynny. Er ei hamheuron cynharach, roedd Peter yn gwmni da ac yn dangos cryn ddiddordeb

ynndi. Yn ogystal â smocio'n ddi-stop, roedd e'n siarad fel pwll y môr, gan ofyn cwestiynau lu ac adrodd stori ar ôl stori.

Almaenwr oedd Peter Stumpp, ond bu'n byw mewn degau o lefydd gwahanol ers iddo adael ei dref enedigol – Bedburg, ger Köln – rhyw bymtheg mlynedd ynghynt. Roedd yn byw yng Ngerddi Hwyan ers rhyw flwyddyn bellach, a dyna'r cyfnod hiraf iddo aros yn un lle ers iddo adael yr Almaen. Roedd e'n byw fel sipsi modern, yn teithio o le i le fel y mynnai – weithiau'n pigo ffrwythau neu'n lladd ieir ar ffermydd dwys, ar adegau eraill yn tynnu peints mewn tafarndai, yn gweithio ar y ffyrdd neu'n labro. Ar hyn o bryd, roedd yn gweithio i gwmni gwerthu peiriannau amaethyddol, ac er nad oedd yn mwynhau'r swydd ryw lawer, roedd hi'n talu'r rhent ac yn ei gadw mewn tybaco. Roedd rhywbeth hudol am ei fodolaeth, rhywbeth rhamantaidd, a gwrandawai Fflur arno fel plentyn ysgol yn gwrandao ar stori'r athrawes.

Roedd ganddo gyn-wraig, a honno'n ei atal rhag gweld ei ddau fab – Bastien a Gerd – a daeth rhyw gwmwl drosto am funud neu ddwy wrth iddo sôn amdani. Crychodd yr un ael oedd uwchben ei lygaid deuliw – un glas ac un brown – a dweud, "Chi'n methu sgwennu *estranged* heb gynnwys y gair *strange*, ac mae'n ex i'n fenyw ryfedd iawn..." cyn ailgydio yn ei hiwmor a newid ffocws y sgwrs.

Parhâi'r sgwrs i lifo wrth i Peter wthio'r *pick-up* ymlaen drwy'r nos a synnodd Fflur ei bod hi'n siarad mor agored ag e, â dieithryn, hynny yw. Ond ar ôl mis o dawelwch yn ystod diflaniad Ffion a mudandod ei rhieni, roedd cymeriad hawddgar Peter Stumpp yn gwneud i Fflur deimlo fel petai, efallai, wedi ffeindio ffrind. Un ai hynny, neu fod yr unigrwydd diweddar wedi effeithio arni'n fwy nag roedd hi'n fodlon ei gyfaddef.

Wrth i'r glaw barhau i disgyn, syllai Fflur ar y wipers yn symud ar y ffenest o'i blaen, 'nôl a mlaen, 'nôl a mlaen, 'nôl a mlaen fel metronom.

"Byddwn ni 'na mewn rhyw awr fach..." meddai Peter wrth iddynt basio arwydd yn datgan bod 53 o filltiroedd eto cyn iddynt gyrraedd pen eu taith.

Tawelodd y sgwrs yn sydyn, felly trodd Peter y chwaraeydd tapiau ymlaen er mwyn cyflwyno Fflur i'w hoff fath o gerddoriaeth: *Country & Western*.

Gwenodd Fflur wrth glywed nodau'r gitâr pedal dur: dylsai fod wedi dyfalu pan welodd y mwled a dillad y gyrrwr – sef jîns tyn a chrys siec coch a gwyn. Ond mewn gwirionedd, roedd Fflur ei hun yn hoff o lwcs a Doyle, Iona ac Andy, a hyd yn oed John ac Alun, diolch i allbwn echrydus yr orsaf radio leol oedd i'w glywed yn ei chartref o fore gwyn tan nos. Felly roedd ychydig bach o Willy Nelson yn fwy na derbyniol.

Wrth basio arwydd arall yn dangos bod ugain milltir arall cyn cyrraedd eu cyrchfan, dechreuodd y sgwrs lifo unwaith eto. Teimlai Fflur yn ddiogel yng nghwmni Peter a byddai cyrraedd y dref rywfodd ddim mor erchyll gyda fe'n gwmni iddi.

Peidiodd y glaw ymhen rhyw ddeng milltir a gwasgarodd y cymylau gan adael i'r sêr ddisgleirio o dan ddwfe'r ffurfafen.

1. Beth oedd yn synnu Peter ynglŷn â Fflur?

- a. Doedd hi ddim wedi teithio'n bell.
- b. Ei bod hi'n dod o'r wlad.
- c. Ei bod hi'n ugain oed.
- ch. Ei bod hi wedi gadael cartre.

2. Beth roedd Fflur yn ei hoffi?

- a. byw yn y dre
- b. canu gwlad
- c. caws cryf
- ch. gweithio yn yr awyr agored

3. Beth ddigwyddodd bymtheg mlynedd yn ôl?

- a. Dechreuodd Peter werthu peiriannau amaethyddol.
- b. Dechreuodd Peter ysmegu.
- c. Symudodd Peter i fyw yng Nghymru.
- ch. Symudodd Peter o'r Almaen.

4. Pa mor aml roedd Peter yn gweld ei blant erbyn hyn?

- a. bob mis
- b. yn achlysurol
- c. byth
- ch. pan oedd e yn Yr Almaen

5. Rhowch un rheswm pam nad oedd Fflur wedi sgwrsio llawer yn ystod y mis diwetha.

- a. Doedd ei rhieni hi ddim yn siarad.
- b. Ffion oedd ei hunig ffrind.
- c. Roedd hi ar ei phen ei hun.
- ch. Roedd hi'n teimlo'n sâl.

vi. Pam roedd Fflur wedi clywed cymaint o ganeuon John ac Alun?

- a. Eu halbwm nhw oedd hoff albwm ei rhieni.
- b. Gwelodd hi nhw mewn gig gyda Iwcs a Doyle, Iona ac Andy.
- c. Roedd tâp ohonyn nhw'n canu ganddi.
- ch. Roedden nhw ar y radio drwy'r amser

6. Pam roedd Fflur yn poeni llai am gyrraedd y dre?

- a. Byddai Peter gyda hi.
- b. Dim ond ugain milltir o'r daith oedd ar ôl.
- c. Roedd hi wedi cael cyfle i siarad.
- ch. Roedd y tywydd yn well.

3. Ysgrifennu Llythyr ffurfiol

Mae perthynas i chi'n byw mewn cartref henoed lleol. Mae'r Cyngor wedi dweud eu bod nhw'n mynd i gau'r cartref a symud pawb i adeilad newydd pwrpasol dros ugain milltir i ffwrdd. Ysgrifennwch llythyr at eich cynghorydd lleol, gan sôn am:

- sut mae eich perthynas yn teimlo am y cartref lle mae'n byw ar hyn o bryd;
- anfanteision symud i'r adeilad newydd;
- sut rydych chi'n bwriadu mynd â'r mater ymhellach.

Dylech chi ysgrifennu rhwng 190 a 210 o eiriau. Does dim angen i chi ysgrifennu'r cyfeiriad ar frig y llythyr.

Gair gan y tiwtor:

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

.....

Geirfa

ans. – *adj.*, ben. – *fem.*, gwr. – *masc.*, bôn – *stem*

A

absenoldeb (gwr.) – *absence*; absenoldebau – *absences*
 achos brys (gwr.) – *an emergency case*; achosion brys – *emergency cases*
 adfywiad (gwr.) – *regeneration, renewal*
 adfywio – *to regenerate, to revive* (bôn: adfywi-)
 adsefydlu – *to resettle* (bôn: adsefydl-)
 addysgol – *educational*
 aeddfed – *mature*
 ael (ben.) – *an eyebrow*; aelïau – *eyebrows*
 afieithus – *exuberant*
 aflonydd – *restless*
 afresymol – *unreasonable*
 Affricanaidd – *African*
 anghyfrifol – *irresponsible*
 anghyfforddus – *uncomfortable*
 angladdol – *funereal*
 ailethol – *to re-elect* (bôn: ailethol-)
 ailfeddwl – *to rethink* (bôn: ailfeyddyli-)
 ailgydio (yn) – *to resume* (bôn: ailgydi-)
 allbwn (gwr.) – *output*; allbynnau – *outputs*
 amau – *to doubt, to suspect* (bôn: amheu-)
 amddifad – *orphaned*
 amddifadu – *to deprive* (bôn: admddifad-)
 amgyffred – *to comprehend* (bôn: amgyffr-)
 amgylcheddwr (gwr.) – *an environmentalist*; amgylcheddwyr – *environmentalists*
 amod (gwr.) – *a condition*; amodau – *conditions*
 amrwd – *raw*
 Amwythig (ben.) – *Shrewsbury*
 anesmwytho – *to become uncomfortable* (bôn: anesmwyth-)
 anfaddeuol – *unforgivable*
 anhysbys – *unknown*
 annerbyniol – *unacceptable*
 annhebygol – *unlikely*
 annibyniaeth (ben.) – *independence*
 annymunol – *unpleasant*
 anobaith (gwr.) – *despair*
 anorfod – *unavoidable, inevitable*
 ansawdd (gwr.) – *quality*
 anystywallt – *unmanageable, unruly*
 ar draws – *across*
 ar y blaen – *in the lead*
 ar y cyd – *together*
 araf deg – *slowly and surely*
 arallfydol – *otherworldly*
 arddodiad (gwr.) – *a preposition*; arddodiaid – *prepositions*
 argraff (ben.) – *an impression*; argraffiadau – *impressions*
 argyfwng (gwr.) – *a crisis, an emergency*; argyfyngau – *crises, emergencies*

arhosiad (gwr.) – *a stay*
 ariannog – *rich*
 arlwyo – *to cater* (bôn: arlwy-)
 arswydus – *fearful, frightful*
 arweiniad (gwr.) – *leadership*
 arwyddair (gwr.) – *motto*; arwyddeiriau – *mottos*
 asen (ben.) – *a rib*; asennau – *ribs*
 atal (rhag) – *to prevent (from)* (bôn: atali-)
 atomfa (ben.) – *a nuclear power station*; atomfeydd – *nuclear power stations*
 awtistig – *autistic*
 awyru – *to air* (bôn: awyr-)

B

baich (gwr.) – *burden*; beichiau – *burdens*
 barddonol – *poetic*
 beibl (gwr.) – *a bible*; beiblau – *bibles*
 beirniadol – *critical*
 benbaladr – *all over* (Cymru benbaladr)
 benthyciad (gwr.) – *a loan*; benthyciadau – *loans*
 berfenw (gwr.) – *a verb-noun, an infinitive*; berfenwau – *verb-nouns, infinitives*
 blewyn (gwr.) – *a hair*; blew – *hairs*
 bod â'ch bryd ar – *to have your mind set on*
 bodloni – *to satisfy* (bôn: bodlon-)
 bodolaeth (ben.) – *existence*
 boddhad (gwr.) – *satisfaction*
 boddhaol – *satisfactory*
 boddhaus – *satisfying*
 bogel (gwr.) – *a belly button*
 Bonesig (ben.) – *Lady* (teitl)
 boreol – *morning* (yn perthyn i'r bore)
 braint (ben.) – *a privilege*; breintiau – *privileges*
 brân (ben.) – *a crow*; brain – *crows*
 brathu – *to bite*
 brefu – *to bleat*
 brenhinol – *royal*
 brith gof – *a faint memory*
 bro mebyd – *home ground*
 brodor (gwr.) – *a native*; brodorion – *natives*
 brodorol – *native* (ans.)
 buddsoddiad (gwr.) – *an investment*; buddsoddiadau – *investments*
 busnesu – *to pry* (bôn: busnes-)
 bwa a saeth – *bow and arrow*
 bychanu – *to belittle* (bôn: bychan-)
 byddar – *deaf*
 byddin (ben.) – *an army*; byddinoedd – *armies*
 bygythiad (gwr.) – *a threat*; bygythiadau – *threats*
 bywydeg (ben.) – *biology*

C

cadach (gwr.) – *a rag*; cadachau – *rags*
 cadw draw – *to keep away* (bôn: cadw-)
 cael gafael (ar) – *to get hold (of)*
 caledu – *to harden, to solidify* (bôn: caled-)
 camagraff (gwr.) – *a wrong impression*; camagraffiadau – *wrong impressions*
 camsyniad (gwr.) – *a misconception, error, mistake*; camsyniadau – *misconceptions, errors, mistakes*
 camu – *to step* (bôn: cam-)
 canlyn – *to follow, to court*
 canlynol – *following*
 canran (ben.) – *a percentage*; canrannau – *percentages*
 canu gwlad – *country and western (music)*
 carfan (ben.) – *a squad, a cohort*; carfannau – *squads, cohorts*
 cartrefu – *to house* (bôn: cartref-)
 cawslyd – *cheesey*
 Cefnfor Iwerydd – *Atlantic Ocean*
 cefnogol – *supportive*
 ceisiwr lloches (gwr.) – *an asylum seeker*; ceiswyr lloches – *asylum seekers*
 celwyddog – *untruthful*
 cellwair – *to joke*
 cenedl noddfa (ben.) – *a nation of sanctuary*
 Cenhedloedd Unedig – *United Nations*
 cip (gwr.) – *a glimpse*
 cipio – *to snatch* (bôn: cipi-)
 cipolwg (gwr.) – *a glimpse, a snapshot*; cipolygon – *glimpses, snapshots*
 claerwyn – *shining white*
 clawdd (gwr.) – *a hedge*; cloddiau – *hedges*
 Clawdd Offa – *Offa's Dyke*
 clefyd y siwgr (gwr.) – *diabetes*
 clodwiw – *praiseworthy*
 cloffni (gwr.) – *lameness*
 closio (at) – *to get closer (to)* (bôn: closi-)
 cnoi – *to bite, to chew* (bôn: cnoi-)
 codiad cyflog (gwr.) – *a pay rise*; codiadau cyflog – *pay rises*
 coediog – *leafy*
 côl (ben.) – *lap*
 comisiynydd (gwr.) – *a commissioner*; comisiynwyr – *commissioners*
 concriid/concrit (gwr.) – *concrete*
 consýrn (gwr.) – *concern*
 corn (gwr.) – *horn*; cyrn – *horns*
 craffu (ar) – *to scrutinise* (bôn: craff-)
 creadigrwydd (gwr.) – *creativity*
 crebachu – *to decrease, to contract, to shrivel* (bôn: crebach-)
 creiddiol – *core*
 cri (ben.) – *a cry*
 crychu – *to wrinkle* (bôn: crych-)
 crynhoi – *to summarise* (bôn: crynho-)
 crynu – *to shake, to shiver, to tremble* (bôn: cryn-)

culfor (gwr.) – *a strait*; culforoedd – *straits*
 cusanu – *to kiss* (bôn: cusan-)
 cwcw (ben.) – *a cuckoo*; cwcwôd – *cuckoos*
 cwest (gwr.) – *an inquest*; cwestau – *inquests*
 cwmpawd (gwr.) – *a compass*; cwmpawdau – *compasses*
 cyd-destun (gwr.) – *context*; cyd-destunau – *contexts*
 cydweithrediad (gwr.) – *cooperation*
 cyd-weld (â) – *to agree (with)* (bôn: cydwel-)
 cydymdeimlo (â) – *to sympathise (with)* (bôn: cydymdeiml-)
 cydymffurfio (â) – *to conform (with)* (bôn: cydymffurfi-)
 cyfalafol – *capitalist*
 cyflaith (gwr.) – *toffee*
 cyfleustra (gwr.) – *convenience*
 cyflwr (gwr.) – *state, condition*
 cyflymder (gwr.) – *speed*
 cyfoeswr (gwr.) – *a contemporary*; cyfoeswyr – *contemporaries*
 cyfredol – *current*
 cyfrifiad (gwr.) – *a census*
 cyfrifoldeb (gwr.) – *a responsibility*; cyfrifoldebau – *responsibilities*
 cyfrinachol – *confidential*
 cyfriniol – *mystical*
 cyfundrefn (ben.) – *system*; cyfundrefnau – *systems*
 cyffwrdd (â) – *to touch* (bôn: cyffyrdd-)
 cyhuddo – *to accuse* (bôn: cyhudd-)
 cyllideb (ben.) – *a budget*; cyllidebau – *budgets*
 cymedrol – *moderate*
 cymeradwyo – *to applaud, to approve* (bôn: cymeradwy-)
 cymharol – *comparative*
 Cymreictod (gwr.) – *Welshness*
 Cymreigio – *to make (more) Welsh* (bôn: Cymreigi-)
 cynaliadwy – *sustainable*
 cynddeiriogi – *to infuriate* (bôn: cynddeiriog-)
 cynfas (gwr.) – *a canvas*; cynfasau – *canvases*
 cynhyrchydd (gwr.) – *a producer*; cynhyrchwyr – *producers*
 cynnau – *to light, to switch on* (bôn: cynheu-)
 cynrychioli – *to represent* (bôn: cynrychiol-)
 cyson – *consistent*
 cysondeb (gwr.) – *consistency*; cysondebau – *consistencies*
 cysur (gwr.) – *a comfort*; cysuron – *comforts*
 cysylltiedig (â) – *connected (to)*
 cytgorf (gwr.) – *harmony*
 cytuno'n llwyr – *to completely agree*
 cywiro – *to correct* (bôn: cywir-)
 cywreindeb (gwr.) – *curiosity, dexterity, refinement*

Ch

chwant (gwr.) – *a desire*; chwantau – *desires*
 chwaraeydd (gwr.) – *a player*; chwaraewyr – *players*
 chwistrelliad (gwr.) – *an injection*; chwistrelliadau – *injections*

D

dadbacio – *to unpack* (bôn: dadbaci-)
 dan glo – *locked up*
 dan sylw – *under consideration*
 dan y lach – *being criticised*
 darlithydd (gwr.) – *a lecturer*; darlithwyr – *lecturers*
 darpariaeth (ben.) – *a provision*; darpariaethau – *provisions*
 datganiad (gwr.) – *a statement*; datganiadau – *statements*
 datrysiad (gwr.) – *a solution*; datrysiadau – *solutions*
 deallusol – *intellectual*
 deiseb (ben.) – *a petition*; deisebau – *petitions*
 delfryd (gwr.) – *an ideal*; delfrydau – *ideals*
 delwedd (ben.) – *an image*; delweddau – *images*
 derwen (ben.) – *an oak tree*; derw – *oak trees*
 deufis – *two months*
 dewr – *brave*
 dianaf – *unhurt, not injured*
 diarffordd – *remote*
 diarhebol – *proverbial*
 diben (gwr.) – *aim, purpose*; dibenion – *aims*
 diddordeb ysgol – *a keen interest*
 dieithr – *strange*
 dieithryn (gwr.) – *a stranger*; dieithriaid – *strangers*
 diflasu (ar) – *to become miserable, to become bored (with)* (bôn: diflas-)
 difodiant (gwr.) – *extinction*
 digalonni – *to become disheartened* (bôn: digalonn-)
 digywilydd – *shameless*
 dihysbyddu – *to drain, to exhaust* (bôn: dihysbydd-)
 dileu – *to delete* (bôn: dile-)
 dilynol – *following*
 diod feddwol (ben.) – *an alcoholic drink*; diodydd mewnol – *alcoholic drinks*
 direidi (gwr.) – *mischief*
 dirfawr angen – *a great need*
 dirgrynu – *to vibrate* (bôn: dirgryn-)
 dirywiad (gwr.) – *deterioration*
 dirywio – *to deteriorate* (bôn: diryw-)
 disgwylidig – *expected*
 disgyblaeth (ben.) – *discipline*; disgyblaethau – *disciplines*
 disgyblu – *to discipline* (bôn: disgybl-)
 disgyn – *to descend, to fall* (bôn: disgynn-)
 diymadferth – *helpless*
 diystyru – *to disregard* (bôn: diystyri-)
 dod at eu coed – *to come to their senses*
 dod i'r amlwg – *to come to light*
 dros dro – *temporary*
 drudfawr – *very expensive*
 drwgweithredwr (gwr.) – *a villain*; drwgweithredwyr – *villains*
 drysu – *to confuse* (bôn: drys-)
 dryw (gwr.) – *a wren*; drywod – *wrens*

Dulyrn (ben.) – *Dublin*
 düwch (gwr.) – *blackness*
 dwyn pwysau (ar) – *to put pressure (on)*
 dychmygol – *imaginary*
 dychmygu – *to imagine* (bôn: dychmyg-)
 dyddiedig – *dated* (llythyr)
 dyfais (ben.) – *a device, a gadget*; dyfeisiau – *devices, gadgets*
 dyfalbarhad (gwr.) – *perseverance*
 dyfeisio – *to invent* (bôn: dyfeis-)
 dylanwad (gwr.) – *an influence*; dylanwadau – *influences*
 dylunydd (gwr.) – *a designer*; dylunwyr – *designers*
 dymuno – *to wish* (bôn: dymun-)
 dynoliaeth (ben.) – *humanity*
 dysgedig – *learned*

Dd

ddim yn fêl i gyd – *not a bed of roses*

E

eang – *broad*
 ecosystem (ben.) – *ecosystem*; ecosystemau – *ecosystems*
 echrydus – *appalling*
 effaith andwyol – *a detrimental effect*
 effeithlon – *efficient*
 egwyddor (ben.) – *a principle*; egwyddorion – *principles*
 eilio – *to second* (bôn: eili-)
 eilunaddoli – *to idolise* (bôn: eilunaddol-)
 eithrio – *to exclude, to exempt* (bôn: eithri-)
 elfen (ben.) – *an element*; elfennau – *elements*
 elw (gwr.) – *profit*
 enaid (gwr.) – *a soul*; eneidiau – *souls*
 encil (gwr.) – *a retreat*; encilion – *retreats*
 er gwell – *for the better*
 er lles – *for the benefit (of)*
 erbyn deall – *having understood*
 erchyll – *terrible*
 erlyn – *to prosecute* (bôn: erlyn-)
 ers oes pys – *since ages*
 erw (gwr.) – *an acre*; erwau – *acres*
 estynedig – *extended*
 ewin (gwr.) – *a nail*; ewinedd – *nails*
 ewylllys (gwr.) – *a will*; ewyllysiau – *wills*

F

f(e)irws (gwr.) – *a virus*; feirysau – *viruses*
 fel arall – *otherwise*
 Fictoraidd – *Victorian*
 fodd bynnag – *however*

Ff

ffafriol – *favourable*
 ffenomen (ben.) – *a phenomenon*; ffenomenau – *phenomena*
 ffiaidd – *disgusting*
 ffocws (gwr.) – *a focus*; ffocysau – *foci*
 ffoi – *to flee* (bôn: ffo-)
 fforddiadwy – *affordable*
 ffrae (ben.) – *a row*; ffraeon – *rows*
 ffrwydr(i)ad (gwr.) – *an explosion*; ffrwydriadau – *explosions*
 ffugenw (gwr.) – *a nickname*; ffugenwau – *nicknames*
 ffurfafen (ben.) – *firmament*; ffurfafennau – *firmaments*
 ffurfio – *to form* (bôn: ffurf-)
 ffyrnigrwydd (gwr.) – *ferocity*

G

galluogi – *to enable* (bôn: galluog-)
 garlleg (gwr.) – *garlic*
 geirwir – *truthful*
 giât (ben.) – *a gate*; giatiau – *gates*
 glanweithdra (gwr.) – *cleanliness, hygiene*
 glin (gwr.) – *lap*; gliniau – *laps*
 gloyw – *bright*
 glynu (wrth) – *to stick (to)* (bôn: glyn-)
 go brin – *hardly, scarcely*
 gobennydd (gwr.) – *a pillow*; gobenyddion – *pillows*
 goddef – *to put up with, to suffer* (bôn: goddef-)
 gof (gwr.) – *a blacksmith*; gofaint – *blacksmiths*
 gohebu – *to report, to correspond* (bôn: goheb-)
 gordewdra (gwr.) – *obesity*
 gorfodi – *to force, to compel* (bôn: gorfod-)
 gorllewinol – *western, westernised*
 goroesi – *to survive* (bôn: goroes-)
 goruchwyliaeth (ben.) – *supervision*
 gorymdaith (ben.) – *a parade, a march*; gorymdeithiau – *parades, marches*
 graddfa (ben.) – *a scale*; graddfeydd – *scales*
 graddol – *gradual*
 graeanu – *to grit* (bôn: graean-)
 gwaetha'r modd – *worse luck*
 gwair (gwr.) – *hay*
 gwallgof – *mad*
 gwamalu – *to be frivolous* (bôn: gwamal-)
 gwariant (gwr.) – *expenditure*
 gwarthus – *disgraceful*
 gwas (gwr.) – *a servant*; gweision – *servants*
 gwasgaru – *to spread, to scatter* (bôn: gwasgar-)
 gwastraffus – *wasteful*
 gwawrio – *to dawn* (bôn: gwawri-)
 gweddi (ben.) – *a prayer*; gweddiâu – *prayers*
 gwefr (ben.) – *a thrill*; gwefrau – *thrills*

gweinyddu – *to administer, to officiate* (bôn: gweinydd-)
 gweithdrefn (ben.) – *procedure*; gweithdrefnau – *procedures*
 gweithlu (gwr.) – *workforce*
 gweithredu – *to take action* (bôn: gweithred-)
 gweledigaeth (ben.) – *a vision*; gweledigaethau – *visions*
 gwgu – *to frown* (bôn: gwg-)
 gwirio – *to check* (bôn: gwiri-)
 gwirioneddol hoff (o) – *extremely fond (of)*
 gwneud iawn am – *to make up for*
 gwneuthuriad (gwr.) – *make, composition*
 gwresogi – *to heat* (bôn: gwresog-)
 gwriddo – *to blush* (bôn: gwridd-)
 gwrthwynebiad (gwr.) – *opposition*; gwrthwynebiadau – *oppositions*
 gwrthwynebu – *to oppose* (bôn: gwrthwyneb-)
 gwrthwynebu'n chwyn – *to vehemently oppose* (bôn: gwrthwyneb-)
 Gwyddeleg – *Irish* (iaith)
 gwyddor (yr wyddor) (ben.) – *the alphabet*
 gwyfyn (gwr.) – *a moth*; gwyfynod/gwyfod – *moths*
 gwyrddni (gwr.) – *greenness*
 gwywo – *to wither* (bôn: gwyw-)
 gyrfa (ben.) – *a career*; gyrfaoedd – *careers*

H

haid (ben.) – *a flock, a swarm*; heidiau – *flocks, swarms*
 haint (gwr.) – *an infection*; heintiau – *infections*
 hawddgar – *amiable*
 helaeth – *extensive*
 helfa (ben.) – *a hunt, a catch*; helfeydd – *hunts, catches*
 heliwr (gwr.) – *a hunter*; helwyr – *hunters*
 heneiddio – *to grow old* (bôn: heneiddi-)
 hinsawdd (ben.) – *climate*
 hiraethu (am) – *to long (for)* (bôn: hiraeth-)
 hongian – *to hang* (bôn: hong-i-)
 honni – *to claim, to allege* (bôn: honn-)
 hunangyflogedig – *self-employed*
 hunanymwybodol – *self-conscious*
 hwyluso – *to facilitate* (bôn: hwylus-)
 hyd (gwr.) – *length*; hydoedd – *lengths*
 hyderu – *to trust, to hope* (bôn: hyder-)
 hylendid (gwr.) – *hygiene*

I

iechyd meddwl – *mental health*
 ildio – *to yield, to give up* (bôn: ildi-)
 isadeiledd (gwr.) – *infrastructure*; isadeileddau – *infrastructures*
 isymwybod (gwr.) – *subconscious*

L

loes calon – *cause of distress*
 lwfans (gwr.) – *allowance*; lwfansau – *allowances*

LI

llachar – *bright*
 llaes – *long*
 llafariad (ben.) – *a vowel*; llafariaid – *vowels*
 lleddfu – *to ease* (bôn: lleddf-)
 llesol – *beneficial*
 lletya – *lodge, to have accommodation* (bôn: llety-)
 lletygarwch (gwr.) – *hospitality*
 llifyn (gwr.) – *a dye*; llifynnau – *dyes*
 llofnodi – *to sign* (bôn: llofnod-)
 llosgydd (gwr.) – *an incinerator*; llosgyddion – *incinerators*
 llu (gwr.) – *a force, a host*; lluoedd – *forces, hosts*
 llu awyr – *air force*
 llwm – *bleak, bare, destitute*
 llwyr – *complete*

M

macrell (gwr.) – *a mackerel*; mecryll – *mackerels*
 mae'n bryd... – *it's time*
 magwraeth (ben.) – *upbringing*
 main y cefn – *spine*
 maith – *extensive*
 malu – *to grind* (bôn: mal-)
 mân – *small*
 Manceinion (ben.) – *Manchester*
 manteisio (ar) – *to take advantage (of)* (bôn: manteisi-)
 marchogaeth – *to ride* (ceffyl) (bôn: marchog-)
 marwolaeth (ben.) – *death*; marwolaethau – *deaths*
 masnach (ben.) – *trade*; masnachau – *trades*
 medrus – *capable*
 medrusrwydd (gwr.) – *capability*
 meddygaeth (ben.) – *medicine* (y pwnc)
 melynu – *to become yellow* (bôn: melyn-)
 mewnforio – *to import* (bôn: mewnfori-)
 moesegol – *ethical*
 môr-leidr (gwr.) – *a pirate*; môr-ladron – *pirates*
 mudandod (gwr.) – *dumbness*
 mur (gwr.) – *a wall*; muriau – *walls*
 murmur (gwr.) – *a murmur*; murmuron – *murmurs*
 mwgyn (gwr.) – *a cigarette*
 mymryn – *a little*
 mynd yn angof – *to be forgotten*
 mynegi – *to express* (bôn: myneg-)
 mynychu – *to attend* (bôn: mynych-)

N

nawdd (gwr.) – *sponsorship*
 negyddol – *negative*
 neilon (gwr.) – *nylon*
 nerthol – *powerful*
 newyddiaduraeth (ben.) – *journalism*
 newyddiadurwr (gwr.) – *a journalist*; newyddiadurwyr – *journalists*
 nosi – *to grow dark* (bôn: nos-)

O

o bryd i'w gilydd – *from time to time*
 o ran – *regarding*
 o'r golwg – *out of sight*
 ochneidio – *to moan, to groan* (bôn: ochneidi-)
 oedrannus – *old, aged*
 offeiriad (gwr.) *a priest*; offeiriaid – *priests*
 ôl (gwr.) troed – *a footprint*; olion traed – *footprints*
 ôl-radd – *postgraduate*
 o'r crud i'r bedd – *lifelong*
 o'r pwys mwyaf – *of the greatest importance*
 organig – *organic*
 oriau bwy gilydd – *many hours, lots of time*

P

padell (ben.) – *a pan*; padellau – *pans*
 pafin (gwr.) – *a pavement*; pafinau – *pavements*
 palas (gwr.) – *a palace*; palasau – *palaces*
 parablu – *to talk incessantly* (bôn: parabl-)
 paradwys (ben.) – *paradise*; paradwysau – *paradises*
 parhad (gwr.) – *continuation*
 parodrwydd (gwr.) – *willingness*
 patrwm (gwr.) – *a pattern*; patrymau – *patterns*
 pedal (gwr.) – *a pedal*; pedlau – *pedals*
 peintiad (gwr.) – *a painting*; peintiadau – *paintings*
 peirianeg (ben.) – *engineering*
 pellgyrhaeddol – *far-reaching*
 pensaer (gwr.) – *an architect*; penseiri – *architects*
 perl (gwr.) – *a pearl*; perlau – *pearls*
 persbectif (gwr.) – *a perspective*; persbectifau – *perspectives*
 petrus – *worried, hesitant*
 plesio – *to please* (bôn: plesi-)
 plymio – *to dive, to dip* (bôn: plymi-)
 pregethu – *to preach* (bôn: pregeth-)
 pregethwr (gwr.) – *a preacher*; pregethwyr – *preachers*
 presenoldeb (gwr.) – *presence, attendance*
 prif weithredwr – *chief executive*
 prinder (gwr.) – *scarcity, lack*
 priodol – *appropriate*

proffidiol – *profitable*
 prosesu – *to process* (bôn: proses-)
 protest (ben.) – *a protest*; protestiadau – *protests*
 pryder (gwr.) – *a concern*; pryderon – *concerns*
 pulpud (gwr.) – *a pulpit*; pulpudau – *pulpits*
 pwerdy (gwr.) – *a powerhouse, power station*; pwerdai – *powerhouses, power stations*
 pwrpasol – *purposeful, bespoke*

R

Rh

rhagfarn (ben.) – *prejudice*; rhagfarnau – *prejudices*
 rhagweld – *to foresee* (bôn: rhagwel-)
 rhamantaidd – *romantic*
 rheithgor (gwr.) – *a jury*; rheithgorau – *juries*
 rhesymeg (ben.) – *logic*
 rhosyn (gwr.) – *a rose*; rhosod – *roses*
 rhuddin (gwr.) – *mettle*
 rhuthr (gwr.) – *a rush*
 rhwydwaith (gwr.) – *a network*; rhwydweithiau – *networks*
 rhwygo – *to rip, to tear* (bôn: rhwyg-)
 rhyfeddu (at) – *to wonder (at)* (bôn: rhyfedd-)
 rhywfodd – *somehow*

S

safiad (gwr.) – *a stance*; safiadau – *stances*
 sail (ben.) – *foundation*; seiliau – *foundations*
 seiren (ben.) – *a siren*; seirenau – *sirens*
 sgleiniog – *shiny*
 sgrech (ben.) – *a scream*; sgrechiadau – *screams*
 sgrechian – *to scream* (bôn: sgrechi-)
 siarter (ben.) – *a charter*; siarteri – *charters*
 sinistr – *sinister*
 siomi – *to disappoint* (bôn: siom-)
 sipsi (gwr.) – *gypsy*; sipswn – *gypsies*
 steilydd (gwr.) – *stylist*; steilyddion – *stylists*
 straffaglu – *to struggle* (bôn: straffagl-)
 streipen (ben.) – *a stripe*; streipiau – *stripes*
 stŵr (gwr.) – *row*
 sugno – *to suck* (bôn: sugn-)
 suo – *to murmur* (bôn: su-)
 sychlanhau – *to dry clean* (bôn: sychlanh-)
 sylfaenydd (gwr.) – *founder*; sylfaenwyr – *founders*
 synhwyrol – *sensible*

T

tanddwr – *underwater* (ans.)
 tanio – *to light; to ignite* (bôn: tani-)
 targedu – *to target* (bôn: targed-)
 tawelwch (gwr.) – *silence*
 tebygol – *likely*
 teipiadur (gwr.) – *typewriter*; teipiaduron – *typewriters*
 teirawr – *tair awr*
 teithiol – *travelling* (ans.)
 teml (ben.) – *a temple*; temlau – *temples*
 temptio – *to tempt* (bôn: temti-)
 testun gofid – *a matter of concern*
 tirlenwi – *to landfill* (bôn: tirlenw-)
 tomen (ben.) – *a heap*; tomenni – *heaps*
 tonnog – *wavy* (ans.)
 torchi llewys – *to roll up one's sleeves; to knuckle down*
 torri ar draws – *to interrupt*
 traed moch – *chaos, mess, shambles*
 traethu – *to talk; to narrate; to relate* (bôn: traeth-)
 tramgwydd (gwr.) – *an offence; a hindrance*; tramgwyddau – *offences; hindrances*
 tramgwyddo – *to offend; to be offended* (bôn: tramgwydd-)
 tranc (gwr.) – *death*
 treigl y blynyddoedd – *the passing of the years*
 trigolion (gwr.) – *residents*
 trwch (gwr.) – *thickness*
 trwy gydol – *throughout*
 trydaneiddio – *to electrify* (bôn: trydaneiddi-)
 tueddol (o) – *inclined to*
 tunnell (ben.) – *a ton*; tunelli – *tons*
 tusw (gwr.) – *a bouquet*
 twf (gwr.) – *growth*
 tynfa (ben.) – *an attraction*
 tystysgrif (ben.) – *a certificate*; tystysgrifau – *certificates*
 tywyllwch (gwr.) – *darkness*

U

undod (gwr.) – *unity*
 unffurf (ans.) – *uniform; homogenous*

Y

y cyfan (gwr.) – *the whole*
 ynghyd â – *along with*
 ymbellhau (oddi wrth) – *to distance oneself (from)* (bôn: ymbellha-)
 ymgartrefu – *to settle* (bôn: ymgartref-)
 ymgynghoriad (gwr.) – *consultation*; ymgynghoriadau – *consultations*
 ymholiad (gwr.) – *enquiry*; ymholiadau – *enquiries*
 ymlwybro – *crwydro* (bôn: ymlwybr-)
 ymroddiad (gwr.) – *dedication*

ymsefydlu – *to establish oneself* (bôn: ymsefydl-)
yn drech na – *mightier than; superior to*
yn ddiau – *doubtlessly*
yn sgil – *in the wake of*
yn y cyfamser – *in the meantime*
yn y pendraw – *in the long run*
yn yr un modd – *yn yr un ffordd*
ysbrydol – *spiritual*
ysbrydoliaeth (ben.) – *inspiration*
ysfa (ben.) – *urge*
ysgyfant (gwr.) – *lung; ysgyfaint – lungs*



Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol —
National Centre
for Learning Welsh



www.dysgucymraeg.cymru